

**HEDDLU
GOGLEDD CYMRU
NORTH WALES
POLICE**

CYDBWYLLGOR ARCHWILIO

1pm – 28 Mawrth 2024
Wyneb yn Wyneb ac Ar-lein ar Microsoft Teams


AGENDA

Yn bresennol:

CYDBWYLLGOR ARCHWILIO:	
Rachel Barber – Cadeirydd John Cunliffe Allan Rainford	Julie Perkins Sarah Davies
SWYDDOGION YR HEDDLU:	
Seb Phillips – Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Guto Edwards – Pennaeth Cyllid Helen Williams – Cyfrifydd Rheoli Ariannol Anne Matthews – Swyddog Cyllid a Chyllidebau Y Prif Uwcharolygydd Simon Williams – Gwasanaethau Corfforaethol	James Sutton – Pennaeth Cudd-wybodaeth/Cadeirydd y Bwrdd Sicrwydd Vikki Holbrook Hughes – Cadeirydd y Pwyllgor Moeseg Kerrie Ambrose – Pennaeth Newid Corfforaethol/Is-gadeirydd y Pwyllgor Moeseg Cadeirydd y Pwyllgor Moeseg Gethin Jones – Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol
SWYDDFA'R COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD:	
Stephen Hughes – Prif Swyddog Gweithredol Kate Jackson – Prif Swyddog Cyllid	Angharad Jones – Cynorthwydd Personol i'r Prif Weithredwr
ARALL YN BRESENNOL	
Helen Cargill, TIAA	Michelle Phoenix, Archwilio Cymru

	Eitemau Sefydlog		Diben	Tudalen	Amser
1	Ymddiheuriadau a Datganiadau o Ddiddordeb	Cadeirydd			
2	Cofnodion o'r cyfarfod diwethaf Bydd y Cadeirydd yn cynnig fod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Rhagfyr 2023 yn gywir.	Cadeirydd			5 mun
3	Cofnod Gweithrediadau	Cadeirydd			5 mun
	Eitemau Sefydlog				

4	Diweddariad Sefydliadol	Prif Swyddog Gweithredol a Chyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau	Gwybodaeth		5 mun
5	Diweddariad AHEM	Prif Uwcharolygydd Gwasanaethau Corfforaethol	Sicrwydd		20 mun
6	Archwilio Mewnol a. SICA Archwilio Mewnol 2023/24 b. Adroddiad Rheolwyr	a. Archwilio Mewnol b. Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau / Swyddog Cyllideb	Sicrwydd		10 mun
7	Diweddariad Risgiau - Datblygiad Proses Risg a Chofrestr Risgiau Bresennol - Cofrestr Risg SCHTh	Pennaeth Cudd-wybodaeth Busnes Prif Swyddog Gweithredol / Prif Swyddog Cyllid	Sicrwydd		10 mun
8	Rhaglen Waith 2023/24	Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau a Phrif Swyddog Cyllid	Penderfyniad		5 mun
Eitemau Sefydlog					
9	Archwilio Cymru – Adroddiad Gwerth am Arian ac Archwiliad Blynyddol (Llythyr Rheolwyr)	Swyddfa Archwilio Cymru	Sicrwydd		10 mun
10	Strategaeth Gyfalaf – (yn cynnwys Strategaeth Rheoli'r Trysorlys)	Pennaeth Cyllid	Sicrwydd		10 mun
11	Diweddariad Llywodraethu – gan gynnwys AGS drafft	Prif Swyddog Cyllid	Gwybodaeth		5 mun
12	Diweddariad Cynaliadwyedd	Rheolwr Amgylcheddol/Arbed Ynni	Sicrwydd		20 mun
13	Diweddariad Moeseg	Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Moeseg/Pennaeth Corfforaethol y Gwasanaethau Corfforaethol			
Unrhyw Fater Arall (Hysbyswch y cadeirydd cyn y cyfarfod)					
DYDDIADAU CYFARFODYDD YN Y DYFODOL 30 Gorffennaf 2024 26 Medi 2024 31 Hydref 2024 (darparu llofnodi Cyfrifon) 28 Tachwedd 2024					
CYFANSWM					



**HEDDLU
GOGLEDD CYMRU
NORTH WALES
POLICE**

CYDBWYLLGOR ARCHWILIO

**Ystafell Gynhadledd 1, Pencadlys yr Heddlu Bae Colwyn ac ar-lein drwy Teams
7 Rhagfyr 2023 am 13:00**

PRESENNOL

CYDBWYLLGOR ARCHWILIO:

Rachel Barber – Cadeirydd
John Cunliffe
Allan Rainford
Sarah Davies
Julie Perkins

SWYDDOGION YR HEDDLU:

Seb Phillips – Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau
Guto Edwards – Pennaeth Cyllid
Helen Williams – Cyfrifydd Rheolaeth Ariannol
Anne Matthews – Swyddog Cyllid a Chyllidebau
Wendy Lloyd – Cyfrifydd Ariannol
Y Prif Uwcharolygydd Simon Williams – Gwasanaethau Corfforaethol
James Sutton – Pennaeth Cudd-wybodaeth Busnes
Phil Kenyon – Cyfreithiwr yr Heddlu (Eitem 13 yn unig)
Helen Wynne-Williams – Pennaeth Technoleg
Kerrie Ambrose – Pennaeth Newid Corfforaethol
Hayley Gallienne – Pennaeth Sicrwydd Gwybodaeth

SWYDDFA'R COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD:

Andrew Dunbobbin – Comisiynydd Heddlu a Throsedd
Wayne Jones – Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throsedd
Stephen Hughes - Prif Swyddog Gweithredol
Kate Jackson – Prif Swyddog Cyllid
Amanda Hanson – Rheolwr Comisiynu (Eitem 15 yn unig)
Angharad Jones – Cynorthwydd Gweithredol (cofnodion)

POBL ERAILL YN BRESENNOL

Helen Cargill, TIAA
Michelle Phoenix, Archwilio Cymru

1. YMDDIHEURIADAU A DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Ni dderbyniwyd ymddiheuriadau a dim datganiadau diddordeb.

2. COFNODION O'R CYFARFOD DIWETHAF

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Medi 2023 yn gofnod cywir.

3. COFNOD GWEITHREDIADAU

Diweddarwyd y Cofnod Gweithrediadau a bydd yn cael ei gylchredeg gyda'r cofnodion. Y gweithrediadau a argymhellwyd eu cau ac a gytunwyd eu cau oedd: 27/7/2023 – 6b, 10, 13, 28/09/2023 – 6a, 6b, 6c, 8a, 8b, 12.

4. DIWEDDARIAD SEFYDLIADOL

Nododd y Cydbwyllgor Archwilio'r diweddariadau o'r adroddiadau gan Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a Heddlu Gogledd Cymru. Rhoddwyd diweddariadau ar y gwaith a wnaed ers cyfarfod diwethaf y Cydbwyllgor Archwilio ym mis Gorffennaf. Holwyd ac atebwyd cwestiynau tu allan i'r cyfarfod.

Nododd y Prif Swyddog Gweithredol fod un cwestiwn ar ôl i'w ateb. Bydd y diweddariad hwn yn cael ei gylchredeg at aelodau tu allan i'r cyfarfod.

Gweithrediad 4	Y Prif Swyddog Gweithredol i gylchredeg yr ateb i'r cwestiwn diweddariad sefydliadol sydd ar gael i aelodau'r CA tu allan i'r cyfarfod.
-------------------	---

5. DIWEDDARIAD HMICFRS A DILYNWR GWEITHREDIADAU

Nododd y Cydbwyllgor Archwilio'r diweddariad a roddwyd o fewn y papur. Mae'r gwaith yn parhau gwerthuso sefyllfa'r heddlu o ran Fframwaith Asesu PEEL 2024.

Holodd aelod o'r CA am sefyllfa Defnyddio Grym ar gyfer yr heddlu.

Eglurodd Prif Uwcharolygydd y Gwasanaethau Corfforaethol y gwneir hyn drwy edrych ar niferoedd arestïadau a'r nifer o ffurflenni Defnyddio Grym a dderbyniwyd. Yn ddamcaniaethol, dylai bob arestïad gael ffurflen Defnyddio Grym. Os oes gwahaniaeth mawr rhwng y niferoedd hyn, mae hyn yn peri dychryn a dyma sydd wedi digwydd yma yng Ngogledd Cymru.

Dywedodd aelod o'r CA y'i nodwyd nad oedd digon o allu o fewn yr uned atgyfeirio a gofynnodd a oedd y mater hwn wedi'i ddatrys.

Nododd Prif Uwcharolygydd y Gwasanaethau Corfforaethol fod adnoddau ychwanegol wedi cael eu rhoi yn yr uned atgyfeirio ac mae amserlenni wedi lleihau'n sylweddol. Nodwyd fod yr uned bellach mewn sefyllfa llawer cryfach a gall ddangos hyn.

Nododd aelod o'r CA hefyd nad oedd yr heddlu'n cofnodi dysgu'n rheolaidd o ran trosedd difrifol a threfnedig, hyd yn oed os oedd hyn yn faes i'w wella yn 2016.

Nodwyd nad oedd y pwynt gweithredu hwn wedi'i nodi o'r archwiliad diwethaf ac felly ni chamwyd camau pellach. Mae'r Heddlu bellach yn edrych ar hyn ac mae gwaith ar y gweill er mwyn sicrhau bod dysgu'n cael ei ddal.

Holodd aelodau o'r CA i lai o acronymau gael eu defnyddio o fewn y ddogfen gan ei bod hi'n ei gwneud hi'n anodd darllen. Gofynnodd i amserlenni gael eu cynnwys o fewn y papur er mwyn galluogi aelodau weld yn hawdd yr hyn oedd yn digwydd.

Gweithrediad 5	Prif Uwcharolygydd y Gwasanaethau Corfforaethol i sicrhau bod llai o acronymau'n cael eu defnyddio o fewn y papur Diweddariad HMICFRS a chynnwys amserlenni gweithrediadau.
-------------------	---

6. ARCHWILIO MEWNOL

a. ARCHWILIO MEWNOL SICA 23-24

Nododd y Cydbwyllgor Archwilio'r diweddariad a roddwyd o fewn y papur sy'n rhoi diweddariad ar gynnydd o ran Cynllun Blynyddol 2023-24 hyd at 15 Tachwedd 2023.

Mae tri archwiliad wedi'u cwblhau ers cyfarfod diwethaf y Cydbwyllgor Archwilio. Ni chodwyd unrhyw fater. Mae gwaith pellach ar y gweill a bydd llawer o archwiliadau'n cael eu rhoi'n fuan. Mae ychydig o ddyddiadau archwilio angen cael eu cadarnhau. Mae un archwiliad (Adolygiad Seilwaith TGCh) yn debygol o gael ei ohirio tan 2024/25 ond mae disgwyl iddo gwblhau gweddill y cynllun erbyn diwedd mis Mawrth 2024.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau fod argymhellion archwiliad Rheoli Absenoldeb AD wedi cael eu hoedi ond mae gwaith yn cael ei wneud ac mae'r strwythur llywodraethu'n cael ei wneud. Mae hwn yn faes lle mae'r Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau wedi bod yn gweithio'n agos hefo cydweithwyr. Mae pryder am gynnydd araf ond gall sicrhau aelodau fod materion yn symud ymlaen.

Nododd Swyddog Cyllid a Chyllidebau fod yr archwiliad Seilwaith TGCh wedi'i oedi gan fod archwilwyr TGCh ond newydd dderbyn eu cliriad fetio. Erbyn 2024/25, byddai'r cynllun wedi'i ddatblygu'n well.

Nododd y Cadeirydd fod y CA wedi cymeradwyo'r Cynllun Archwilio Blynyddol a holodd a fyddai newidiadau i'r cynllun hwn wedi'i gyflwyno i'r CA am gymeradwyaeth.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau y byddai newidiadau'n cael eu hadrodd wrth y Cydbwyllgor Archwilio, ond gall rhai gael eu hysbysu yn ôl-dremiol. Bydd unrhyw newidiadau mewn dyddiadau archwiliad yn cael eu cynnwys o fewn yr Adroddiad Rheolwyr a gyflwynir i'r Cydbwyllgor. Holodd oes oedd y Cydbwyllgor yn fodlon hefo'r ymdriniaeth hon.

Cadarnhaodd y Cadeirydd fod aelodau'n fodlon hefo'r ymdriniaeth hon.

b. TROSOLWG ARCHWILIO MEWNOL – ADRODDIAD RHEOLWYR

Nododd y Cydbwyllgor Archwilio'r papur sy'n rhoi trosolwg o weithgarwch rheolaethau mewnol o fewn Heddlu Gogledd Cymru.

7. DIWEDDARIAD RISG

Nododd y Cydbwyllgor Archwilio'r diweddariad a roddwyd o fewn y papur Diweddariad Risg ar 17 Tachwedd 2023.

Nododd y Pennaeth Cudd-wybodaeth Busnes fod y Rheolwyr Risg wedi derbyn sicrwydd sylweddol yn eu hadroddiad archwiliad mewnol. Diolchodd i'r Arweinydd Risg a Pharhad Busnes am ei waith caled.

Nododd aelod o'r CA fod y tablau ar weithrediadau Cofrestr Risg yr Heddlu'n wyrdd iawn (ar y gweill). Holodd a ydy'r Heddlu'n ail-ddyddio gweithrediadau sy'n mynd oddi ar y trywydd ac felly eu bod yn dangos fel gwyrdd oherwydd eu bod yn weithrediadau wedi'u hail-ddyddio neu mae pob gweithrediad yn cwbl wyrdd.

Y Pennaeth Cudd-wybodaeth Busnes i adolygu a chynnwys o fewn papurau'r dyfodol at y Cydbwyllgor Archwilio.

Gweithrediad 7	Y Pennaeth Cudd-wybodaeth Busnes i adolygu â ydy'r holl weithrediadau a ddangosir o dan "Weithrediadau Cofrestr Risg yr Heddlu" o fewn y papur yn gwbl wyrdd neu a ydynt wedi cael eu hail-ddyddio. Y wybodaeth hon i'w chynnwys o fewn y papur CA nesaf.
-------------------	---

Holodd aelod o'r CA pam fod y risg Uplift wedi'i gau ond wedi'i ailagor yn fuan wedyn.

Hysbysodd y Pennaeth Cudd-wybodaeth Busnes fod yr Heddlu'n credu eu bod wedi ymdrin hefo'r risg ond cafodd ei rhoi'n ôl ar y gofrestr ac wedi'i hadolygu gan yr Uwch Dîm Rheoli. Caewyd y risg gan fod yr Heddlu wedi cyflawni ei nifer targed o swyddogion Uplift erbyn 31 Mawrth 2023 ac mae wedi sicrhau ei gyllid.

Mae cynnal y targed sylfaenol hefyd hefo goblygiadau ariannu. Felly, agorwyd risg o ran cynnal y lefel swyddogion wrth symud ymlaen a bod gan y risg newydd eiriad ychydig yn wahanol i'r risg blaenorol.

8. RHAGLEN WAITH 2023/24

Nododd y Cydbwyllgor Archwilio'r rhaglen waith ddiweddaraf a gyflwynwyd. Nododd y Prif Swyddog Cyllid y diweddarwyd y rhaglen drwy gydol y cyfarfod gyda sylwadau aelodau.

Gwnaeth y Prif Bennaeth Cyllid a'r Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau ddeall yr hoffai'r Cydbwyllgor weld Deallusrwydd Artiffisial wedi'i gynnwys o fewn y rhaglen waith. Codwyd y mater mewn cyfarfod all-lein rhwng aelodau a swyddogion y CA.

Holodd aelodau a oes gan CGI y dechnoleg a digon o arbenigedd yn y maes gwaith hwn a holodd am ddiweddariad ar sut y lliniarir risg.

Nododd y Pennaeth Cudd-wybodaeth Busnes fod hwn wedi'i godi o ran risg a moeseg. Mae'r Heddlu'n edrych ar hyn o bryd ar fuddsoddi yn y maes hwn. Mae Prifysgol Bangor wedi ymgymryd ymchwil ar farn y cyhoedd ar ddeallusrwydd artiffisial yn enwedig o ran plismona.

Bydd Pennaeth Newid Corfforaethol yn cwmpasu cyfarfod misol hefo aelod o'r CA yn y lle cyntaf a'i gyflwyno i Gydbwyllgor Archwilio mis Mawrth. Ond mae angen sicrhau bod y maes gwaith hwn yn clymu hefo Cylch Gorchwyl y Cydbwyllgor.

Gweithrediad 8a	Y Prif Swyddog Cyllid i gynnwys deallusrwydd artiffisial yn rhaglen waith Cydbwyllgor Archwilio mis Mawrth.
--------------------	---

Holodd y Cadeirydd am ddiweddarau'r rhaglen waith er mwyn dangos pa bynciau sy'n cael eu gorchymyn (rhaid trafod) a pha eitemau sy'n gysylltiedig hefo'r Cylch Gorchwyl (eisiau gwneud).

Gweithrediad 8b	Y Prif Swyddog Cyllid i nodi ar y Rhaglen Waith a orchmynnir eitemau neu a ydynt yn gysylltiedig hefo Cylch Gorchwyl y Cydbwyllgor.
--------------------	---

9. ISA 260 A LLOFNODI CYFRIFON

Diolchodd Archwilio Cymru'r Tîm Cyllid am eu gwaith caled yn ystod archwilio'r cyfrifon. Maent yn bwriadu cyhoeddi barn archwiliad ddiamwys ar gyfrifon grŵp y Comisiynydd a chyfrifon y Prif Gwnstabl unwaith mae'r llythyrau cyflwyniad wedi'u llofnodi wedi'u derbyn.

Mae dau gamddatganiad anghywir wedi cael eu nodi ond mae Archwilio Cymru'n gyfforddus hefo peidio newid y camddatganiadau hyn gan nad ydynt yn effeithio ar y dilysiad cyffredinol ac ni ystyrir nhw'n sylweddol.

Holodd aelod o'r CA os oedd gwerth am arian wedi cael ei ystyried fel ddim ei gynnwys o fewn y cyfrifon.

Dywedodd Archwilio Cymru y byddai gwerth am arian yn cael ei nodi yn y Llythyr Archwilio Blynyddol sydd eto i'w gyhoeddi. Ni ellir cyhoeddi'r llythyr hwn hyd nes i'r Archwilydd Cyffredinol lofnodi'r cyfrifon ond gellir cadarnhau fod y gwaith wedi cael ei gwblhau. Cyflwynir y llythyr i gyfarfod nesaf y Cydbwyllgor Archwilio ym mis Mawrth 2024.

Holodd aelod o'r CA a oedd archwiliad hwyr wedi effeithio ar y Tîm Cyllid.

Dywedodd y Pennaeth Cyllid ei bod wedi bod yn gyfnod hynod brysur a bod y Tîm wedi gorfod cydbwyso ymdrin hefo'r archwiliad a'r cyfrifon wrth hefyd ymgymryd â gwaith paratoi ar gyfer cyllideb 2024/25 ond nododd bod yr holl ddyddiadau cau wedi'u bodloni.

Diolchodd aelodau a'r Cadeirydd i'r holl bartïon wrth gyflawni set o gyfrifon diamod. Penderfynodd y Cydbwyllgor Archwilio'r canlynol:

Yn unol â'i Gylch Gorchwyl, mae'r Cydbwyllgor Archwilio wedi adolygu Datganiadau Ariannol Blynyddol y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023. Mae hefyd wedi ystyried adroddiadau'r archwiliwr allanol o hynny ymlaen. Mae'r Cydbwyllgor Archwilio yn cadarnhau nad oes materion heb eu datrys yn codi sydd angen eu hadrodd i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl, cyn i'r Datganiadau Ariannol Blynyddol gael eu cymeradwyo.

NODER: Gwnaiff y Comisiynydd Heddlu a Throsedd, y Prif Gwnstabl a'r holl bartïon eraill lofnodi'r cyfrifon yn electronig tu allan i'r cyfarfod hwn.

10. RHAGLEN GYFALAF – DIWEDDARIAD

Gwnaeth aelodau'r Cydbwyllgor nodi cynnwys y cyflwyniad a rannwyd yn ystod y cyfarfod.

Hysbysodd y Pennaeth Cyllid fod adroddiad archwilio mewnol y Rhaglen Gyflaaf wedi derbyn sicrwydd sylweddol hefo dau faes arfer da wedi'i nodi. Mae'r rhaglen gyfalaf wedi gostwng, a rhoddodd yr adroddiad archwilio mewnol sicrwydd fod y gweithdrefnau llywodraethu cywir mewn lle.

Nodwyd bod peth llithriant wedi bod yn y Flwyddyn Ariannol hon, ond mae'r prosiect cyfalaf prif stadau bellach ar dendr. Mae pawb yn hyderus y bydd y prosiect hwn yn mynd ymlaen ond mae'r amserlen yn ansicr ar hyn o bryd.

Mae'r system Gorchymyn a Rheoli hefyd wedi cael ei oedi ond mae bellach yn symud ymlaen. Bydd uwchraddio camerâu corff hefyd yn digwydd yn y flwyddyn ariannol nesaf, sy'n golygu y bydd cynlluniau'n pentyrru.

Mae'r Heddlu yn y broses o ddiweddarau'r rhaglen gyfalaf ac mae ganddo raglen realistig y gellir ei chyflawni ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf.

11. RHEOLI'R TRYSORLYS

Nododd y Cydbwyllgor Archwilio adroddiad crynodeb Rheoli'r Trysorlys sy'n amlygu'r gweithgarwch a ymgymerir yn ystod 2023-24. Mae hefyd yn nodi nad oes cyfyngiad neu doriadau mynegi ac mae'n manylu buddsoddi arian parod dros ben a gofynion benthyca.

Mae Cod Ymarfer Rheoli'r Trysorlys CIPFA yn y Gwasanaethau Cyhoeddus yn gofyn am adroddiad ar gyflawniad Rheoli'r Trysorlys gael ei ystyried o leiaf ddwywaith y flwyddyn gan y Cydbwyllgor Archwilio. Mae gofyniad newydd hefyd yn y Cod diwygiedig ar gyfer 2021. Mae adroddiad chwarterol am ddangosyddion darbodus rheoli'r trysorlys yn orfodol o 1 Ebrill 2023. Adroddir y rhain drwy eithriad i'r Bwrdd Gweithredol Strategol a'r Bwrdd Rheoli Strategol, ac mae hefyd yn cynnwys dangosyddion darbodus nad ydynt yn rhan o'r trysorlys.

Hysbysodd y Pennaeth Cyllid fod cyfraddau llog yn uchel ar hyn o bryd a rhagwelir y bydd incwm o log yn £2.6m yn y flwyddyn ariannol hon.

Nododd Aelod o'r CA fod rhaid awdurdodau lleol yn mynd ar ol cyfraddau llog uwch. Nododd fod y Northern Trust Corporation wedi cael ei ychwanegu at y rhestr partïon i gytundeb. Nid oedd un aelod wedi clywed am y cwmni hwn a holodd os ymgymerir â diwydrwydd dyladwy.

Nododd y Pennaeth Cyllid fod diwydrwydd dyladwy yn cael ei ymgymryd gan Arlingclose cyn y buddsoddir mewn unrhyw gwmni. Gan fod hwn yn gwmni newydd, byddai'r Heddlu'n gwneud gwiriadau pellach hefyd.

Holodd aelod o'r Cydbwyllgor Archwilio a ydy Heddlu Gogledd Cymru yn llunio rhestr o sefydliadau/awdurdodau o ran pwy ddylen nhw fenthyg arian iddyn nhw.

Hysbysodd y Pennaeth Cyllid y byddent eto'n ceisio cyngor gan Arlingclose ynghylch pwy ddylent/na ddylent fenthyg arian iddyn nhw. Mae'r mwyafrif o fuddsoddiadau hefo adrannau'r Llywodraeth. Mae cyfraddau llog presennol a dderbyniwyd gan y Swyddfa Rheoli Dyledion cystal,

os nad yn well, na ffynonellau eraill ar hyn o bryd. Hysbyswyd hefyd bod yr Heddlu'n annhebygol o fenthwg unrhyw arian yn fuan.

12. DIWEDDARIAD LLYWODRAETHU

Nododd y Cydbwyllgor Archwilio'r gwaith a wnaed gan y Bwrdd Cyd-lywodraethu a'r mewnbwn a gafwyd gan y Bwrdd Sicrwydd.

13. DIWEDDARIAD CYFREITHIOL

Nododd y Cydbwyllgor Archwilio'r Diweddariad Cyfreithiol a roddodd drosolwg o'r gweithgarwch cyfreithiol a ymgymerwyd o fewn yr Heddlu yn y chwe mis diwethaf. Nododd nad oedd materion o bwys i'w hadrodd amdanynt.

Holodd aelod o'r CA am gyfanswm yr hawliadau a dderbyniwyd gan fod Atebolrwydd Cyflogwyr am y chwe mis diwethaf i'w weld yn uchel. Holodd am gyfanswm cyffredinol gan nad ydy'r colofnau i weld yn adio fyny'n gywir.

Nododd Cyfreithiwr yr Heddlu nad ydy pob hawliad atebolrwydd cyhoeddus/cyflogwyr yn cael eu setlo yn yr un flwyddyn ariannol ag y cawsant eu codi ond byddant yn mynd yn ôl ac edrych ar batrymau/ffigyrâu'r ychydig flynyddoedd diwethaf.

Gweithrediad 13	Mae Cyfreithiwr Cynorthwyol am ymchwilio a ydy ffigyrâu o fewn Tabl 1 yn gywir ac a oes mwy o hawliadau atebolrwydd cyhoeddus/cyflogwyr wedi cael eu derbyn o fewn y flwyddyn ariannol ddiwethaf.
-----------------	---

14. SESIWN FRIFFIO'R CA – STRYDOEDD DIOGELACH/DIOGELWCH MERCHED YN Y NOS/TRAIS YN ERBYN MERCHED A GENETHOD

Rhannodd y Rheolwr Comisiynu gyflwyniad hefo'r Cydbwyllgor Archwilio ar y gwaith comisiynu a'r prosesau a ymgymerwyd o fewn Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd. Gwnaeth y Rheolwr Comisiynu hefyd amlygu'r hyn a ystyrir wrth gomisiynu gwasanaethau. Eglurodd fod Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn gweithio mewn partneriaeth agos hefo ystod o bartneriaid a bod comisiynu ar y cyd yn bwysig iawn ac yn ffordd dda ymlaen.

Nododd aelod o'r CA fod y Rheolwr Comisiynu wedi dweud bod Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn ymgymryd comisiynu ar sail canlyniadau. Holodd sut mae'r swyddfa'n mesur os ydy'r strydoedd wedi cael eu gwneud yn fwy diogel.

Dywedodd y Rheolwr Comisiynu fod y Swyddfa Gartref wedi gofyn am ddata fel tystiolaeth o ganlyniadau a gall hyn weithiau fod yn her gan eu bod nhw'n comisiynu gwasanaethau ataliol. Mae data ar gael weithiau. Ond, os nad ydy'r data ar gael, ni ellir tybio nad ydy'r cynllun wedi gweithio. Weithiau fe ddefnyddir gwybodaeth leol, ac fe ystyrir yr hyfforddiant a roddir h.y. ysgolion. Derbynnir adroddiadau wythnosol hefyd gan yr Heddlu'n dangos ffigyrâu trosedd ar gyfer ardaloedd ac sy'n mesur canfyddiad y cyhoedd drwy arolygon cyhoeddus.

15. UNRHYW FATER ARALL

Nid chodwyd mater arall.

Dymunodd y Cadeirydd Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb.

Cynhelir cyfarfod nesaf y Cydbwyllgor Archwilio ar 28 Mawrth 2024 am 1pm fel cyfarfod hybrid: yn y cnawd yn Ystafell Gynhadledd 1, Pencadlys yr Heddlu Bae Colwyn a dros Microsoft Teams.

CYDBWYLLGOR ARCHWILIO
COFNOD GWEITHREDIADAU o 07.12.2023

	Ar agor
	Wedi cau
	Wedi ei ohirio

Gweithrediadau newydd/agored o fis Mawrth 2021

DYDDIAD CYFARFOD	RHIF COFNOD	DISGRIFIAD GWEITHREDIAD	ANGEN ERBYN (DYDDIAD)	SAWL SY'N GYFRIFOL	DIWEDDARIAD
28/03/2023	8	Diweddariad Risgiau - Y Pennaeth Cudd-wybodaeth Busnes i rannu'r adroddiad ar yr adolygiad rheoli risg gydag aelodau tu allan i'r cyfarfod.	Ar unwaith	Pennaeth Cudd-wybodaeth Busnes	<p>28/06/23 - Rhannwyd Cylch Gorchwyl ar gyfer Adolygiad Rheoli Risg i'w ymgymryd gan Gallagher Bassett gyda'r CA drwy eu Google Drive ar 07/03/23.</p> <p>Ers hynny, mae'r Heddlu wedi newid yswirwyr i Maven. Felly, ni fydd yr adolygiad hwn yn cael ei gynnal bellach gan Gallagher Bassett.</p> <p>Un o anafanteision symud yswiriwr ydy fod y cymorth rheoli risg a ddarperir yn rhedeg ar y cyd â'n polisi presennol fel mantais gwerth ychwanegol. Fel y gwyddwn o'r blynyddoedd diwethaf, cynigiodd RMP sawl diwrnod rheoli risg am ddim o fewn tymor y cytundeb. Ar ben hyn, cynigiwyd cyfres o raglenni hyfforddiant gweminar ar-lein yn edrych ar feysydd cnoi cil llai. Yn anffodus, nid ydy Maven wedi'i sefydlu mewn ffordd i gynnig mor helaeth ag RMP.</p> <p>Fodd bynnag, mae Maven wedi cynnig cronfa rheoli risg o £2,500 i'r Heddlu o dan y dyfynbris atebolrwydd.</p> <p>Mae'r Arweinydd Risg a Pharhad Busnes ar hyn o bryd yn y broses o drosglwyddo drwy'r brocer i Maven. Mae hyn er mwyn gweld pa feysydd o Gylch Gorchwyl gwreiddiol Gallagher Bassett a allent symud ymlaen â nhw a'u trefnu o fewn y gyllideb o £2,500. Mae Maven hefyd wedi awgrymu</p>

DYDDIAD CYFARFOD	RHIF COFNOD	DISGRIFIAD GWEITHREDIAD	ANGEN ERBYN (DYDDIAD)	SAWL SY'N GYFRIFOL	DIWEDDARIAD
					<p>anghenion hyfforddiant bach y gallent feddwl amdanynt a rhoi cyngor mewnl heb ddefnyddio'r gronfa.</p> <p>Rhoddir diweddariad pellach faes o law.</p> <p>27/07/2023 - Mynegodd aelod o'r CA eu siom na wnaeth yr adolygiad ddigwydd hefo Gallagher Bassett. Holodd aelod os oedd hyn yn un o'u rhwymedigaethau cytundebol ac wedi gofyn sut na wnaeth yr adolygiad hwn gymryd lle.</p> <p>Dyweddodd y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau nad oedd yn rhwymedigaeth gytundebol i Gallagher Bassett. Dywedodd y Pennaeth Cudd-wybodaeth Busnes nad oedd rhwymedigaeth i HGC ymgymryd â'r adolygiad hwn a byddai hyn yn lefel sicrwydd sicrwydd 3ydd lefel.</p> <p>Dyweddodd aelod o'r CA y byddai'n ddefnyddiol iawn cael yr adolygiad hwn ac mae'r un cwestiynau'n codi.</p> <p>Dyweddodd y Cadeirydd y dylai'r adolygiad hwn gael ei wneud gan ei fod yn rhoi sicrwydd i bawb.</p> <p>Nododd Prif Uwcharolygydd Dros Dro'r Gwasanaethau Corfforaethol fod hyn dal ar y gweill ac y gwelir ffordd well ymlaen.</p> <p>25/08/2023 - Rhoddir diweddariad ar lafar gan y Pennaeth Cudd-wybodaeth Busnes yn y cyfarfod ar 28/09/23 ar yr Adolygiad Cymheiriaid gan Heddlu De Cymru.</p> <p>28/09/2023 – Wedi ei gytuno gyda De Cymru ac yn edrych ar ddyddiadau fis Tachwedd. Cylch gorchwyl yn mynd i gael ei gynhyrchu ar dempled Gallagher Bassett. Bydd y Cydbwyllgor Archwilio yn gweld allbwn ac yn gobeithio i'w dabl yn y cyfarfod ym mis Rhagfyr neu fis Mawrth ond gellir cael diweddariad y tu allan i'r cyfarfod.</p> <p>03/11/23 - Trefniadau wedi gwneud ar gyfer Rheolwr Risg Heddlu Gogledd Cymru i ymweld â Heddlu Gogledd Cymru ar 17 Tachwedd a gwneud Adolygiad o Brosesau Rheoli Risg. Yn anffodus, ar 18 Hydref cawsom wybod bod y Rheolwr Risg De Cymru "i ffwrdd o'r gwaith ar hyn o bryd</p>

DYDDIAD CYFARFOD	RHIF COFNOD	DISGRIFIAD GWEITHREDIAD	ANGEN ERBYN (DYDDIAD)	SAWL SY'N GYFRIFOL	DIWEDDARIAD
					<p>oherwydd amgylchiadau personol ac yn methu ymgymryd â'r adolygiad fel y cynlluniwyd".</p> <p>Cyn gynted ag y bydd Rheolwr Risg HGC yn dychwelyd i'r gwaith, byddaf yn gwneud trefniadau ar gyfer Adolygiad ac yn parhau i ddiweddarau aelodau'r CA.</p> <p>21/02/24 – Dywedodd y Swyddog Risg a Pharhad Busnes y cafodd yr Heddlu wybod ar 18/02/2024 fod y Rheolwr Risg o Heddlu De Cymru i dychwelyd ar 25/03/24 yn raddol felly nid ydynt yn gallu ymgymryd hefo'r adolygiad cymheiriad tan ddiwedd y flwyddyn ar y cynharaf.</p> <p>Mae Adolygiadau Cymheiriad ar draws bob Heddlu wedi cael ei godi gan Neil Ackers a Fforwm Rheoli Risg Cenedlaethol CCPSH ac mae Rheolwyr Risg pob Heddlu'n mynychu hwn. Roedd cydsyniad fod hwn yn syniad arloesol ac mae wedi'i ddatblygu gan Lee Milton, Rheolwr Cynllunio Strategol a Risg Strategol CCPSH. Cafodd y cynnig canlynol ei gynnwys yn adroddiad Lee i Gyngor Cenedlaethol y Prif Swyddogion Heddlu ar gyfer eu cyfarfod ar 20 Mawrth 2024.</p> <p><i>"Fel rhan o drafodaethau rheoli risg ehangach drwy'r Fforwm, mae'r tîm SPP hefyd wedi cynnig profi cefnogaeth am broses 'asesiad cymheiriad'. Mae heddluoedd wedi nodi blwch mewn asesiad cymheiriad sydd ar gael ar gyfer rheoli risg, a mantais bosibl rhwydwaith cymorth cymheiriad er mwyn ymgymryd ag adolygu a sylfaenu ymdriniaeth plismona. 5.3.2. Yn dilyn cais gan Heddlu Gogledd Cymru, mae proses brawf wedi cael ei chynnig a bydd yn cael ei thrafod yn y Fforwm ym mis Mawrth. Bydd cylch gorchwyl yn cael ei ddrafftio a'i rannu er mwyn i heddluoedd gytuno arno cyn ymgwymerir â'r gwaith. Mae'r Fforwm yn ymgysylltu hefo cydweithwyr asesiad cymheiriad a'r Coleg Plismona er mwyn edrych ar gymorth cymesur a phriodol a ellir ei roi i gydweithwyr er mwyn i'r CCC gytuno."</i></p> <p>Mae hyn yn hynod galonogol. Os gwnaiff y CCPSH gymeradwyo ar 20/03/24, byddwn hefo cefnogaeth bob Prif Gwnstabl a'r Coleg Plismona. Rwyf wedi gofyn i HGC fod yr Heddlu 'arbrol' cyntaf ar gyfer adolygiad cymheiriad ond yn anffodus, nid wyf yn gallu rhoi amserlenni ar hyn o bryd. Byddaf yn mynd i'r Fforwm Rheoli Risg nesaf ar 19 Mehefin 2024 lle fydd pawb sy'n bresennol yn derbyn diweddariad ar benderfyniad CCPSH.</p>
28/09/2023	4	Diweddariad Sefydliadol - Prif Uwcharolygydd y Gwasanaethau	Cyfarfod mis Rhagfyr	Prif Uwcharolygydd Gwasanaethau Corfforaethol	19/10/2023 - Diweddariad wedi ei gylchredeg i aelodau'r CA. Awgrymu cau'r gweithrediad.

DYDDIAD CYFARFOD	RHIF COFNOD	DISGRIFIAD GWEITHREDIAD	ANGEN ERBYN (DYDDIAD)	SAWL SY'N GYFRIFOL	DIWEDDARIAD
		Corfforaethol i roi diweddariad ar gamerâu pellach a'r Prif Swyddog Gweithredol i roi diweddariad ar effaith lleol ar swyddogion drylliau tanio pellach yng nghyfarfod nesaf y Cydbwyllgor Archwilio.			07/12/2023 – Holodd aelod o'r CA sut y derbyniwyd sicrwydd bod camerâu corff yn cael eu troi ymlaen/eu diffodd yn briodol. Prif Uwcharolygydd Gwasanaethau Corfforaethol i fynd ac adrodd yn ôl. Eglurodd y Prif Weithredwr fod Heddlu Gogledd Cymru wedi gweld unrhyw Swyddogion Drylliau Tanio y buasant yn hoffi cyflwyno eu trwyddedau Drylliau Tanio. 02/02/2024 – rhoddwyd diweddariad ac fe gafodd ei gadw ar Google Drive. Awgrymu cau'r gweithrediad.
28/09/2023	6d	Trosolwg Archwilio Mewnol - Adroddiad Rheolwyr - Y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau i drafod archwiliad Fetio hefo'r Swyddog Cyllidebau a Chyllid a hysbysu aelodau'r CA tu allan i'r cyfarfod ynghylch a fethir y dyddiadau cau cyflawni.	Ar unwaith	Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau/Swyddog Cyllid a Chyllidebau	Ymateb y Swyddog Cyllid a Chyllidebau - cafwyd trafodaethau hefo Rheolwr Fetio'r Heddlu, y CCA a'r TIAA. Mae hyn wedi arwain at ystyried "nad ydy'r argymhelliad hwn yn briodol bellach". Gwybodaeth wedi ei gylchredeg i aelodau'r CA cyn y cyfarfod ac mae ymateb byr iddo o fewn yr adroddiad archwilio mewnol. 12/03/2023 – Rhoddir y diweddariad canlynol yn adroddiad archwilio mewnol y CA: <i>"Ymateb FBO – cedwir data mewn dau le – system Corevet a'r gyriant Fetio. Pan adolygir cofnodion unigol un ai oherwydd newid amgylchiad, gwiriad iechyd oherwydd symudiad neu maent angen ail-fetio yn y cam adnewyddu, mae'r cyfleoedd hyn yn mynd a chael eu hail-gofnodi a throsi unrhyw ffeiliau i'r system. Gall y tîm fetio holi'r data drwy edrych mewn dau le hyd nes i'r trosiad ôl-gofnodi llawn gael ei gwblhau..."</i> Awgrymu cau'r gweithrediad.
28/09/2023	13	Briffio CA - Trefniadau llywodraethu ar y cyd Y Pennaeth Newid Corfforaethol ac arweinydd TG y CA i drafod y meysydd cydweithredol mwyaf amlwg a'r risg uchaf mewn cyfarfodydd misol.	Cyn cyfarfod mis Rhagfyr	Pennaeth Newid a Chydweithredu ac Arweinydd TG CA	22/11/2023 – Rhestr o >100 ar y cyd y tu allan i faes gwaith Pennaeth Newid Corfforaethol ac ni fyddai gan y cyfarfodydd digidol misol y capasiti i ymwneud ag agenda ehangach. Pennaeth Newid a Chydweithredu yn cydlynu rhestr o'r holl gydweithredu a dyddiadau adolygiadau llywodraeth a gynhaliwyd ac wedi eu cwblhau yn cael eu rhannu gyda CA i gael sicrwydd pellach. 07/12/2023 – Holodd aelod o'r CA o ran lle mae'r maes gwaith hwn yn cael ei lywodraethu o fewn yr Heddlu. Dywedodd Prif Uwcharolygydd y Gwasanaethau Corfforaethol fod angen ymgymryd â gwaith ac mae'r Pennaeth Newid Corfforaethol yn llunio rhestr o gydweithrediadau a sut maent yn cael eu llywodraethu ar hyn o bryd.

DYDDIAD CYFARFOD	RHIF COFNOD	DISGRIFIAD GWEITHREDIAD	ANGEN ERBYN (DYDDIAD)	SAWL SY'N GYFRIFOL	DIWEDDARIAD								
					06/03/2024 – Crëwyd cofrestr cydweithrediadau ac fe'i cadwyd ar Google Drive. Ar ben hyn, mae Archwilio Mewnol yn cynnal archwiliad ar gydweithredu ar hyn o bryd.								
07/12/2023	4	Diweddariad Sefydliadol – Y Prif Swyddog Gweithredol i gylchredeg yr ateb i'r cwestiwn sydd ar ôl sy'n codi o'r diweddariad sefydliadol i aelodau'r CA tu allan i'r cyfarfod.	Ar unwaith	Prif Weithredwr	11/12/2024 – Rhoddwyd diweddariad i aelodau'r CA.								
07/12/2023	5	HMICFRS – Prif Uwcharolygydd y Gwasanaethau Corfforaethol i sicrhau bod llai o acronymau'n cael eu defnyddio o fewn y papur Diweddariad HMICFRS a chynnwys amserlenni gweithrediadau.	Cyn y cyfarfod nesaf	Prif Uwcharolygydd Gwasanaethau Corfforaethol	Papur HMICFRS ynghlwm. Awgrymu cau'r gweithrediad.								
07/12/2023	7	Diweddariad Risgiau - Y Pennaeth Cudd-wybodaeth Busnes i adolygu â ydy'r holl weithrediadau a ddangosir o dan "Weithrediadau Cofrestr Risg yr Heddlu" o fewn y papur yn gwbl wyrdd neu a ydynt wedi cael eu hail-ddyddio. Y wybodaeth hon i'w chynnwys o fewn y papur CA nesaf.	Ar unwaith	Pennaeth Cudd-wybodaeth Busnes	<p>Diweddarau 09/02/24 gan yr Arweinydd Risg a Pharhad Busnes.</p> <p>Cafodd y canlynol ei gofnodi yn Adroddiad Risg y CA o dan (Eitem 9):</p> <p>9. GWEITHREDIADAU COFRESTR RISGIAU'R HEDDLU</p> <ul style="list-style-type: none"> Graddau RAG Gweithrediadau Risg - HGC <table border="1"> <thead> <tr> <th>Gweithrediadau Ddim ar y Gweill</th> <th>Gweithrediadau Ar y Gweill ond gyda Phroblemau</th> <th>Gweithrediadau Ar y Gweill</th> <th>Gweithrediadau wedi'u Cwblhau</th> </tr> </thead> <tbody> <tr> <td>0</td> <td>0</td> <td>57</td> <td>75</td> </tr> </tbody> </table> <p>Mae risgiau wedi'u hamlygu gyda '<i>Gweithrediadau ar y Gweill ond gyda phroblemau</i>' yn berthnasol i Weithrediadau sy'n cael eu marcio ar hyn o bryd fel yn aros neu wedi gohirio ac yn disgwyl ar benderfyniadau ar gynydd.</p>	Gweithrediadau Ddim ar y Gweill	Gweithrediadau Ar y Gweill ond gyda Phroblemau	Gweithrediadau Ar y Gweill	Gweithrediadau wedi'u Cwblhau	0	0	57	75
Gweithrediadau Ddim ar y Gweill	Gweithrediadau Ar y Gweill ond gyda Phroblemau	Gweithrediadau Ar y Gweill	Gweithrediadau wedi'u Cwblhau										
0	0	57	75										

DYDDIAD CYFARFOD	RHIF COFNOD	DISGRIFIAD GWEITHREDIAD	ANGEN ERBYN (DYDDIAD)	SAWL SY'N GYFRIFOL	DIWEDDARIAD
					<p>Mae risgiau wedi'u hamlygu gyda 'Gweithrediadau Ddim ar y Gweill' yn berthnasol i Weithrediadau hwyr ac yn disgwyl diweddariadau gan Arweinwyr Risg.</p> <p>Ar bob Templed Risg, os diwygir Dyddiad Targed Gweithrediad, gwneir cofnod o'r dyddiad diwethaf a'r Dyddiad Targed Gweithredu newydd.</p> <p>Mae bob colofn yn cael ei chwblhau ar adeg cwblhau'r adroddiad risg ac fe atgoffir Arweinwyr Risg o'u Dyddiadau Targed.</p> <p>Awgrymu cau'r gweithrediad.</p>
07/12/2023	8a	Rhaglen Waith – Y Prif Swyddog Cyllid i gynnwys deallusrwydd artiffisial yn rhaglen waith Cydbwyllgor Archwilio mis Mawrth.	Cyn y cyfarfod nesaf	Prif Swyddog Cyllid	Roedd y Cynorthwydd Gweithredol wedi trefnu sesiwn ar wahân ddigwydd ar 26 Ebrill i aelodau dderbyn sesiwn briffio ar Ddeallusrwydd Artiffisial.
07/12/2023	8b	Rhaglen Waith – Y Prif Swyddog Cyllid i nodi ar y Rhaglen Waith a orchmynnir eitemau neu a ydynt yn gysylltiedig hefo Cylch Gorchwyl y Cydbwyllgor.	Cyn y cyfarfod nesaf	Prif Swyddog Cyllid	Diweddarwyd y Rhaglen Waith er mwyn adlewyrchu a orchmynnir neu a gysylltir hefo Cylch Gorchwyl y Cydbwyllgor.
07/12/2023		Diweddariad Cyfreithiol – Mae Cyfreithiwr yr Heddlu am ymchwilio a ydy ffigyrau o fewn Tabl 1 yn gywir ac a oes mwy o hawliadau atebolrwydd cyhoeddus/cyflogwyr wedi cael eu derbyn o fewn y flwyddyn ariannol ddiwethaf.	Ar unwaith	Cyfreithiwr yr Heddlu	<p>Mae'r ffigyrau yn y tabl i'w gweld i fod yn gywir. Mae cynnydd bach yn y nifer o geisiadau ar y pwynt hanner-blwyddyn. Mae dau o'r ceisiadau yn ymwneud ag un digwyddiad. Mae'r nifer presennol hyd at 14/03/2024 yn 8 cais, felly mae'n debygol bydd cynnydd bach yn y flwyddyn 2023/2024. Niferoedd y blynnyddoedd blaenorol oedd 5,7,6,4.</p> <p>Awgrymir gau'r gweithrediad.</p>

DYDDIAD CYFARFOD	RHIF COFNOD	DISGRIFIAD GWEITHREDIAD	ANGEN ERBYN (DYDDIAD)	SAWL SY'N GYFRIFOL	DIWEDDARIAD
08/12/2022	1	Diweddariad Sefydliadol - SCHTh - Cyflwyniadau o'r digwyddiad Ymgyfarwyddo i gael eu cadw ar Google Drive er mwyn galluogi aelodau nad oedd yn bresennol i weld y cynnwys.	Ar unwaith	Cynorthwydd Personol i'r Prif Weithredwr	Cyflwyniadau wedi'u cadw ar Google Drive. Awgrymu cau'r gweithrediad.
08/12/2022	2	Diweddariad HMICFRS - Prif Uwcharolygydd y Gwasanaethau Corfforaethol i sicrhau bod rhagor o fanylion o ran cyflawni gweithrediadau a risgiau cysylltiedig i'w cael o fewn papur cyfarfod y Cydbwyllgor Archwilio.	Cyfarfod mis Mawrth	Uwcharolygydd Gwasanaethau Corfforaethol	03/03/2022 - Dolen Adroddiad PEEL HMICFRS i'w rhannu gydag aelodau'r CA cyn y cyfarfod a diweddariad PEEL HMICFRS i'w gynnwys ar agenda mis Mawrth 23. Awgrymu cau'r gweithrediad.
08/12/2022	3	Archwilio Mewnol - SICA - Archwilio Mewnol a'r Swyddog Cyllid a Chyllidebau i roi diweddariad i aelodau yn ystod mis Ionawr am archwiliadau wedi'u cwblhau a rhai sydd ar ôl ar gyfer 2022/23.	Ionawr 2022	Archwilio Mewnol a Swyddog Cyllid a Chyllidebau	21/12/2022 - Rhannwyd diweddariad gydag aelodau o'r CA Awgrymu cau'r gweithrediad.

08/12/2022	5	Rhaglen Waith 2022/23 - Y Prif Swyddog Cyllid i ddiweddarau'r Rhaglen Waith a chyflwyno papur diweddariad ar y praesept/cyllideb yng nghyfarfod mis Mawrth o'r CA.	Cyfarfod mis Mawrth	Prif Swyddog Cyllid	01/03/2022 - Dolen i bapurau'r Panel Heddlu a Throsedd isod. https://modgoveng.conwy.gov.uk/ieListDocuments.aspx?CId=800&MId=9252&Ver=4 Awgrymu cau'r gweithrediad.
08/12/2022	6	Rhaglen Waith 2022/23 - Y Prif Swyddog Cyllid a'r Prif Swyddog Gweithredol i gyfarfod gydag Arweinydd Risg y CA er mwyn edrych dros gofrestr risg SCHTh.	Cyn gynted â phosibl	Prif Swyddog Cyllid / Prif Weithredwr	14/2/23 - Gwnaeth y PSC gyfarfod â J Cunliffe ar 14 Chwefror 2023 i fynd drwy reoli risg o fewn y SCHTh, gan gynnwys sut yr uwchgyfeirio/isgyfeirir risgiau o'r gofrestr risgiau corfforaethol. Holodd JC a ydy'r broses a'r trothwyon uwchgyfeirio/isgyfeirio risgiau yn gyson ledled SCHTh a'r heddlu. Cyfeiriodd y PSC y mater at yr Arweinydd Risg a Pharhad Corfforaethol am gadarnhad. 08/03/23 - Hysbysodd Arweinydd Risg HGC -Mae Risgiau SCHTh yn cael eu cofnodi ar Gofrestr Risg yr Heddlu os ydynt yn bodloni'r un trothwy â Risgiau HGC. Gwneir hyn drwy Broses Sgorio a gytunwyd ac yn unol â'r Fframwaith Rheoli Risg a Mapio Sicrwydd. Mae unrhyw Risgiau SCHTh a ofynnir eu cau eto'n dilyn yr un broses. Hysbysir risgiau SCHTh i'r Bwrdd Gweithredol Strategol am oruchwyliaeth ac adolygiad strategol. 28/03/2023 - mae aelodau'r CA yn pryderu fod cofrestrau risg yn cael eu cyfuno. Maent yn credu y dylent fod yn unigol gan y gallent achosi gwrthdaro os ydynt gyda'i gilydd. Dywedodd y PSG ei fod yn fodlon i'r ddau fod yn unigol er mwyn rhoi sicrwydd. Y PSG/PSC ac Arweinydd Risg y CA i gyfarfod er mwyn trafod. Awgrymu cau'r gweithrediad.
08/12/2022	7	Rheoli Perfformiad y Trysorlys - Y Pennaeth Cyllid i ofyn i Arlingclose ddarparu hyfforddiant Rheoli'r Trysorlys i aelodau'r CA.	Cyn gynted â phosibl	Pennaeth Cyllid	22/12/22 - Mae cyngor y Trysorlys wedi'i anfon allan i dendr gyda dyddiad cau sef dechrau mis Ionawr. 28/03/2023 - Mae Arlingclose wedi'u hailbenodi. Y Pennaeth Cyllid i gysylltu er mwyn nodi dyddiad addas ar gyfer hyfforddiant Rheoli'r Trysorlys. Gweithrediad wedi cau.
08/12/2022	8	Rhaglen Gyfalaf - Diweddariad - Y Cyfarwyddwr Cyllid i rannu'r graff gydag aelodau o'r cydbwyllgor.	Cyn gynted â phosibl	Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau	06/03/2023 - Casgliad o sleidiau'n amlinellu cyflawniad ariannol parth Gwariant cyfalaf a rannwyd gydag aelodau o'r cydbwyllgor. Awgrymu cau'r gweithrediad.

08/12/2022	9	Diweddariad moeseg - Y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau i ganfod os oedd y Pwyllgor Moeseg wedi bod ynghlwm yn y broses Archwiliadau Mewnol.	Ar unwaith	Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau	02/03/2023 - Ni ymgymerwyd ag archwiliadau Moeseg penodol yn ddiweddar ac ni sbardunwyd gweithgarwch TIAA o ganlyniad i'r Pwyllgor Moeseg. 28/03/2023 - Bydd unrhyw faterion moesegol o'r broses archwilio yn cael ei hanfon ymlaen i'r Pwyllgor Moeseg. Awgrymu cau'r gweithrediad..
08/12/2022	10	Diweddariad moeseg - Y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau i egluro a ofynnir i ymgeiswyr a ydynt yn aelodau o'r Seiri Rhyddion fel rhan o'r broses ymgeisio/fetio.	Ar unwaith	Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau	02/03/2022 - Eglurodd y CCA gyda Rheolwr Fetio'r Heddlu a gadarnhaodd nad oes ymchwiliad penodol i'r Seiri Rhyddion fel rhan o'r broses fetio. Awgrymu cau'r gweithrediad.
08/12/2022	11	Diweddariad moeseg - Is-gadeirydd y Pwyllgor Moeseg i rannu'r dilema a'r canlyniad gydag aelodau'r Cydbwyllgor Archwilio.	Ar unwaith	Is-gadeirydd y Pwyllgor Moeseg	03/03/2022 - Y cyd-destun ar gyfer gweithredu oedd mater moesegol y cofnodion meddygol. Rhannwyd gwybodaeth bellach gydag aelodau o'r cydbwyllgor drwy yriant grŵp yn dilyn y cyfarfod. Awgrymu Cau Gweithrediad.
10/10/2022	9	Sesiwn Frifffio at Wraidd y Mater - Strategaethau Cyfathrebu - SCHTh a HGC - Ystyried a bwydo'n ôl i'r Cydbwyllgor Archwilio, o ran sut ydym yn rhoi gwerth am arian drwy gyfathrebu wedi'i reoli i'n holl gymunedau, er mwyn ychwanegu at hyder cyhoeddus.	Mewn bod	Pennaeth cyfathrebu ac ymgysylltu SCHTh a Phennaeth Cyfathrebu HGC	18/11/22 - Mae'r CCA wedi cysylltu a'r arweinwyr priodol er mwyn hysbysu y gwnaiff y CCA a'r Prif Swyddog Cyllid ystyried ymgysylltu a nhw ar gynllun cyfathrebu priodol. 08/12/2022 - Tryloywder ar danwariant yn parhau. 03/03/2022 - Wedi cynnwys agenda sesiwn gaeedig mis Mawrth 23 a fydd yn ystyried canfyddiadau adroddiad HMICFRS a rhoi diweddariad pellach. Awgrymu cau'r gweithrediad.

08/12/2022	4	<p>Diweddariad Risgiau - John Cunliffe, aelod o'r Cydbwyllgor Archwilio i rannu ei farn ynghylch sicrwydd risg gyda swyddogion tu allan i'r cyfarfod.</p>	Cyn gynted â phosibl	John Cunliffe - Aelod o'r CA	<p>06/03/2023 - E-bost wedi'i anfon at y Pennaeth Cudd-wybodaeth Busnes i roi barn ar ddal risgiau a'i sicrwydd. Trafodir ymhellach gyda swyddogion os oes angen.</p> <p>28/06/2023 - Mae aelod o'r CA wedi anfon e-bost at y Pennaeth Cudd-wybodaeth y mae'n ei ystyried.</p> <p>28/06/2023 - Mae'r Pennaeth Cudd-wybodaeth Busnes, yr Arweinydd Risg a Pharhad Busnes a'r Pennaeth Cyllid ac Adnoddau Cynorthwyol wedi ystyried yr awgrym o gofnodi risg hinsawdd economaidd newydd, ond maent yn fodlon fod hyn yn cael ei gwmpasu a'i liniaru eisoes yn Risgiau <u>89</u> a <u>93</u>.</p> <p>Awgrymir cau'r gweithrediad hwn.</p>
08/12/2022	12	<p>Sesiynau Briffio - Cynaliadwyedd a Datgarboneiddio - Y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau a Rheolwr Gwarchod yr Amgylchedd ac Ynni i gyflwyno papur yn amlinellu rol y CA wrth graffu gwaith.</p>	Erbyn cyfarfod mis Mawrth	Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau / Rheolwr Gwarchod yr Amgylchedd ac Ynni	<p>06/03/2023 - Y bwriad ydy ystyried ymhellach ynghyd â Chylch Gorchwyl y CA ond y prif faes canolbwynt lle gallai'r CA ychwanegu gwerth fyddai o ran cydymffurfio gyda deddfwriaeth; cydymffurfiaeth gyda pholisi'r heddlu; ac unwaith y datblygir, craffu cynnydd cyfnodol o ran cynlluniau'r heddlu.</p> <p>28/03/2023 - Angen ystyried ar y cyd â meysydd eraill. I'w gynnwys o fewn Cylch Gorchwyl drafft y CA. Rhoi diweddariad yn y cyfarfod nesaf.</p> <p>09/05/2023 - i'w drafod o dan eitem agenda Llywodraethu.</p> <p>23.06.23 - Mae trafodaethau wedi bod ynghylch rôl y cydbwyllgor archwilio yn y maes hwn. Y cynnig ydy bod:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cynaliadwyedd yn cael ei ymgorffori i raglen waith y Cydbwyllgor Archwilio. • Rhoddir adroddiadau ffurfiol i'r Cydbwyllgor Archwilio ddwywaith y flwyddyn. • Rôl y Cydbwyllgor Archwilio ydy ceisio sicrwydd a chraffu o ran: <ol style="list-style-type: none"> 1. Mabwysiadau strategaeth yr heddlu. 2. Y risgiau a'r cyfleoedd a gyflwynir wrth gyflawni'r strategaeth hon. 3. Cydymffurfiaeth yr Heddlu gyda'i bolisiau, codau ymarfer a fabwysiadwyd a'r fframwaith ddeddfwriaethol ehangach. <p>Awgrymu cau'r gweithrediad.</p>

28/03/2023	1	Diweddariad Sefydliadol - Y Prif Swyddog Gweithredol i rannu canrannau swyddogion o dan weithredu disgyblu o fewn heddluoedd eraill pan y cyhoeddir nhw gydag aelodau'r CA.	Ar unwaith	Prif Swyddog Gweithredol	07.06.23 - Mae'r Prif Weithredwr wedi cysylltu â heddluoedd eraill ac wedi cael data cyfyngedig ganddynt. Cynnwys gwybodaeth o fewn y papur diweddariad sefydliadol nesaf. Awgrymu cau'r gweithrediad.
28/03/2023	2	Diweddariad Sefydliadol - Prif Uwcharolygydd y Gwasanaethau Corfforaethol i rannu data'r Fframwaith gydag aelodau'r CA unwaith maent wedi'u cyhoeddi.	Cyn gynted â phosibl	Prif Uwcharolygydd Gwasanaethau Corfforaethol	Roedd newid mewn cyfeiriad yn genedlaethol a phenderfynwyd peidio â chyhoeddi data unigol yr Heddlu fel rhan o'r Fframwaith Cyflawniad VAWG. Mae'r adroddiad ynghlwm yn un a gyhoeddwyd yn genedlaethol.  Tackling VAWG Reducing inequalities Awgrymu cau'r gweithrediad.
28/03/2023	4	Diweddariad HMICFRS - Prif Uwcharolygydd y Gwasanaethau Corfforaethol i gynnwys cynnydd lefel uchel gweithrediadau a godwyd gan HMICFRS o fewn y papur ar gyfer cyfarfodydd y Cydbwyllgor Archwilio at y dyfodol	Cyfarfod mis Gorffennaf	Prif Uwcharolygydd Gwasanaethau Corfforaethol	Wedi'i gynnwys ym mhapur Diweddariad HMICFRS ar yr Agenda. Awgrymu cau'r gweithrediad.

28/03/2023	5	<p>SICA Archwilio Mewnol 2022-23 - Gwnaiff y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau fynd â'r mater hwn er mwyn ystyried a oes angen gosod unrhyw weithredu/prosesau pellach er mwyn sicrhau yr hawlir pob treuliad yn gywir.</p>	Ar unwaith	Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau	<p>23.06.23 - Mae'r broses dreuliau drwy ein system hunanwasanaeth AD ar-lein.</p> <p>Mae'n gosod y pwyslais ar yr un sy'n hawlio. Gwneir cyflwyniadau ar ôl iddynt gadarnhau eu bod wedi darllen, deall a glynu at y Polisi Treuliau a Lwfansau. Dywed y polisi y gwnaiff HGC ad-dalu gwariant a dynnir, ar yr amod ei fod yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Angenrheidiol • Rhesymol • Ar ben yr hyn fyddai'r gweithiwr fel arall wedi'i dynnu A • Derbynneb fel tystiolaeth. <p>Dywedir yn glir y gall cyflwyno hawliad yn groes i hyn arwain at gasglu treuliau a hawliwyd yn llawn ac, os ystyrir yn briodol, disgyblu.</p> <p>Mae hawliadau treuliau dal angen awdurdod rheolwr llinell.</p> <p>Y cyd-destun ar gyfer y gweithredu oedd bod problem wedi bod o ran methu darllen derbynebaw. Mae lanlwytho a sganio wedi dod yn haws gyda sganwyr ar safleoedd yr heddlu wedi'u hadfer ac mae derbynebaw a lluniau digidol drwy ffonau symudol yr heddlu wedi lliniaru'r broblem ymhellach.</p> <p>Penllanw hyn oll ydy bod y prosesau'n gymesur er mwyn sicrhau cyfreithlondeb hawliadau.</p> <p>Awgrymu cau'r gweithrediad.</p>
28/03/2023	6	<p>Trosolwg Archwilio Mewnol - Adroddiad Rheolwyr - Y Swyddog Cyllid a Chyllidebau i rannu cynllun archwilio mewnol Gogledd Cymru 2023/24 gydag aelodau er mwyn cael cymeradwyaeth tu allan i'r cyfarfod.</p>	Ar unwaith	Swyddog Cyllid a Chyllidebau	<p>04/04/2023 - Rhannwyd y cynllun gydag aelodau o'r CA.</p> <p>Awgrymu cau'r gweithrediad..</p>

28/03/2023	7	Trosolwg Archwilio Mewnol - Adroddiad Rheolwyr - Y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau a Swyddog Cyllid a Chyllidebau i grynhoi a sicrhau y rhoddir diweddariadau o ran gweithrediadau a nodwyd gan yr archwiliad mewnol.	Cyfarfod mis Gorffennaf	Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau a Swyddog Cyllid a Chyllidebau	23.06.23 - Trafodwyd hyn wedi'r cyfarfod. O bwys penodol oedd yr argymhellion TIAA a oedd yn gysylltiedig â 'Cyfnod 2 NEP'. Yr argymhellion perthnasol oedd 249424, 249425 a 249426. Mae'r CCA wedi cynnal sawl cyfarfod gweithgor er mwyn sicrhau fod aelodau'r CA yn cael cyfarwyddyd ar y mater hwn a bod diweddariadau i'r argymhellion hyn (sy'n parhau'n dymor hir) yn rhoi digon o fanylder ar gyfer cyfarfod y CA ym mis Gorffennaf. Awgrymu cau'r gweithrediad..
28/03/2023	9	Rhaglen Waith 2022/23 - Y Prif Swyddog Cyllid i i rannu llythyr yr Archwilydd Cyffredinol at Awdurdodau Lleol gydag aelodau'r Cydbwyllgor er gwybodaeth iddynt.	Ar unwaith	Prif Swyddog Cyllid	29/03/2023 - Rhannwyd y llythyr gydag aelodau'r CA. Awgrymu cau'r gweithrediad.
28/03/2023	10	Rhaglen Waith 2022/23 - Y Prif Swyddog Cyllid i rannu dogfen cyflwyniad i gyfrifon gyhoeddus gydag aelodau'r CA cyn y caiff ei chyhoeddi.	CYN GYNTED A PHOSIBL	Prif Swyddog Cyllid	03/07/2023 - Rhannwyd dogfen gydag aelodau o'r CA. Awgrymu cau'r gweithrediad.

28/03/2023	11	Rheoli'r Trysorlys - Y Pennaeth Cyllid i newid y geiriad ym mharagraff 3.6 yr Adroddiad Rheoli'r Trysorlys o Cyngor i Comisiynydd Heddlu a Throsedd.	Ar unwaith	Pennaeth Cyllid	Mae'r geiriad wedi'i newid. Awgrymu cau'r gweithrediad.
28/03/2023	12	Rheoli'r Trysorlys - Y Pennaeth Cyllid i greu amcangyfrif o gostau a'u cynnwys o fewn papurau'r Cydbwyllgor Archwilio.	Cyfarfod mis Gorffennaf	Pennaeth Cyllid	Bydd amcanestyniadau yn cael eu cynnwys mewn adroddiadau lle bo'n bosibl. Ar adegau gall fod gwybodaeth wedi'i diweddarau nad oedd ar gael ar adeg ysgrifennu'r adroddiad a fyddai'n cael ei gynnwys ar sleidiau Awgrymu cau'r gweithrediad.
28/03/2023	13	Diweddariad Llywodraethu - Y Prif Swyddog Cyllid i adolygu cynnwys y papur a gyflwynwyd i'r Cydbwyllgor Archwilio a rhoi sicrwydd pellach o effeithiolrwydd y Bwrdd Cyd Lywodraethu.	Cyfarfod mis Gorffennaf	Prif Swyddog Cyllid	Mae cynnwys y Diweddariad Llywodraethu wedi'i adolygu er mwyn sicrhau fod effeithiolrwydd y Bwrdd Cyd Lywodraethu yn cael ei ddangos yn fwy clir o fewn y papur. Awgrymu cau'r eitem.

28/03/2023	3	<p>Diweddariad Sefydliadol - Y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau a Phrif Uwcharolygydd y Gwasanaethau Corfforaethol i sicrhau aelodau fod y Polisi Chwythu Chwiban wedi'i brofi ac yn addas i'r diben.</p>	Ar unwaith	Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau a'r Prif Uwcharolygydd Gwasanaethau Corfforaethol	<p>23.06.23 - Ymgysylltodd y CCA gyda'r Pennaeth ASP o ran Chwythu Chwiban. Ceir crynodeb o'r sefyllfa bresennol isod:</p> <p>Mae ein canllawiau chwythu chwiban presennol o fewn y Polisi Gwrthlygredd. Mae hyn yn cael ei adolygu i gyd ar hyn o bryd. Dechreuodd darn o waith ledled Cymru llynedd lle mae 3 o 4 heddlu Cymru wedi ceisio cyngor am bolisi Chwythu Chwiban penodol. Mae hyn wedi'i roi allan am ymgynghoriad cyfyngedig yn yr heddlu gyda chymdeithasau staff, DPS ayyb. Fodd bynnag, bydd angen ymgynghoriad llawn pan gaiff ei gynnwys yn y fersiwn o'r Polisi Gwrthlygredd sydd wedi'i ddiweddarau'n llawn. Mae hyn yn parhau'n waith ar y gweill. Y dyddiad ar gyfer cwblhau'r polisi CCU ydy mis Awst 23.</p> <p>Fodd bynnag, nid ydy hyn yn dirymu'r hyn sydd gennym eisoes. Gwnaeth staff ASP, yr Adran Gyfreithiol a chynrychiolwyr o AD fynd i fewnbwn Chwythu Chwiban gan gynghorwyr llynedd. Roedd hyn er mwyn sicrhau os ydy unigolyn yn ffitio'r meini prawf hyn, byddai bob adran yn gwybod sut i ymateb yn unol â hynny. Nid yw wedi'i brofi'n benodol ers hynny.</p> <p>Mae gennym ymgysylltu arwyddocaol gyda'n Llinell Uniondeb Heddlu lle mae pobl yn hysbysu am bryderon yn gyfrinachol, ond mae opsiwn cychwyn cyswllt os ydy'r unigolyn yn dymuno.</p> <p>27/07/2023 Holodd aelodau'r CA a oedd y Polisi Chwythu Chwiban wedi'i brofi ac yn addas i'r diben.</p> <p>Y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau i fynd ag edrych a rhoi sicrwydd pellach yn y cyfarfod nesaf.</p> <p>13/09/2023 - Gwnaeth y CCA a Phennaeth yr ASP gyfarfod er mwyn trafod profi'r polisi. Nid oes profi annibynnol o'r polisi Chwythu Chwiban yn digwydd ar hyn o bryd.</p> <p>Fodd bynnag, mae ystod o gamau wedi'u cymryd sy'n sicrhau fod hygyrchedd ac ymwybyddiaeth o'r polisi'n bodoli, gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae'r Polisi Gwrthlygredd i'w gael drwy Fewnwyd yr Heddlu • Lanswyd ymgyrch "Gwybod lle mae'r llinell" ledled yr Heddlu 2022 yn canolbwyntio ar ddisgwyliadau ymddygiad a safonau a oedd yn cynnwys
------------	---	--	------------	--	--

					<p>ffilm fideo ac ymgyrch bosteri'n canolbwyntio ar lwybrau hysbysu ar gyfer materion perthnasol.</p> <ul style="list-style-type: none"> Mae llofnod yr ASP yn cynnwys manylion cysylltu â llinell Uniondeb yr Heddlu. <p>Gall Pennaeth yr ASP gadarnhau fod ymgysylltu hefo Llinell Uniondeb yr Heddlu yn digwydd yn rheolaidd.</p> <p>Mae Polisi Gwrthlygredd wedi'i ddiweddarau yn ei gyfnod ymgynghori ar hyn o bryd. Unwaith caiff ei gwblhau, y cynnig ydy cyhoeddi "Need to Know" ledled yr heddlu er mwyn sicrhau fod ymwybyddiaeth eang o sefyllfa ddiweddaraf polisïau'r Heddlu.</p> <p>Awgrymu cau'r gweithrediad.</p>
27/07/2023	3	<p>Cofnod Gweithrediadau - Trosolwg Archwilio Mewnol</p> <p>Gweithrediadau Cyfnod 2 NEP yn codi o weithrediadau a nodwyd gan archwilio mewnol</p>	Ar unwaith	Arweinydd TG y CA	<p>Arweinydd TG y CA i godi hefo swyddogion yn ystod y cyfarfod all-lein rheolaidd.</p> <p>Awgrymu cau'r gweithrediad.</p>
27/07/2023	5	<p>Diweddariad HMICFRS - Prif Uwcharolygydd Dros Dro'r Gwasanaethau Corfforaethol</p> <p>i sicrhau bod cynnydd o ran meysydd i'w gwella yn cael ei gynnwys o fewn papur y cyfarfod nesaf.</p>	Cyfarfod mis Medi	Prif Uwcharolygydd Dros Dro'r Gwasanaethau Corfforaethol	<p>Crynodeb o'r cynnydd a wnaed o ran Meysydd i'w Gwella wedi'u cynnwys yn y papur diweddariad HMICFRS diweddaraf ar gyfer y CA.</p> <p>Awgrymu cau'r gweithrediad.</p>
27/07/2023	6a	<p>Archwilio Mewnol SICA 2023-24 - Ceir Rheoli'r Trysorlys o fewn cynllun gwaith Archwilio Mewnol bob blwyddyn.</p>	Cyfarfod mis Medi	Archwilio Mewnol / Swyddog Cyllid a Chyllidebau	<p>31/08/2023 - Hysbysodd y Swyddog Cyllid a Chyllidebau fod aelodau'r CA wedi gofyn o'r blaen i hwn fod yn archwiliad blynyddol ac mae HGC wedi glynu at hyn. Rheolir y Trysorlys yn flynyddol ac mae wedi derbyn sicrwydd sylweddol yn 2017/18, 2018/19, 2019/20, 2020/21, 2021/22 a 2022/23. Eleni, bydd yn archwiliad cydweithredol hefo Heddluoedd Gwent a De Cymru.</p>

27/07/2023	6c	Archwilio Mewnol SICA 2023/24 - Archwilio Mewnol i drafod cynnwys y llithriant cronfeydd o flwyddyn i flwyddyn o fewn archwiliad y Rhaglen Gyfalaf.	Cyfarfod mis Medi	Archwilio Mewnol	12/09/2021 Mae cwmpas y Memorandwm Cynllunio Archwiliad (APM) wedi'i addasu er mwyn ymgorffori llithrant a dechreuodd y gwaith maes yn yr wythnos yn dechrau 11/09/23
27/07/2023	7	Diweddariad Risgiau - Swyddogion i roi ffurflenni risg manylach i aelodau'r CA.	Cyfarfod mis Medi	Pennaeth Cudd-wybodaeth Busnes	25/08/2023 - Bydd copïau PDF o Risgiau BYW a Risgiau a GAEWYD yn ddiweddar hyd at ddiwedd mis Awst yn cael eu cyflwyno i Gynorthwydd Gweithredol SCHTh ar gyfer eu cadw ar Google Drive y CA cyn gynted ag y mae Arweinydd Risg a Pharhad Busnes yn dychwelyd o'u gwyliau blynyddol ar 11 Medi 2023. Medi 2023.
27/07/2023	8	Rhaglen Waith 2022/23 - Mae pawb i hysbysu'r Prif Swyddog Cyllid am unrhyw eitemau ychwanegol sydd angen eu cynnwys o fewn y Rhaglen Waith ac ystyried a ellir symud unrhyw eitemau agenda o agenda mis Rhagfyr oherwydd y nifer mawr o eitemau i'w trafod.	Ar unwaith	Holl	Ar agenda'r cyfarfod eitemau a gytunwyd i'w gwaredu.
27/07/2023	11	Diweddariad y CA - Rhaglen Gyfalaf - Y Pennaeth Cyllid i rannu'r cyflwyniad hefo aelodau'r CA.	Ar unwaith	Pennaeth Cyllid	Rhannwyd cyflwyniad gydag aelodau o'r CA 04.09.2023. Awgrymu cau'r gweithrediad.

27/07/2023	5	Diweddariad HMICFRS – Prif Uwcharolygydd Dros Dro'r Gwasanaethau Corfforaethol i sicrhau bod cynnydd o ran meysydd i'w gwella yn cael ei gynnwys o fewn papur y cyfarfod nesaf.	Cyfarfod mis Medi	Prif Uwcharolygydd Dros Dro'r Gwasanaethau Corfforaethol	Crynodeb o'r cynnydd a wnaed o ran Meysydd i'w Gwella wedi'u cynnwys yn y papur diweddariad HMICFRS diweddaraf ar gyfer y CA. Awgrymu cau'r gweithrediad.
27/07/2023	6a	Archwilio Mewnol SICA 2023-24 – Ceir Rheoli'r Trysorlys o fewn cynllun gwaith Archwilio Mewnol bob blwyddyn.	Cyfarfod mis Medi	Archwilio Mewnol / Swyddog Cyllid a Chyllidebau	31/08/2023 – Hysbysodd y Swyddog Cyllid a Chyllidebau fod aelodau'r CA wedi gofyn o'r blaen i hwn fod yn archwiliad blynyddol ac mae HGC wedi glynu at hyn. Rheolir y Trysorlys yn flynyddol ac mae wedi derbyn sicrwydd sylweddol yn 2017/18, 2018/19, 2019/20, 2020/21, 2021/22 a 2022/23. Eleni, bydd yn archwiliad cydweithredol hefo Heddluoedd Gwent a De Cymru.
27/07/2023	6c	Archwilio Mewnol SICA 2023/24 – Archwilio Mewnol i drafod cynnwys y llithriant cronfeydd o flwyddyn i flwyddyn o fewn archwiliad y Rhaglen Gyfalaf.	Cyfarfod mis Medi	Archwilio Mewnol	12/09/2021 – Mae cwmpas y Memorandwm Cynllunio Archwiliad (APM) wedi'i addasu er mwyn ymgorffori llithriant a dechreuodd y gwaith maes yn yr wythnos yn dechrau 11/09/23
27/07/2023	7	Diweddariad Risgiau – Swyddogion i roi ffurflenni risg manylach i aelodau'r CA.	Cyfarfod mis Medi	Pennaeth Cudd-wybodaeth Busnes	25/08/2023 – Bydd copiâu PDF o Risgiau BYW a Risgiau a GAEWYD yn ddiweddar hyd at ddiwedd mis Awst yn cael eu cyflwyno i Gynorthwydd Gweithredol SCHTh ar gyfer eu cadw ar Google Drive y CA cyn gynted ag y mae Arweinydd Risg a Pharhad Busnes yn dychwelyd o'u gwyliau blynyddol ar 11 Medi 2023.
27/07/2023	8	Rhaglen Waith 2022/23 – Mae pawb i hysbysu'r Prif Swyddog Cyllid am unrhyw eitemau ychwanegol sydd angen eu cynnwys o fewn y Rhaglen Waith ac ystyried a ellir symud unrhyw eitemau agenda o agenda mis Rhagfyr oherwydd y nifer mawr o eitemau i'w trafod.	Ar unwaith	Gall	Ar agenda'r cyfarfod Eitemau a gytunwyd i'w tynnu.

27/07/2023	11	Diweddariad y CA – Rhaglen Gyfalaf – Y Pennaeth Cyllid i rannu'r cyflwyniad hefo aelodau'r CA.	Ar unwaith	Pennaeth Cyllid	Rhannwyd cyflwyniad gydag aelodau o'r CA 04.09.2023. Awgrymu cau'r gweithrediad.
27/07/2023	6b	Archwilio Mewnol SICA 2023/24 – Archwilio Mewnol a swyddogion i ystyried a geir data anffurfiol o fewn cwmpas yr archwiliad Diogelu Data.	CYN GYNTED A PHOSIBL	Archwilio Mewnol / Swyddog Cyllid a Chyllidebau	01/09/2023 – Nid ydy'r Memorandwm Cynllunio Archwiliad (APM) wedi'i dderbyn. 28/09/2023 – Dyddiad a gytunwyd arno yn cael ei adeiladu i mewn i'r ystod. Bydd yr Archwiliad mewnol yn cylchredeg ystod i aelodau pan gaiff ei gytuno. 20/11/2023 – DFR wedi trafod APM gyda DPO. Data anstrwythuriedig wedi ei ymgorffori i APM. Awgrymu cau'r gweithrediad.
27/07/2023	10	Datganiad Rheoli'r Heddlu – Datganiad Rheoli'r Heddlu i fod yn destun eitem agenda Adroddiad at Wraidd y Mater mewn cyfarfod o'r CA yn y dyfodol er gwybodaeth.	Cyfarfod mis Medi	Prif Uwcharolygydd Dros Dro'r Gwasanaethau Corfforaethol	28/09/2023 – Wedi ei amserlennu ar gyfer cyfarfod Gorffennaf 2023 ond sesiwn wybodaeth ar gyfer FMS i'w drefnu ar gyfer y Cydbwyllgor Archwilio. Prif Uwcharolygydd Dros Dro y Gwasanaethau Corfforaethol i drefnu a hwyluso. 07/12/2023 – trefnwyd cyfarfod yn gynnar yn y flwyddyn newydd. Awgrymu cau'r gweithrediad.
27/07/2023	13	Diweddariad Llywodraethu – yn cynnwys drafft o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol a chylch gorchwyl y CA – Y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau a'r Prif Swyddog Cyllid i egluro'n union yr hyn a olygir o dan eitem 2.1.4 yng Nghylch Gorchwyl y CA.	Cyfarfod mis Medi	Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau / Prif Swyddog Cyllid	13/09/2023 – Anfonwyd e-bost at aelodau'r CA yn egluro'r hyn a olygir o dan gylch gorchwyl y CA 2.1.4. 28/09/2023 – Aelodau'r CA yn teimlo nad yw geiriad y Cylch Gorchwyl yn ddigon clir. I'w ystyried ymhellach yn JGB. 20/11/2023 – I'w drafod yn JGB. Pennaeth y Gwasanaethau Corfforaethol i gyflwyno eglurhad i'r Cylch Gorchwyl. 07/12/2023 – Mae'r Cylch Gorchwyl wedi cael ei ddiwygio ac rydym yn disgwyl cadarnhad gan y CHTh a'r Prif Gwnstabl.

28/09/2023	6a	ARCHWILIO MEWNOL SICA 23-24 – Archwilio Mewnol i hysbysu aelodau'r CA a nodwyd yn ystod archwiliad Rheolaeth Gyllidebol fod diffyg ymwybyddiaeth o fewn y sefydliad i'r gyllideb sefydliadol gyffredinol.	Ar unwaith	Archwilio Mewnol	20/11/2023 Cadarnhawyd nad oedd hyn yn broblem. Awgrymu cau'r gweithrediad..
28/09/2023	6b	ARCHWILIO MEWNOL SICA 23-24 – Y Cyfarwyddwr Cyllid i ofyn i'r Swyddog Cyllidebau a Chyllid ymgorffori archwiliad dilynol ar chwythu chwiban i gynllun archwilio y blynyddoedd nesaf.	Ar unwaith	Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau	Ymateb FBO – Adolygir polisïau/gweithdrefnau chwythu chwiban yn flynyddol yn ystod yr archwiliadau Atal Twyll Cydweithredol. Ar gais y CA, mae'r APM wedi'i ddiweddarau er mwyn adlewyrchu'r cais i brofi effeithiolrwydd y polisi Chwythu Chwiban. APM diwygiedig wedi'i lanlwytho i Google Drive. Awgrymu y caeir y gweithrediad.
28/09/2023	6c	Trosolwg Archwilio Mewnol – Adroddiad Rheolwyr – Y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau i roi diweddariad ar gynnydd o ran yr argymhellion a godwyd o archwiliad Rheoli Absenoldeb AD yn y Cydbwyllgor Archwilio nesaf.	Cyfarfod mis Rhagfyr	Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau	20/11/2023 – Diweddariad yn cynnwys Adroddiad Rheoli Mewnol. Diwrnod cwblhau ar gyfer y rhan fwyaf o argymhellion yw 31/01/24. Adroddiad Rheoli Mewnol drwy'r Adroddiad Rheoli Mewnol. Awgrymu cau'r gweithrediad.

28/09/2023	8a	Rhaglen Waith 2023/24 – Y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau a'r Prif Swyddog Gweithredol i edrych ar ansawdd papurau a gyflwynir i'r CA a sicrhau fod y cloriau'n adlewyrchu penderfyniadau/materion o bwys yn ddigonol.	Cyn cyfarfod mis Rhagfyr	Prif Weithredwr/Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau	Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau a'r Prif Weithredwr wedi ymgorffori ansawdd papur i Gynllun Gweithredu'r CA. Nodyn wedi ei gylchredeg i randdeiliaid i'w drafod yn y sesiwn Gaeedig. Awgrymu cau'r gweithrediad.
28/09/2023	8b	Rhaglen Waith 2023/24 – Y Prif Swyddog Cyllid i amlygu eitemau agenda gorfodol yn y rhaglen waith	Cyn cyfarfod mis Rhagfyr	Prif Swyddog Cyllid	31.10.2023 – Eitemau gorfodol wedi eu marcio ar y rhaglen waith ddiweddaraf. Awgrymu cau'r gweithrediad.

28/09/2023	12	<p>Diweddariad Cynaliadwyedd – Rheolwr yr Amgylchedd/Arbed Ynni i roi data pellach yn dangos os oedd gwelliannau i ddefnyddio trydan/ynni oherwydd llai o ddefnydd neu os ydy hyn yn ganlyniad o'r pandemig.</p>	Ar unwaith	Rheolwr Amgylcheddol/Arbed Ynni	<p>Mae'r data wedi tarddu o'r cronfeydd data 'da ni'n eu dal yn yr Adran Gyfleusterau, wedi'i ddiweddaru i 2021-22 (rwyf ar hyn o bryd yn gweithio ar ddata a diweddariad gwybodaeth 2022-23.)</p> <p>Cofnodir defnydd blynyddol a'i gymharu o ran sylfaen 2019-20. Cedwir gwybodaeth ar newidiadau a rhesymau defnydd fel y canlynol: oherwydd gosod goleuadau LED; oherwydd bod y safle wedi'i werthu ers 2019-20; wedi cyflwyno gweithio ystwyth; y safle'n wag (ond dal i greu costau) ayyb.</p> <div data-bbox="1182 448 2107 727" style="border: 1px solid black; padding: 5px;"> <p><u>Update on data:</u></p> <ul style="list-style-type: none"> - <u>Electricity</u> - consumption for April 22 to March 2023 has been collated – provisional data is showing a reduction of 914,439 kWh in 2022-23 compared to the 2019-20 baseline, this is a 12% reduction in consumption. <p>The reduction in electricity consumption since 2019-20 has resulted from (i) agile working in the larger administration buildings and (ii) installation of LED lighting to larger consuming sites and stations; approximately a quarter of the NWP estate now has LED lighting, with work programmes for further projects and sites currently being established.</p> </div> <p>Mae'r gostyngiad mewn trydan yn gyfuniad o</p> <ul style="list-style-type: none"> (i) bod gwaith lleihau ynni wedi digwydd, er enghraifft newid goleuadau i LED yn yr adeiladau sy'n defnyddio trydan fwyaf, fel Gorsaf Heddlu'r Rhyl, Gorsaf Heddlu Bangor, Gorsaf Heddlu Dinbych, Safle Traffig y Gorllewin, Uned 8, Uned 31, Canolfan Gyfathrebu ar y Cyd. (ii) O ganlyniad i'r pandemig a chyflwyno gweithio ystwyth/gweithio o'r cartref, mae'r gostyngiad mewn defnydd trydan o ganlyniad i hyn i'w weld ym Mhencadlys yr Heddlu, Llety'r Dryw, Tŷ Alexandra a PFI. Rydym yn gwybod nad ydy gwaith lleihau trydan wedi digwydd ar y safleoedd hyn, felly rhaid i'r gwahaniaeth godi yn sgil y newid deiliadaeth. Mae PFI hefyd wedi newid defnydd, ers i'r Adran Hyfforddiant symud i Uned 31 ac mae nifer y bobl ar y safle wedi newid. (iii) Hefyd, mae rhai safleoedd wedi cau ers blwyddyn sylfaen 2019-20, fel Pencadlys Rhanbarthol Wrecsam, Gorsaf Heddlu Benllech, Gorsaf Heddlu Gresffordd. Mae rhai yn wag yn disgwyl cael eu gwerthu, fel Gorsaf Heddlu Bwcle, neu wedi cael eu hadnewyddu'n fawr, fel Gorsaf Heddlu Pwllheli. Mae'r rhain i gyd yn cyfrannu tuag at rywfaint o'r gostyngiad.
------------	----	---	------------	---------------------------------	---

					<p>Mae nwy ychydig yn wahanol i drydan, gan fod y lle dal angen gwres, boed bod 10 neu 50 o bobl mewn adeilad. Yr hyn all newid serch hynny ydy sut caiff gwres ei reoli. Ers 2019-20, mae gwella'r systemau gwresogi wedi gwell. Er enghraifft, mae tymheredd ar 'bwynt wedi'i osod' a gosodiadau 'ymlaen / i ffwrdd' wedi cael eu haddasu ar y System Rheoli Ynni Adeiladau (BEMS). Mae hyn yn ôl deiliadaeth ystafelloedd ac adeiladau. Mae hyn yn ystyried ardaloedd a oedd unwaith yn swyddfeydd llawn sydd bellach yn ystafelloedd ystywyth ayyb, fel ym Mhencadlys yr Heddlu, Llai ayyb.</p> <p>Yn ystod gwaith yr Adran Gyfleusterau yn Uned 31 a Safle Traffig y Gorllewin, mae insiwleiddio'r nenfwd wedi cael ei osod, sydd wedi cynorthwyo lleihau'r defnydd nwy ar y safleoedd hynny. Fel nodyn, mae'r prosiect insiwleiddio llofft ar gyfer nifer o adeiladau'r heddlu angen uwchraddio (o 100 i 300mm er mwyn bodloni'r rheoliadau adeiladau diweddaraf) wedi dechrau. Y gobaith ydy y bydd y safleoedd hyn yn eu tro yn cael galw nwy llai wrth symud ymlaen. Awgrymu cau'r gweithrediad.</p>
--	--	--	--	--	--

Allwedd Talfyriadau	
PG	Prif Gwnstabl
PSG	Prif Swyddog Gweithredol (SCHTh)
PSC	Prif Swyddog Cyllid (SCHTh)
CCA	Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau (HGC)
AROLYDON HMICFRS	Arolygaeth Heddluoedd a Gwasanaethau Tân ac Achub (HMICFRS) Ei Mawrhydi
CA	Cydbwyllgor Archwilio
HGC	Heddlu Gogledd Cymru.
SCHTH	Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd
CP	Cynorthwydd Personol i'r PSG a'r PSC
CHTH	Comisiynydd Heddlu a Throsedd
ASP	Adran Safonau Proffesiynol (HGC)
TIAA	Archwilio Mewnol
SAC	Swyddfa Archwilio Cymru



Cydbwyllgor Archwilio 28 Mawrth 2024

Diweddariad Sefydliadol y SCHTh

Diweddariadau

Cynhaliwyd cyfarfod blaenorol y Cydbwyllgor Archwilio (CA) ar 7 Rhagfyr 2023. Bydd yr adroddiad hwn yn rhoi diweddariad i'r CA ar faterion SCHTh o bwys ers hynny.

Etholiad y Comisiynydd Heddlu a Throsedd

Bydd Etholiad y Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn digwydd ar 2 Mai 2024. Bydd y cyfnod cyn yr etholiad (a adwaenir yn flaenorol fel purdah) yn dechrau ar ddydd Llun 25 Mawrth. Bydd cynnwys cyfryngau a chyfryngau cymdeithasol SCHTh yn sylweddol llai o'r dyddiad hwnnw. Bydd sesiwn frifffio'n digwydd ym Mhencadlys yr Heddlu ar gyfer holl ddarpar ymgeiswyr a'u cynrychiolwyr ar ddydd Mercher 27 Mawrth. Ar adeg ysgrifennu hwn, mae dau ymgeisydd yn hysbys (mae'r CHTh presennol yn sefyll am ailetholiad ac ymgeisydd ar ran y Ceidwadwyr Cymreig).

Heddlu Gogledd Cymru ar frig arolwg hyder y cyhoedd

Mae gan fwy o bobl hyder yn Heddlu Gogledd Cymru nag unrhyw heddlu arall yng Nghymru a Lloegr. Mae arolwg wedi dangos fod gan 77% o bobl yng Ngogledd Cymru hyder yn y modd mae'r rhanbarth yn cael ei phlisma. Mae'r heddlu felly ar frig Arolwg Trosedd Cymru a Lloegr.

Gwnaeth yr heddlu hefyd gyflawni'r ail ganran uchaf yn genedlaethol ar gyfer y rhai hynny gytunodd y byddai'r heddlu'n eu trin nhw â pharch (86.5%).

Mae hyn yn ategu data a ddangosodd fod yr heddlu'n dal hefo'r ail ffigwr isaf yn genedlaethol am gyfraddau trosedd cymdogaethau am bob 1000 o'r boblogaeth.

Awdur yr Adroddiad:

Stephen Hughes, Prif Weithredwr

Cydbwyllgor Archwilio

Dyddiad y Cyfarfod: 28 Mawrth 2024

Teitl:	Diweddariad Sefydliadol – Heddlu Gogledd Cymru
Awdur:	Seb Phillips, Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau
Diben yr adroddiad:	Rhoi trosolwg i'r Cydbwyllgor Archwilio am brif ddigwyddiadau a materion sefydliadol sy'n digwydd ers cyfarfod diwethaf o'r CA.
Cyflwynir yr adroddiad i'r CA ar gyfer: (ticiwch un)	<input type="checkbox"/> Penderfyniad <input type="checkbox"/> Trafodaeth <input type="checkbox"/> Sicrwydd <input checked="" type="checkbox"/> X Gwybodaeth
Crynodeb / Pwyntiau Allweddol:	<p>Mae'r adroddiad hwn yn rhoi Diweddariad Sefydliadol lefel uchel i Heddlu Gogledd Cymru. Amlygir y prif faterion a digwyddiadau a effeithiodd y sefydliad am y cyfnod rhwng 07.12.23 a 07.03.24.</p> <p>Dadansoddir y materion a'r digwyddiadau rhwng y pedwar categori Cyllid; Pobl, Dysgu ac Arloesedd; Gweithredol a Chyhoeddus / Cymunedol.</p>
Argymhellion:	Aelodau'r Cydbwyllgor Archwilio i nodi adroddiad y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau.
Effaith Cofrestr Risgiau:	Dim.
Goblygiadau Sicrwydd:	Dim.
Effaith Cydraddoldeb:	Dim.
Gwybodaeth wedi'i Heithrio o Ddadleniad:	Dim – Holl gynnwys yn y <u>Sesiwn Agored</u>

CYDBWYLLGOR ARCHWILIO

28 Mawrth 2024

Diweddariad Sefydliadol

Adroddiad gan Bennaeth Cyllid ac Adnoddau, Heddlu Gogledd Cymru

1. Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi Diweddariad Sefydliadol lefel uchel i Heddlu Gogledd Cymru. Amlygir y prif faterion a digwyddiadau a effeithiodd y sefydliad am y cyfnod rhwng 07.12.23 a 07.03.24.

Dadansoddir y materion a'r digwyddiadau rhwng y pedwar categori Cyllid; Pobl, Dysgu ac Arloesedd; Gweithredol a Chyhoeddus / Cymunedol.

2. Cyllid

2.1 Cadarnhawyd cynigion Gosod Cyllideb ym mis Rhag23 hefo cynigion yr Heddlu yn cydbwysu cynnydd yn y dreth gyngor mor isel â phosibl hefo cynnydd Band D o £16.56 neu 4.97%, o ran y pwysau galw sy'n cael ei wynebu gan yr Heddlu.

2.2 Cymeradwywyd y cynigion ar gyfer 2024/25 yn y Panel Heddlu a Throsedd ddiwedd mis Ion24, gan arwain at y cynnydd isaf ar draws heddluoedd Cymru, hefo'r cynllun ar gyfer y flwyddyn nesaf ar sail:

1. Unioni gweledigaeth y Prif Gwnstabl a blaenoriaethau'r CHTh
2. Dealltwriaeth o'r gost sylweddol a'r pwysau galw a wynebir
3. Cydbwysu'r blaenoriaethau a'r galwadau hyn o ran yr adnoddau sydd ar gael

2.3 Roedd setliad Llywodraeth yn DU yn fras yr hyn a ddisgwyliwyd ynghyd â "chyllid llecyn" unigryw er mwyn ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol. Fodd bynnag, roedd y pwysau ariannol a deimlir gan Lywodraeth Cymru yn y setliad hefo cyllid llai ar gyfer swyddogion cyswllt a SCCH ysgolion. Mae sgysiau ynghylch dyrannu'r cyllid ar draws Llywodraeth Cymru yn parhau.

2.4 Mae'r amcanestyniadau refeniw blwyddyn lawn wedi'u creu ddiwedd Ch3 hefo tanwariant blwyddyn lawn o £3.082m / 1.6% (yn cael ei ystyried yn y tybiaethau cynllunio). Mae'r tanwario'n cael ei gymell gan dâl ac incwm hefo'r mater yn dod i'r amlwg yn ymwneud hefo paratoadau ar gyfer cyflogwr ac atebolrwydd cyhoeddus o bosib yn elfen ohoni.

2.5 Mae'r gyllideb gyfalaf ar gyfer 2023-24 wedi'i diwygio o'r gyllideb wreiddiol o £12.212m i £6.831m (wedi'i diwygio o £9.636m ar ddiwedd Ch2). Mae'r rhaglen ddiwygiedig wedi cael ei hystyried yn y strategaeth gyfalaf.

2.6 Cyhoeddwyd y Cynllun Ariannol Tymor Canolig ynghyd hefo'r cynigion praesept.

3. Pobl, Dysgu ac Arloesedd

3.1 Yn dilyn proses recriwtio gadarn, penodwyd Julie Brierley yn Bennaeth Datblygu Pobl a Sefydliadol newydd HGC ac fe ddechreuodd yn y swydd ar ddydd Llun, 4 Mawrth 2024.th March 2024.

- 3.2 Cynhaliwyd proses dyrchafu arolygyddion ddiwedd mis Chwefror/dechrau mis Mawrth 2024 hefo 18 o ymgeiswyr llwyddiannus.
- 3.3 Mae recriwtio staff yn parhau'n heriol. Ond mae'r Heddlu'n disgwyl bodloni ei darged Uplift o 1727 o swyddogion heddlu ar 31 Mawrth 2024 (gan sicrhau'r cyllid cysylltiedig) a chael 180 SCCH. Y bwriad ydy cynnal ein niferoedd swyddogion Uplift yn 2024/25 a chynyddu ein SCCH i 194 llawn amser dros y flwyddyn ariannol.
- 3.4 Lansiodd ap Pronto ledled yr heddlu ar 19 Chwefror 2024 yn dilyn cynlluniau arbrofol yn yr ardal Ganolog. Mae'r ap yn cynorthwyo gweledigaeth yr Heddlu er mwy bod yn fwy amlwg ac ymgysylltu hefo'n cymunedau. Caniateir swyddogion gwblhau mwy o waith i ffwrdd o orsafoedd heddlu gan ddod i ben yn cynrychioli carreg filltir arwyddocaol.
- 3.5 Mae ffrydiau gwaith eraill fel uwchraddio system Reoli ac AD yn parhau'n heriol ond a reolir yn weithredol.
- 3.6 Yn dilyn rheoliadau pensiwn newydd o ran datrysiad McCloud yn dod i rym ar 1 Hydref 2023, bydd yr Hyb Pensiwn a gweinyddwr pensiynau'r heddlu yn dal i brofi galw sylweddol hefo lefelau gwasanaeth cwsmeriaid o dan bwysau o'i gymharu â lefelau hanesyddol.
- 3.7 Tra mae'r lefelau cynhyrchu'n isel, mae gwaith ar y gweill er mwyn lleihau trosiant isel. Lansiodd proses cyfweiliadau ymadael wedi'i hailwampio ym mis Chwefror gan roi'r cyfle i ymadawyr roi cipolwg ar resymau gadael. Ar 25 Mawrth 2024, bydd menter "Dweud ac Aros" yn cael ei lansio, gan annog pobl godi llais os ydyn nhw'n ystyried gadael y sefydliad.
- 3.8 Mae'r Swîth Hydra ym Mhencadlys yr Heddlu newydd gael ei ddiweddarau ac mae'n cynnig pecynnau dysgu trochi i staff. Llwyddwyd cwblhau pecyn hyfforddiant ar gyfer darpar Oruchwylwyr Llinell Gyntaf a rhai presennol ddiwedd llynedd. Mae rhaglen newydd o becynnau hyfforddiant yn cael eu cyflwyno yn 2024.
- 3.9 Cymerodd yr Heddlu ran yn yr Wythnos Genedlaethol Dathlu a Chydnabod Staff Heddlu gyntaf. Roedd yn dechrau ar 4 Mawrth 2024. Roedd wedi'i llunio er mwyn cydnabod cyfraniad a wnaed i blismona gan staff yr heddlu, ynghyd â chynyddu deall gwaith staff heddlu ar draws y darlun plismona.

4. Gweithredol

4.1 Mae'r heddlu wedi cyflawni sawl peth yn ddiweddar:

- Heddlu Gogledd Cymru oedd y prif heddlu yn y wlad am ein cyhoedd yn ymddiried ynddon ni (data Arolwg Trosedd Cymru a Lloegr).
- Mae cyfraddau bodlonrwydd o ran trin achosion casineb yr Heddlu wedi cynyddu 8 pwynt canran i 83.3%.
- Mae cyfraddau bodlonrwydd o ran yr Heddlu'n trin achosion o gam-drin domestig wedi cynyddu i 84.2%.

4.2 Cafodd yr Hyb Atal ei lansio eto ar 18 Medi 2023 er mwyn cynorthwyo cymell ein hatal hefo gwaith er mwyn lleihau galw ar swyddogion a staff. Mae creu ymddiriedaeth a hyder ymhlith y cyhoedd yn symud ymlaen ers hynny. Yn ddiweddar, mae'r tîm wedi cydlynu'r cais er mwyn cael cyllid Llecyn ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf.

4.3 Cynhaliwyd dyddiau argraff ar draws yr Heddlu ym mis Rhagfyr hefo sylw ar amlygrwydd cynyddol wedi'u targedu, gwarantau, gwiriadau trwyddedu a gwiriadau

troseddwyr risg uchel. Roedd y dyddiau'n rhoi sicrwydd ac amlygrwydd cynyddol cyn y Nadolig ac fe gafwyd croeso mawr gan bawb.

- 4.4 Arestwyd 142 o bobl am droseddau yfed neu gyffuriau fel rhan o'r ymgyrch atal dros y Nadolig.
- 4.5 Cynhaliwyd asesiad cenedlaethol o ran Diogelwch Gwybodaeth gan Wasanaethau Digidol yr Heddlu, sy'n gweithredu fel yr achredwr diogelwch seiber plismona cenedlaethol. Sgoriodd Heddlu Gogledd Cymru uwchben y cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer heddluoedd yng Nghymru a Lloegr er roedd yr asesiad hefyd yn cydnabod y risg parhaol.
- 4.6 Ddiwedd mis Ionawr 2024, adroddwyd am doriad data o gangen UNSAIN Gogledd Cymru, a effeithiodd ar nifer o staff heddlu HGC. Er ddim yn doriad gan HGC, roedd hwn yn rhoi cyfle i atgoffa staff sut i warchod gwybodaeth bersonol. Adolygwyd ar ein prosesau rheoli gwybodaeth ac mae hwb pellach wedi bod er mwyn sicrhau fod holl staff yn cwblhau'r Hyfforddiant Gloywi Diogelu Data. Bydd yr Heddlu hefyd yn mynd drwy adolygiad annibynnol gan Swyddfa'r Comisiynydd Annibynnol yn ddiweddarach eleni.
- 4.7 Mae monitro cyflawniad ar lefel yr Heddlu a SCHTh yn parhau hefo diweddariadau cyflawniad allweddol gan y Bwrdd Gweithredu Strategol a gynhaliwyd ar 8 Chwefror 2024 yn cynnwys adroddiadau at wraidd y mater i feysydd Troseddau Cefn Gwlad a Chanolfan Reoli'r Heddlu.
- 4.8 Derbyniodd y tîm Fforensig achrediad ISO yn dilyn ymweliad gan UKAS ym mis Ionawr sy'n haeddiannol iawn. Mae'n adlewyrchu'r gwaith anodd a gwblhawyd gan y tîm o dan arweiniad Dr Anya Hunt.

5. Cyhoeddus / Cymunedol

- 5.1 Dros y 12 mis diwethaf gwnaeth yr ystafell reoli ateb 99,000 o alwadau (98%), sy'n gynnydd o bron 12,000 o'r flwyddyn flaenorol.
- 5.2 Lanswyd Gofal lawn Pobl lawn ym mis Ionawr 2024. Mae'r cyfnod cyntaf yn canolbwyntio ar bryder am alwadau diogelwch a fyddai'n cael eu hadnoddau'n fwy priodol gan asiantaethau eraill.
- 5.3 Mae'r heddlu'n parhau symud ymlaen gyda'i gwaith o ran creu ymddiriedaeth a hyder gyda'i gymunedau a'i llif gwaith archwiliad diwylliannol yn parhau symud ymlaen. Mae dros 200 o staff bellach wedi cwblhau'r Rhaglen Arweinyddiaeth Gynhwysol.

6. Argymhellion

Aelodau'r Cydbwyllgor Archwilio i nodi adroddiad y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau.

Cydbwyllgor Archwilio

Dyddiad y Cyfarfod: 28 Mawrth 2024


Teitl:	Adroddiad HMICFRS
Awdur:	Sarah O'Hara, Archwilio ac Arolygu
Diben yr adroddiad:	Rhoi trosolwg i aelodau'r pwyllgor am y PEEL HMICFRS sydd ar y gweill <i>Arolwg (Effeithiolrwydd, effeithlonrwydd a chyfreithlondeb yr Heddlu)</i> a chynnydd o ran meysydd i'w gwella ac argymhellion.
Cyflwynir yr adroddiad i'r CA ar gyfer: (ticiwch un)	<input type="checkbox"/> Penderfyniad <input type="checkbox"/> Trafodaeth <input checked="" type="checkbox"/> Sicrwydd <input type="checkbox"/> Gwybodaeth
Crynodeb / Pwyntiau Allweddol:	<ul style="list-style-type: none">• Mae Grwp Gorchwyl a Gorffen PEEL a gadeirir gan y Dirprwy Brif Gwnstabl wedi bod yn monitro cynnydd y meysydd i'w gwella a neilltuwyd o arolwg 21/22 ar ben y paratoi cyffredinol ar gyfer PEEL.• Mae HMICFRS wedi dechrau eu hasesiad cyn arolwg, sydd hyd yma'n cynnwys:<ul style="list-style-type: none">○ Presenoldeb yng nghyfarfodydd yr heddlu○ Grwpiau ffocws hefo swyddogion/staff○ Adolygiad o dystiolaeth ddogfennol fel polisïau a strategaethau○ Adolygiad o ffilmiau camera corff achosion stopio a chwilio• Bydd y cyfnod arolygu dwys dros bythefnos ar gyfer Heddlu Gogledd Cymru yn dechrau ar 15 Gorffennaf. Bydd arolygwyr HMICFRS yn defnyddio'r cyfnod hwn er mwyn profi realiti eu canfyddiadau hyd yma, gan ymweld â'r mwyafrif o orsafoedd ac adrannau ar draws ardal yr heddlu.
Argymhellion:	Dim.
Effaith cofrestr risgiau:	Dim.
Goblygiadau sicrwydd:	Dim.
Effaith Cydraddoldeb:	Dim.
Gwybodaeth wedi'i heithrio o ddadleniad:	Dim.

1. CYFLWYNIAD

Diben yr adroddiad hwn ydy rhoi trosolwg i aelodau'r Cydbwyllgor Archwilio o'r amserlen arolygu a gynhelir gan HMICFRS. Mae Heddlu Gogledd Cymru eisoes yn ei gyfnod asesu ar gyfer PEEL 23-25, hefo'r arolwg yn dod i ben ym mis Gorffennaf 2024. Nid oes arolygon eraill wedi cael eu gosod ar gyfer yr heddlu. Fodd bynnag, mae arolwg ar y cyd o wasanaethau troseddu ieuentid ar gyfer siroedd Conwy a Dinbych wedi cael arolwg yn ddiweddar ar y cyd hefyd Profiannaeth AEF. Mae canlyniad yr arolwg hwn eto i'w ddadlennu.

2. AROLWG PEEL HEDDLU GOGLEDD CYMRU

Mae gweithgarwch er mwyn cynorthwyo canfyddiadau arolwg PEEL Heddlu Gogledd Cymru wedi dechrau, hefo HMICFRS bellach yn mynd ati ac asesu'r heddlu un ai yn y cnauld neu o bell. Mae'r sleid isod yn rhoi amserlen o'r asesiad:



Mae HMICFRS bellach yn arsylwi cyfarfodydd yr heddlu'n rheolaidd. Mae'r cyfarfodydd hyn yn cwmpasu bob elfen o blismona o fewn strwythur llywodraethu pob maes adrannol. Mae mynychu cyfarfodydd yn cynnwys arsylwi ar lefel dactegol a strategol a'r rhai hynny sy'n cynnwys paneli craffu cyhoeddus, fel y rhai hynny sy'n adolygu stopio a chwilio ac achosion o ddefnyddio grym. Mae HMICFRS hefyd wedi dechrau cynnal grwpiau ffocws hefo swyddogion a staff, hefo saith o grwpiau ffocws wedi cael eu cynnal rhwng 27 a 29 Chwefror 2024. Bydd mwy o grwpiau ffocws yn digwydd dros y misoedd nesaf.

Aeth yr arolwg gweithlu HMICFRS yn fyw ar 29 Ionawr ac mae'n cau ar 4 Mawrth. Mae'r arolwg gweithlu hwn yn cwmpasu agweddau fel hyfforddiant, datblygu gyrfa, perthyn i weithlu, llwyth gwaith, hawliadau absenoldeb, lles, cymorth rheolwyr, a bwlio, aflonyddu a gwahaniaethu. Ar adeg yr ysgrifennwyd yr adroddiad hwn, roedd 29% o'r gweithlu wedi cwblhau'r arolwg. Mae cwblhau'r arolwg hwn yn galluogi HMICFRS gyrraedd poblogaeth ehangach o'r gweithlu a gallu sylfaenu eu canfyddiadau ar ben y rhai hynny a siaredir hefo nhw mewn grwpiau ffocws a phrofion realiti.

Toc, bydd HMICFRS yn edrych ar gynnal archwiliad o achosion stopio a chwilio ar hap ddigwyddodd yn 2023. Mae'r archwiliad hwn yn asesu a ydy rhesymau'r swyddogion dros chwilio'r unigolyn yn rhesymol. Mae HMICFRS hefyd yn cynnal adolygiad o ffilm camerâu corff achosion stopio a chwilio, hefo 20 achos wedi'u rhannu hefo ar gyfer adolygiad.

Mae cynllunio ar gyfer elfennau eraill canlynol yr arolwg fel y cyfeiriwyd yn yr amserlen eto i'w trefnu.

3. Meysydd i'w Gwella PEEL 21/22

Sefydlwyd Grŵp Gorchwyl a Gorffen PEEL ym mis Gorffennaf 2023 a gadeirir gan y Dirprwy Brif Gwnstabl. Sefydlwyd y cyfarfod hwn er mwyn monitro cynnydd cwblhau'r meysydd i'w gwella o'r arolwg a pharatoi ar gyfer arolwg 23-25. Mae cynnydd y meysydd i'w gwella wedi cael eu craffu ymhellach gan y DBG. Cynhaliwyd cyfarfodydd unigol hefo arweinwyr gwasanaethau er mwyn dirnad y sefyllfa a champau pellach yn llawn er mwyn sicrhau gall yr heddlu gwblhau'r meysydd i'w gwella. Tra mae'r mwyafrif bellach wedi cwblhau, sef bod prosesau effeithiol wedi cael eu gosod, mae rhai'n parhau. Rhaid tynnu sylw fod cwblhau rhai meysydd i'w gwella'n dibynnu ar ganfyddiadau adolygu ffeil trosedd troseddau unigol a gafodd eu harchwilio. Mae amserlenni cwblhau'r meysydd i'w gwella'n unol â'r arolwg, gan eu bod yn cael eu hasesu gan yr arolygiaeth yn ystod y broses hon.

Manylir crynodeb o'r meysydd i'w gwella isod. Mae amserlenni unrhyw weithrediadau sy'n weddill wedi cael eu cynnwys lle mae gwaith sy'n weddill yn parhau.

1. Dylai'r heddlu sicrhau, o ran ei ddefnydd o rym, bod holl swyddogion a staff perthnasol yn cofnodi pan ddefnyddir grym a bod goruchwyliaeth effeithiol.

Mae'r broses archwilio newydd bellach wedi sefydlu'n llawn ac mae'n fusnes fel arfer, gan sicrhau fod pob achos o ddefnyddio grym yn cael eu cofnodi. Mae ffeithlun newydd ei ddylunio er mwyn gwella rhannu ystadegau defnyddio grym hefo'r cyhoedd bellach ar gael i'w weld ar wefan yr heddlu. Bydd y wybodaeth hon yn cael ei diweddarau ar y wefan yn chwarterol. Mae copi o'r ffeithlun ynghlwm.



~~used for~~
~~older to~~

(Gweler Atodiad 1)

Ar ben y diweddariadau blaenorol a roddwyd i'r pwyllgor, mae penderfyniad wedi cael ei wneud er mwyn uno'r byrddau craffu a llywodraethu stopio a chwilio a defnyddio grym yn dilyn trafodaethau arfer gorau hefo Arweinydd Cyswllt Heddlu HMICFRS. Mae cyfrifoldeb strategol bellach hefo Prif Uwcharolygydd Gwasanaethau Cymorth Gweithredol (GCG). Mae Uwcharolygydd GCG yn gyfrifol am arweinwyr defnyddio grym ac mae Uwcharolygydd Gwasanaethau Plismona Lleol a diogelwch cymunedol yn gyfrifol am stopio a chwilio. Mae'r strwythur newydd hwn wedi cael ei gytuno. Mae amserlennu'r cyfarfodydd hyn bellach ar y gweill ar gyfer mis Mawrth. Bydd HMICFRS yn arsylwi'r cyfarfodydd hyn fel rhan o'u proses arolygu ac yn galluogi adolygiad pellach wrth i ni gwblhau'r meysydd i'w gwella.

2. Mae'r heddlu angen ymateb i alwadau am wasanaeth yn unol â'i amseroedd presenoldeb cyhoeddedig a sicrhau, pan nad ydy hyn yn digwydd, fod dioddefwyr yn cael eu diweddarau'n llawn

Mae Uwcharolygydd Ystafell Reoli'r Heddlu'n dadansoddi amseroedd ymateb yn y cyfarfod cyflawniad wythnosol ac fe fodlonir yr amser danfon ac ymateb canolrifol. Rhennir y data hwn hefo Gwasanaethau Plismona Lleol er mwyn dadansoddi data ymhellach yn ôl ardal am eu hadolygu lle mae gostyngiadau mewn cyflawniad. Mae'r model ymateb rheng flaen yn gydnaws hefo'r Rhaglen Gwelliant Gweithredol a gosod cyllideb. Mae'r heddlu felly'n fodlon fod y fframiau amser ar gyfer ymateb yn parhau'n addas i'r diben hefo galw presennol ac yn y dyfodol ynghyd ag argaeledd adnoddau.

Er mwyn sicrhau bod dioddefwyr yn cael gwybod am unrhyw oedi mewn ymateb, mae gan yr ystafell reoli broses mewn lle ar gyfer digwyddiadau blaenoriaeth 1 (ymateb o fewn 60 munud), sef 55 munud mewn, mae staff dethol ar dermini desg ddigidol, gan gynnwys terminws goruchwylwr, yn derbyn neges yn dweud wrthyn nhw am wirio'r digwyddiad a gweithredu. Mae hyn yn cynnwys hysbysu'r galwr am yr oedi a'r rheswm am yr oedi. Cynhelir adroddiad dyddiol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth sydd ar hyn o bryd ar 95%+ (*nid ydy rhai digwyddiadau'n addas am resymau amrywiol*).

Ar ben hyn, mae sawl newid, drwy'r Rhaglen Optimeiddio, wedi cynorthwyo gwella dosbarthu swyddogion a rheoli galw, gan gynnwys:

- Mae cynnydd mewn lefelau staffio dyddiol wedi cael ei gytuno ar gyfer rhingylliaid patrôl ar draws yr heddlu sy'n golygu bydd ardaloedd yn anaml yn cael eu gadael heb oruchwyliaeth gan ringyll.
- Mae gweithredu Cyfnod 1 Gofal lawn, Pobl lawn wedi lleihau'r nifer o ddigwyddiadau mae swyddogion yn cael eu hanfon atyn nhw. Felly fe wnaeth gynyddu argaeledd swyddogion ymateb i achosion blaenoriaeth eraill.
- Mae'r patrymau sifft newydd a'r DSL sy'n cyfuno dyletswyddau'r patrôl a'r arolygyddion dalfa yn rhoi mwy o bresenoldeb goruchwyliaeth arolygydd ar draws yr heddlu ddydd a nos. Mae cadernid yr ymdriniaeth hon yn cael ei gwella drwy gynnal rota o reolwyr ardal er mwyn llenwi unrhyw fylchau a grëwyd drwy salwch byr rybudd.
- Mae newidiadau i'r Uned Datblygu Swyddogion ar Brawf yn rhoi baich cynyddol ar y swyddogion o fewn yr uned sy'n ymateb i ddigwyddiadau, sy'n cynnwys eu cyfrif nhw'n swyddogol fel rhan o'r DSL ar nos Wener a nos Sadwrn er mwyn cynorthwyo mewn bodloni'r galw mwyaf.
- Mae adolygiad o Ganolfan Reoli'r Heddlu ar y gweill ac mae'n ymgorffori'r dull rydym yn danfon swyddogion i ddigwyddiadau er mwyn sicrhau ei fod yn effeithlon ac effeithiol.

3. Dylai'r heddlu sicrhau fod ymchwiliadau'n cael eu goruchwyllo gan sicrhau yr ystyrir holl gyfleoedd ymchwilio.

Daeth yr archwiliad a gynhaliwyd gan Gofrestrydd Trosedd yr Heddlu ar gyfer achosion rhwng mis Mai a mis Gorffennaf 2023 i'r casgliad fod goruchwyliaeth yn 67% o'r achosion a fod gan 71% ymchwiliad effeithiol. Os oedd goruchwyliaeth effeithiol, mae ymchwiliad effeithiol yn codi i 95%.

Serch hynny, ni wnaeth 44% (20/45) o oruchwylwyr ddefnyddio EOEL4 (*y templed adolygiad goruchwyllo*), gan felly ddim dilyn polisiâu rheoli trosedd lleol. Gwnaeth yr heddlu felly orchymyn defnyddio'r templed EOEL4 ym mis Ionawr 2024 er mwyn sicrhau bod diweddariadau goruchwyllo yn berthnasol i droseddau'n unol hefo'r amserlenni o fewn y polisiâu rheoli trosedd. Cynhaliwyd archwiliad cychwynnol 100 o droseddau ar draws bob ardal (*10 bob ardal*) ym mis Chwefror 2024 er mwyn deall os oedd y neges hon wedi cael ei derbyn ar y rheng flaen. Daeth yr archwiliad i'r casgliad fod angen gwaith pellach. Mae canllawiau un dudalen wedi cael ei pharatoi er mwyn sicrhau bod swyddogion yn deall eu rhwymedigaethau hefo'r canllawiau arfer rheoli trosedd, y cod ymarfer dioddefwyr a gofynion cau ffeiliau. Cynhelir archwiliad pellach ym mis Mawrth 2024 ar sail troseddau blaenoriaeth.

Ar ben hyn, mae sawl newid, drwy'r Rhaglen Optimeiddio, wedi lleihau galw ar y Rhingylliaid Patrôl sy'n cynyddu eu gallu am ddarparu trosolwg ymchwilio. Er enghraifft:

- Mae'r tîm creu achos Cam-drin Domestig yn gyfrifol am 40-45% o holl ffeiliau achos a fyddai wedi bod angen goruchwyliaeth.
- Mae parhau buddsoddi mewn Uned Datblygu Swyddogion ar Brawf well yn tynnu'r galw o reoli'r swyddogion fyfyrwyr a'u gwaith portffolio oddi ar y Rhingyll rheng flaen.
- Ddim bellach yn gorfod goruchwyllo'r digwyddiadau ac ymchwiliadau sy'n gysylltiedig hefo'r galw a dynnwyd drwy Gofal lawn Pobl lawn.
- Lleihau'r amser mae Rhingylliaid angen ei dreulio'n paratoi ar gyfer eu sesiynau briffio rota oherwydd yr offeryn briffio Power BI.

4. Mae'r heddlu angen sicrhau ei fod yn cydymffurfio gyda gofynion y Codau Ymarfer Dioddefwyr Trosedd. Mae hyn yn cynnwys cynnig y cyfle i wneud datganiadau personol dioddefwyr a chwblhau asesiad anghenion y dioddefwr.

Mae bwrdd gwaith Power BI y Cod Ymarfer Dioddefwyr Troseddwyr yn fyw, ond yn dal i gael ei ddatblygu o ran gallu dangos data'n gywir. Mae dal angen archwiliadau llaw lle nad oes data awtomatig ar hyn o bryd. Mae

gwelliannau i ddata'n gysylltiedig hefo'r modiwl cyswllt dioddefwr ar Pronto. Mae'r modiwl hwn yn ymgorffori meysydd mae angen i swyddog eu cwblhau a bydd yn gwella data cyflawniad. Bydd gwelliannau i'r modiwl yn mynd yn fyw ar 4 Mawrth 2024, sy'n cynnwys cwestiynau cydymffurfiaeth ychwanegol. Mae hyn yn cynnwys bregusrwydd, datganiadau personol dioddefwr a phroses newydd o bosib er mwyn darparu derbynneb electronig drwy e-bost o'r cytundeb cyswllt hefo'r dioddefwr. Os nad yw'r dioddefwr yn dymuno copi electronig, yna bydd Pronto'n sbarduno llif gwaith ar gyfer anfon llythyr traddodiadol.

Rhennir y crynodeb archwiliad Cod Ymarfer y Dioddefwr chwarterol isod. Mae hyn yn seiliedig ar ddata chwarter 2 (Gorffennaf – Medi 2023):

Archwiliad Cydymffurfiaeth yr Heddlu Cod Ymarfer Dioddefwr Trosedd – Crynodeb o'r Penawdau

- Mae'r mwyafrif o fesurau cydymffurfiaeth hefo'r Cod Ymarfer Dioddefwr Trosedd yn sefydlog.
- Nodwyd gwelliannau sylweddol hefo swyddogion yn egluro/cynnig datganiadau personol dioddefwr ac yn cynnig atgyfeirio dioddefwr at gymorth dioddefwr.
- Gwnaeth y prif droseddau a gafodd eu harsylwi nodi gwelliannau sylweddol wrth ddiweddarau dioddefwr a rhoi cyfeiriad goruchwylio clir a rheolaidd.
- Mae gwelliannau wedi cael eu gweithredu ar gyfer prosesau Cod Ymarfer Dioddefwr Trosedd. Cwblhau modiwl cyswllt dioddefwr/cofnod ymholiad achos negyddol (OEL), yn cynnig cymorth dioddefwr, swyddog cyfrifol yn nodi hawliau gwella ac yn egluro/cynnig Datganiad Personol Dioddefwr, ond mae angen gwella ymhellach.
- Mae templed cwblhau'r EOEL3 (y swyddog sy'n gyfrifol am gwblhau ymchwiliad) yn wael. Mae hyn yn bwysig er mwyn sicrhau cywirdeb am yr adroddiad 'diweddariad dioddefwr nesaf dyledus', er mwyn rheoli diweddariadau dioddefwr.
- Nodwyd cyflawniad da wrth ddiweddarau dioddefwr yn dilyn digwyddiadau sylweddol a chanlyniad yr ymchwiliad. Fodd bynnag, mae angen gwella wrth ddarparu diweddariadau rheolaidd i ddioddefwr yn unol hefo amllder a gytunwyd fel y cofnodwyd yn y modiwl cyswllt dioddefwr.
- Mae derbyn y Datganiadau Personol Dioddefwr a chydymffurfiaeth 'dewis darllen yn y llys' yn gydnaws hefo'r mwyafrif o Ddatganiadau'n cael eu derbyn ond ddim eu cofnodi os na aeth yr achos i'r llys neu a arweiniodd at ddatrasiad tu allan i'r llys.

5. Rhaid i'r heddlu rhoi llywodraeth briodol ar waith a phrosesau monitro i wneud yn siŵr bod y defnydd o ganlyniadau yn briodol a'i fod yn cydymffurfio gyda pholisïau'r heddlu a pholisïau cenedlaethol.

Mae'r tîm archwilio canolog dros dro bellach wedi'i sefydlu'n llawn ac mae'r hyfforddiant wedi darford. Mae dau o'r tîm yn canolbwyntio ar edrych dros 100% o'r canlyniadau a gaewyd hefo canlyniad 10 (*penderfyniad yr heddlu – erlyniad ddim er budd y cyhoedd*) neu ganlyniad 21 (*yr un o dan amheuaeth wedi'i enwi – ymchwiliad ddim er budd y cyhoedd*) a dau arall yn gweithio ar ganlyniadau wedi cau hefo canlyniad 15 (*wedi enwi'r un o dan amheuaeth – dioddefwr yn cynorthwyo, anawsterau tystiolaethol*) a chanlyniad 16 (*wedi enwi'r un o dan amheuaeth – nid ydy'r dioddefwr yn cynorthwyo, anawsterau tystiolaethol*). Mae cydymffurfiaeth wedi gwella ers cyflwyno'r tîm archwilio. Mae Canlyniad 15 oddeutu 95%. Mae Canlyniadau 16 a 21 yn gwella, ond yn araf. Mae Canlyniad 10 yn gwella sy'n golygu nad yw'n cael ei ddefnyddio'n anghywir mor aml.

Ar ben hyn, rhaid i Dditectif Brif Arolygyddion ardal adrodd i'r cyfarfod grŵp defnyddwyr cofnodi trosedd strategol (CRUG) drwy adroddiad prif bwyntiau sy'n amlinellu pa gamau maen nhw'n ei gymryd er mwyn gwella cydymffurfiaeth canlyniad. Mae Ditectif Brif Arolygyddion hefyd wedi cyflwyno proses uwchgyfeirio ar gyfer rhingylliaid sy'n gwneud gwallau a fydd yn ffurfio rhan o'u datblygiad proffesiynol parhaus (DPP). Mae'r Bwrdd Safonau Ymchwilio yn monitro pob mater cofnodi trosedd yn cynnwys canlyniadau.

6. O fewn chwech mis dylai'r heddlu ddangos fod ganddo ddigon o allu o fewn yr Uned Atgyfeirio Ganolog. Mae hyn wedi arwain at asesiadau risg amserol yn cael eu cwblhau ac mae staff yn gallu mynychu cyfarfodydd gan amlasiantaethau.

Mae'r adolygiad Gwasanaethau Trosedd a gynhaliwyd gan y Rhaglen Gwella Optimeiddio wedi cadarnhau fod y sefyllfa yn yr Uned Atgyfeirio Ganolog yn llawer gwell hefo asesiadau risg yn cael eu cynnal mewn modd mwy amserol. Mae'r adolygiad yn parhau edrych ar gyfleoedd am effeithlonrwydd pellach er mwyn sicrhau bod yr uned yn gynaliadwy yn wyneb y galw a ragwelir fydd yn cynyddu.

Gwnaeth FLL HMICFRS hefyd ymweld â'r Uned ym mis Tachwedd 2023 ac roeddent o falch o weld yr adran mewn sefyllfa llawer gwell.

7. Dylai'r heddlu fod yn fwy rhagweithiol wrth hyrwyddo gwaith amlasiantaeth er mwyn sicrhau fod pobl fregus yn cael eu diogelu'n effeithiol.

Mae'r heddlu'n mynd ati'n barhaus er mwyn cyflawni gwaith amlasiantaeth ledled yr heddlu, ond mae hyn hefyd ar ddisgresiwn asiantaethau partner. Serch hynny, mae datblygiadau sylweddol wedi bod wrth weithredu MASH ledled ardal yr heddlu. Ar hyn o bryd, mae MASH Conwy yn fusnes fel arfer. Dechreuodd arbrawf MASH (*gwasanaethau plant yn unig*) ym mis Mawrth 2023 hefo Cyngor Sir Ddinbych, gyda'r gwasanaethau oedolion yn barod i ddechrau o safbwynt plismona ond yn disgwyl mynd ymlaen o'r awdurdod lleol oherwydd problemau staffio. Aeth Ynys Môn yn fyw hefo model tebyg ym mis Mehefin 2023. Mae MASH Wrecsam bellach yn rhedeg yn ddyddiol hefo Gwasanaethau Plant. Bydd asiantaethau eraill yn ymuno lle mae angen fel SSD Oedolion, Gwasanaeth Prawf, Iechyd ac Addysg. Nid oes MASH Oedolion ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae hwn yn rhywbeth mae'r heddlu'n ei drafod hefo'r tîm Pwynt Cyswllt Unigol Oedolion (Pwynt Mynediad Unigol) a diogelu. Mae prif swyddogion wedi derbyn adroddiad yn manylu'r ymdrechion mae HGC wedi'u gwneud er mwyn sefydlu ffwythiant MASH ledled yr heddlu. Bydd y prif swyddogion yn cyflwyno hyn mewn uwch fyrddau gweithredol er mwyn annog yr awdurdodau lleol sydd ar ôl er mwyn ymgysylltu yn yr hyn sydd wedi cael ei gydnabod yn genedlaethol fel arfer da.

8. Dylai'r heddlu adolygu ei allu digidol o fewn Timau Ymchwilio Cam-drin Plant Ar-lein (OCAIT) a Rheoli Troseddwyr Rhywiol neu Dreisgar (MOSOVO).

Mae swyddogion yn y tîm MOSOVO wedi derbyn hyfforddiant er mwyn gwella gallu digidol a galluogi brysbennu teclynnau'n gynnar mewn mannau a lleoedd. Mae'r tîm OCAIT yn gweithio hefo'r Uned Fforenseg Digidol sy'n mynd hefo nhw'n rheolaidd hefo teclynnau brysbennu yn y fan a'r lle. Gall staff MOSOVO ymuno hefo staff OCAIT ar warantau. Mae cyfleoedd hyfforddiant amgen wedi cael eu cwblhau gan staff OCAIT er mwyn gwella gallu digidol, sy'n cynnwys:

- Griffeye (fel y system Data Delweddau Cam-drin Plant)
- CPsystem
- Rhaglen datblygu ymchwilio cam-drin plant arbenigol (SCAIDP)
- System Gwarchod Ar-lein Plant ICAC. Mae hwn yn offeryn rhagweithiol er mwyn nodi troseddwyr sy'n rhannu delweddau anwedus o blant drwy rwydweithiau rhannu ffeiliau fel Torrents. Ar ben hyn, mae hyn yn rhoi gwybodaeth well i staff i ddadansoddwyr technegol, patrymau, a chyfle i rwydwaith hefo swyddogion o heddluoedd eraill.

9. Dylai'r heddlu adolygu ei arfer rheoli troseddwyr rhyw.

Er mwyn sicrhau bod trosolwg gwaith wedi'i gofnodi'n dda a'i oruchwylio'n amserol, cofnodir cynlluniau rheoli risg a diweddariadau o ymweliadau â chartrefi hefo troseddwyr rhyw cofrestredig yn Adroddiad Cyflawniad y PVPU. Mae'n cael ei gyflwyno i Fwrdd Llywodraethu'r PVPU am drosolwg gan yr UDRh. Sicrhawyd Ditectif Ringyll parhaol ym mis Tachwedd 2023. Mae'r heddlu'n hyderus bydd y maes i'w wella hwn yn cael ei gydnabod fel wedi cwblhau gan HMICFRS ar ôl ail arolwg.

10. - Mae'r heddlu angen deall ei allu'n well a sicrhau ei fod yn defnyddio adnoddau'n fwy effeithlon er mwyn darparu gwasanaethau gwell i'w gymunedau.

Mae gan y Rhaglen Gwella Optimeiddio ffrydiau gwaith sy'n rhedeg o ran Plismona Lleol, Gwasanaethau Trosedd, a Chanolfan Reoli'r Heddlu. Agwedd hanfodol o'r gwaith ydy asesiad cynhwysfawr o allu'r meysydd o dan adolygiad. Mae hyn eisoes wedi arwain at gytuno ar newidiadau o fewn GPLI, hefo model patrôl wedi'i werthuso'n llawn a'r argymhellion canlynol wedi'u cymeradwyo ar gyfer newidiadau i'w gwneud ar draws plismona lleol. Mae'r newidiadau'n cynnwys:

- Uned paratoi ffeiliau achos cam-drin domestig neilltuol.
- Rhyddhau arolygyddion patrôl o faterion y ddalfa er mwyn eu hysbrydoli nhw ganolbwyntio ar eu timau patrôl.
- Bydd patrwm sifft arolygydd y ddalfa yn newid er mwyn bod yn gydnaws at y patrwm rota patrôl.
- Cael gwared ar yr angen i Arolygyddion Ardal a Rhingylliaid Cymorth er mwyn gweithio patrwm cadre noson.
- Presenoldeb parhaol rhingyll patrôl ym mhob ardal ar bob sifft drwy gynyddu DSL rhingyll er mwyn sicrhau goruchwyliaeth a chymorth cyson.
- Cyfarfod gosod cyflymder bob dydd am 2pm er mwyn sicrhau bod uwch reolwyr yn parhau ymgysylltu mewn deall yr heriau a sicrhau bod cyrchu'n ddigonol.

Mae offeryn briffio plismon wedi cael ei greu sy'n rhoi'r holl ddata angenrheidiol ar gyfer sesiynau briffio dyddiol. Mae data Cod Ymarfer Dioddefwyr Trosedd wedi cael ei ymgorffori i'r warws er mwyn caniatáu deall cynnydd yr ymchwiliad yn unol hefo gofynion y dioddefwr. Mae bwrdd gwaith Galw a Chyflawniad Strategol wedi cael ei greu ac mae cynllun gwaith er mwyn poblogi metrigau galw allweddol. Ar ben hyn, mae matrices galw yn cael ei ddatblygu er mwyn deall galw allweddol ar draws bob adran. Mae cyfnod nesaf datblygu cynnyrch Cuddwybodaeth Busnes wedi cael ei ddatblygu sy'n blaenoriaethu sawl maes data allweddol fel y ddalfa, a chynnyrch eraill sy'n canolbwyntio ar allu a galw e.e. Cynnyrch llwyth gwaith swyddog, cynnyrch cryfder/defnyddioldeb, data allweddol monitro cynnyrch ailstrwythuro a chyflawni er mwyn cynorthwyo'r Cynllun Strategol.

11. - Mae'r heddlu angen gwella sut mae'n trosglwyddo ei gynlluniau ariannol a'r heriau mae'n wynebu wrth gyflawni ei wasanaethau.

Mae dogfennau ariannol mewnol ac allanol wedi'u gwerthuso er mwyn sicrhau bod ein cynlluniau a heriau ariannol yn cael eu trosglwyddo'n briodol. Amlinellir sefyllfa ariannol yr heddlu hefo'r Pwyllgor Archwilio, y Panel Heddlu a Throsedd, y Bwrdd Cyllid ac Adnoddau, y Bwrdd Gweithredol Strategol a'r Bwrdd Rheoli Strategol. Mae newidiadau wedi cael eu gwneud i'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig er mwyn caniatáu cyfeiriadau cynyddol i'n tanwariant ariannol a 'chryfder' mantolen yr heddlu. Mae manylion y braesept ac adroddiadau wedi'u rhannu hefo'r chwe awdurdod lleol. Mae'r Strategaeth Gyfalaf (gan gynnwys y Gyllideb Gyfalaf) wedi'u cyflwyno i'r Cydbwyllgor Archwilio, hefo diweddariad ar risgiau a thybjaethau o fewn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig. Mae'r Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau hefyd wedi gwneud cofnod fideo ledled yr heddlu yn canolbwyntio ar yr alldro ar gyfer cyllideb llynedd ac eleni.

Mae'r heddlu hefyd wedi cael sicrwydd annibynnol ynghylch y cyfathrebu presennol o ran y Sefyllfa Ariannol a Thanwariant drwy'r CA, hefo cynllun gweithredu wedi'i drafod mewn sesiwn gaeedig o'r cydbwyllgor hefo gwelliannau i hysbysu wedi'u trafod. Rydym yn hyderus fod y maes i'w wella hwn wedi'i fodloni'n barod.

4. Argymhellion a meysydd i'w gwella ddim gan PEEL

Ceir crynodeb isod o'r holl argymhellion a meysydd i'w gwella a bennwyd i Heddlu Gogledd Cymru:

Lefel 2 - Yr Heddlu i gymeradwyo	Lefel 3 – Yr Heddlu a HMICFRS i gymeradwyo
----------------------------------	--


Newydd: Bodloni anghenion dioddefwyr yn y system cyfiawnder troseddol x 1	Trosedd Trefnedig a Difrifol HGC – 4 argymhelliad
Newydd: Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant gan grŵp x 4	Cyflawniad yr Heddlu x 3 argymhelliad
Anghyfartaledd hil mewn gwneud penderfyniadau cyfiawnder troseddol yr heddlu x 4	Fetio, camymddwyn a chasineb at ferched x 24 argymhelliad <i>(ystyriwyd bod 23 yn disgwyl dilysiad gan HMICFRS)</i>
Atal llofruddiaeth x 2 argymhelliad	Fetio HGC 2022 x 1 maes i'w wella
Gosod drylliau tanio x 4	PEEL 2022 x 11 maes i'w wella
Trais leuenctid Difrifol x 2 argymhelliad	
CSE Ar-lein x 10 argymhelliad	
Fforenseg digidol x 1 argymhelliad	
Fetio, camymddwyn a chasineb at ferched x 5 maes i'w wella <i>(ystyriwyd bod 5 wedi'u cwblhau yn disgwyl dilysiad gan HMICFRS)</i>	
Byrgleriaeth, lladrad a throsedd caffael arall x 2 argymhelliad	
Dalfa x 3 maes i'w wella	
VAWG x 3 argymhelliad	
Treisio x 1 argymhelliad	



**HEDDLU
GOGLEDD CYMRU**
NORTH WALES
POLICE

USE OF FORCE

Activity in North Wales force area
Between **01/10/2023** and **31/12/2023**



TOTAL INCIDENTS:
15,001

INCIDENTS WHERE USE OF FORCE WAS USED:

1,164



OFFICERS USING FORCE - FORM SUBMISSIONS:

1,681



ARRESTS:

1,413



DETAINED - MENTAL HEALTH ACT:

43



HOSPITALISED:

59



Anglesey =
157

Gwynedd =
293

Conwy =
310

Denbighshire =
296

Wrexham =
358

Flintshire =
267

OFFICERS:

Assaulted and injured


44

Assaulted not injured

79



ETHNICITY



SUBJECT PROFILE:




1,366



309

AGE



RESISTANCE ENCOUNTERED:

Compliant
629

Aggressive resistance
275

Verbal resistance/gestures
146

Active resistance
404

Passive resistance
177

Serious/aggravated resistance
46




WHEN? LIKELY WEEKDAYS AND TIMES OFFICERS HAVE USED FORCE FOR THE PERIOD:



SUNDAY
00:00 to 00:59 **55**

	00:00 to 00:59	01:00 to 01:59	02:00 to 02:59	03:00 to 03:59	04:00 to 04:59	05:00 to 05:59	06:00 to 06:59	07:00 to 07:59	08:00 to 08:59	09:00 to 09:59	10:00 to 10:59	11:00 to 11:59	12:00 to 12:59	13:00 to 13:59	14:00 to 14:59	15:00 to 15:59	16:00 to 16:59	17:00 to 17:59	18:00 to 18:59	19:00 to 19:59	20:00 to 20:59	21:00 to 21:59	22:00 to 22:59	23:00 to 23:59
Mon	27	13	6	2	4	5	1	4	0	5	4	14	11	6	9	12	17	7	15	18	16	10	20	14
Tue	24	7	2	5	0	3	0	3	3	7	11	12	10	6	7	15	13	12	12	5	10	21	22	16
Wed	26	5	7	5	3	1	1	4	3	9	13	10	4	6	20	8	4	8	5	3	13	22	10	12
Thu	15	6	6	3	2	1	1	2	2	9	9	10	12	8	11	3	5	12	12	10	4	9	13	5
Fri	24	14	2	8	4	3	7	9	5	7	5	11	4	4	12	6	15	16	19	17	14	22	30	17
Sat	26	30	20	11	8	3	3	3	5	5	7	7	9	5	8	24	9	5	13	8	9	25	28	24
Sun	55	23	21	5	12	6	9	3	0	4	5	2	9	3	8	5	16	13	8	14	7	13	9	23

TOP 10 INCIDENT LOCATION TYPE



IMPACT FACTORS:

- 50.7%** cited alcohol
- 26.9%** cited drugs
- 26.9%** PRIOR KNOWLEDGE
- 20%** MENTAL HEALTH
- 1.7%** ACUTE BEHAVIOURAL DISORDER
- 10.8%** POSSESSION OF A WEAPON
- 5.8%** CROWD
- 20%** OTHER
- 37.1%** SIZE/GENDER/BUILD

Tudalen 48 o 175

TACTIC USED:

There can be multiple factors and tactics per UOF incident

- 9.2%** RESTRAINT
- 72%** HANDCUFFS
- 3.9%** LIMB RESTRAINT
- 0.6%** SPIT HOOD
- 24.4%** UNARMED SKILLS
- 0.1%** BATON
- 8.6%** cited taser
- 4.3%** cited irritant spray



TERFYNOL

Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru a Phrif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru

Adroddiad Sicrwydd Rheoliadau Mewnol Cryno (SICA)

2023/24

Mawrth 2024

Adolygiad Sicrwydd Rheoliadau Mewnol Cryno (SICA)

Cyflwyniad

- Mae'r adroddiad rheolaeth sicrwydd cryno hwn yn cynnig diweddariad i'r Cydbwyllgor Archwilio ar faterion yn ymwneud â materion sy'n berthnasol i Lywodraethu, Risg a Rheolaeth Fewnol ac ar gynydd ein gwaith ar gyfer Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru a Phrif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru fel ar 5 Mawrth 2024.

Archwiliadau a gwblhawyd ers adroddiad diwethaf SICA i'r Cydbwyllgor Archwilio

- Mae'r tabl isod yn gosod manylion o'r archwiliadau sydd wedi eu cwblhau ers y cyfarfod blaenorol o'r Cydbwyllgor Archwilio.

Archwiliadau a gwblhawyd ers adroddiad blaenorol SICA – 2023/24

Adolygiad	Gwerthusiad	Dyddiadau Allweddol			Niferoedd Argymhellion			
		Drafft wedi'i chyhoeddi	Ymatebion a Dderbyniwyd	Cyhoeddi drafft terfynol	1	2	3	OEM
Rhaglen Gyfalaf	Sylweddol	29 Medi 2023	21 Tachwedd 2023	23 Tachwedd 2023	-	-	-	-
Ymgysylltiad Cymunedol	Sylweddol	30 Hydref 2023	7 Rhagfyr 2023	14 Rhagfyr 2023	-	-	1	-
Cydweithredol – Rheoli Risg	Sylweddol	30 Hydref 2023	24 Tachwedd 2023	15 Rhagfyr 2023	-	-	1	-
Crynodeb / Pwyntiau Allweddol:	<ul style="list-style-type: none">• Daeth cadeirydd y CA i'r cyfarfod ar 29 Chwefror 2024.• Y bwrdd:<ul style="list-style-type: none">○ Lansio adolygiad o'r Llawlyfr Llywodraethu.○ Derbyn drafft cyntaf o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.○ Derbyn diweddariad ar yr adolygiad Llywodraethu parhaus.○ Derbyn adolygiad blynyddol cod Rheoli Ariannol CIPFA.○ Derbyn diweddariad ar y gwaith cyrchu Archwilio Mewnol.
Argymhellion:	<ul style="list-style-type: none">• Bod aelodau'r Cydbwyllgor Archwilio yn nodi gwaith y Bwrdd Cyd Lywodraethu.• Aelodau o'r Cydbwyllgor Archwilio i fod yn ymwybodol fod ganddynt wahoddiad sefydlog i fynychu'r Bwrdd Cyd Lywodraethu, ac y darperir papurau a chofnodion cyfarfodydd iddynt ar gais.
Effaith cofrestr risgiau:	Mae'r ffordd y rheolir risg yn rhan annatod o lywodraethu da a chaiff ei ystyried o fewn y Fframwaith Llywodraethu.
Goblygiadau sicrwydd:	<p>Mae'r Bwrdd Cyd Lywodraethu yn goruchwyllo newidiadau i drefniadau sicrwydd yn dilyn yr Adolygiad Llywodraethu a ymgwymerwyd yn 2023/24. Bydd y trefniadau hyn yn newid oherwydd yr adolygiad i ddod.</p> <p>Mae'r Bwrdd Cyd Lywodraethu yn goruchwyllo unrhyw newidiadau yn y dyfodol i'r Llawlyfr Llywodraethu.</p>
Effaith Cydraddoldeb:	Dim
Gwybodaeth wedi'i heithrio o ddadleniad:	Dim



CYDBWYLLGOR ARCHWILIO

28 Mawrth 2024

Bwrdd Cyd Lywodraethu

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau



1. Cefndir

- 1.1. Mae'r Bwrdd Cyd Lywodraethu yn cyfarfod bedair gwaith y flwyddyn. Mae rhaglen waith wedi'i pharatoi er mwyn sicrhau ei bod yn bodloni ei hamcanion i gofnodi trefniadau llywodraethu, a goruchwyllo a chynghori ar newidiadau i'r trefniadau hynny.
- 1.2. Estynnir gwahoddiad sefydlog i aelodau o'r Cydbwyllgor Archwilio i'r cyfarfod. Mynychodd cadeirydd y cydbwyllgor ar 29 Chwefror 2024 a chyfrannu i'r cyfarfod.

2. Argymhellion

- 2.1. Bod aelodau'r Cydbwyllgor Archwilio yn nodi gwaith y Bwrdd Cyd Lywodraethu.
- 2.2. Aelodau o'r Cydbwyllgor Archwilio i fod yn ymwybodol fod ganddynt wahoddiad sefydlog i fynychu'r Bwrdd Cyd Lywodraethu, ac y darperir papurau a chofnodion cyfarfodydd iddynt ar gais. Cynhelir cyfarfodydd ar-lein drwy Microsoft Team a dyddiadau cyfarfodydd y dyfodol ydy:
 - Dydd Mawrth 18 Mehefin 2024
 - Dydd Mercher 4 Medi 2024
 - Dydd Mawrth 29 Hydref 2024

3. Gwaith y Bwrdd Cyd Lywodraethu

- 3.1. Yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Chwefror, trafodwyd y canlynol:

3.1.1. Annog adolygiad o'r Llawlyfr Llywodraethu

Cynghorodd y Prif Swyddog Ariannol y dylid edrych ar y Llawlyfr Llywodraethu, sy'n cynnwys y pedair dogfen isod yn flynyddol.

Yng nghyd-destun etholiad sydd wedi'i threfnu ar gyfer eleni, gofynnodd y Prif Swyddog Ariannol i'r bwrdd edrych drwy'r elfennau a hysbysu os oes unrhyw elfen angen ei hadolygu:

- Pennod 1 – Cod Llywodraethu Corfforaethol 2021 (northwales-pcc.gov.uk)
- Pennod 2 – Cynllun caniatâd 2022.pdf (northwales-pcc.gov.uk)

- Pennod 3 – Rheoliadau Ariannol 2022revision_0.pdf (northwales-pcc.gov.uk)
- Gorchmynion sefydlog Cytundebau 2022.pdf (northwales-pcc.gov.uk)

3.1.2 Adolygiad Drafft Cyntaf Datganiad Llywodraethu Blynyddol

Rhannwyd drafft cyntaf o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol hefo cais i hysbysu am unrhyw elfennau a oedd angen eu diweddaru.

Trafodwyd cynlluniau ar gyfer yr adolygiad Llywodraethu Blynyddol hefo 'cyffyrddiad ysgafn' i'w gynnal, gan y teimlwyd ei bod yn rhy fuan cynnal adolygiad cyfanwerthu arall. Byddai'r cyffyrddiad ysgafn ym mis Gorffennaf neu Awst eleni. Byddai'n cael ei adrodd i'r Bwrdd Cyd Lywodraethu yng nghyfarfod mis Tachwedd 24 o dan y cynllun gwaith ymlaen.

3.1.3 Adolygiad o Argymhellion Archwilio Mewnol ac Allanol ac Argymhellion y CA

Adroddodd y Swyddog Cyllideb ar argymhellion Archwilio Mewnol ac Allanol a rhoddodd ddiweddariadau.

Ers cyfarfod diwethaf y Bwrdd Cyd Lywodraethu, mae ychydig o archwiliadau wedi dod trwodd. Maent i gyd yn sylweddol oni bai am Uned Reoli'r Dwyrain.

Nodwyd fod yr adroddiad drafft asedau sefydlog wedi cael ei dderbyn a'i gwblhau gan TIAA sydd wedi dod allan fel Rhesymol. Roedd ganddo sicrwydd Cyfyngedig o'r blaen, felly mae hyn yn welliant sylweddol. Gwelliant arall ydy ynghylch Eiddo sy'n amodol ar gost, sydd wedi derbyn sicrwydd Rhesymol, eto yn gynnydd o Gyfyngedig. Bydd eiddo'n parhau fel archwiliad blynyddol.

Mae Rheoli Absenoldeb AD wedi cael ei ohirio tan 24/25 hefo ymadawiad Pennaeth AD yn cael effaith ar symud yr argymhellion ymlaen. Mae Ymgynghorydd Strategol AD dros dro wedi ei gyflogi a fydd yn edrych yr argymhellion erbyn y dyddiad diwygiedig 30 Ebrill.

Hysbyswyd fod yr archwiliad Iechyd a Diogelwch dilynol wedi'i oedi ychydig oherwydd salwch. Rhoddir diweddariad yn y cyfarfod nesaf o'r Bwrdd Cyd Lywodraethu.

Rhoddodd y Pennaeth Cyllid ddiweddariad cryno ar argymhellion y CA sy'n weddill i'r bwrdd.

3.1.4 Diweddariad Adolygiad Llywodraethu

Cylchredwyd adroddiad Diweddariad Sicrwydd hefo'r agenda.

Cadarnhaodd Rheolwr Llywodraethu'r Heddlu eu bod yn rhan o'r Gweithgor Polisi Cenedlaethol, yn gweithio hefo arweinwyr polisi eraill yn edrych ar arfer gorau a gwersi a ddysgwyd gan heddluoedd eraill. Mae'n gyfle gwneud craffu'r gorwel ar gyfer newidiadau cenedlaethol posibl a allai effeithio ar ein polisïau.

Ar ben hyn, roedd ymdriniaeth wedi bod gan Heddlu Dyfed Powys a oedd yn edrych ar sefydlu Grŵp Heddlu Cymru Gyfan er mwyn rhannu gwybodaeth a rhai arferion gorau o ran risg. Roedd cais blaenorol ar gyfer rheolwr risg Heddlu Gogledd Cymru er mwyn cyflawni adolygiad cyfoedion o'n proses risg wedi cael ei oedi oherwydd absenoldeb. Roedd cynnig rŵan gan y fforwm risg CCPSH cenedlaethol fod rheolwyr risg yn ymgymryd ag adolygiad cymheiriaid peilot o Heddlu Gogledd Cymru. Roedd hyn dal i'w gytuno gan aelodau'r CCPSH.

O ran yr adolygiad Llywodraeth, cyngorwyd fod ychydig o Gylchoedd Gorchwyl ar ôl, yn bennaf oherwydd absenoldebau staff. Os mai fel hyn oedd hi, roedd hyn yn cael sylw. Roedd ychydig o ddiwygiadau i strwythur llywodraethu'r heddlu a oedd wedi cael ei osod i ddogfennaeth er gwybodaeth.

3.1.5 Cod Rheoli Ariannol – Hunanasesiad

Cylchredwyd yr hunanasesiad blynyddol ar gyfer y cod Rheoli Ariannol. Cyflwynwyd y cod Rheoli Ariannol er mwyn sicrhau bod safonau priodol yn cael eu glynu atynt. Rhoddwyd trosolwg cryno gan y Pennaeth Cyllid yn canolbwyntio ar yr ychwanegiadau a'r diwygiadau i'r adroddiad.

Fel rhan o'r trafodaethau, fe awgrymwyd y byddai tystiolaeth yn elwa o nodi lle neu sut mae wedi'i ddilysu (er enghraifft, drwy elfennau fel archwiliad mewnol ac allanol).

3.1.5 Trefniadau Archwilio Mewnol

Rhoddwyd diweddariad o ran trefniadau Archwilio Mewnol. Mae cytundeb cyffredinol bellach rhwng yr 8 corfforiad er mwyn ymestyn y cytundeb presennol hefo TIAA tan ddiwedd mis Medi 24 er mwyn sicrhau cynnal proses gaffael iawn.

Y cynllun ar gyfer eleni ydy cyflawni cynllun archwilio arferol, gan ddechrau hefo TIAA, sydd wedi cytuno parhau gweithio hefo ni ar lafar. Gan ddibynnu ar y canlyniad ar 1 Hydref, bydd TIAA wedyn yn cael trosglwyddiad trefnus i'r darparwr sicrwydd newydd er mwyn osgoi rhoi straen ar y ddau chwarter olaf. Mae fetio ar gyfer y darparwyr newydd wedi cael ei ychwanegu i'r amserlen.

Cwblhawyd dogfen estynedig ddrafft sydd ar hyn o bryd yn y broses o gael ei hadolygu gan Stephen Hughes a'r CCA. Bydd wedyn yn cael ei anfon at Dde Cymru ddechrau'r wythnos nesaf.

Codwyd ymholiad o ran a ddylai Archwilio Mewnol gael ei roi ar gofrestr risg yr Heddlu neu'r SCHTh sydd i'w ystyried.

- 3.2 Bydd aelodau'r Cydbwyllgor Archwilio'n gallu cael mynediad at bapurau, gan gynnwys cofnodion a gweithrediadau o'r cyfarfod diweddaraf, drwy'r gyriant G. Cynhelir y cyfarfod nesaf ar ddydd Mawrth 18 Mehefin 2024

4. GOBLYGIADAU

4.1	Cydraddoldeb	Mae'r Prif Gwnstabl a'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn gweithredu gan dalu sylw i'r egwyddorion a sefydlwyd yn y Cynllun Cydraddoldeb ar y Cyd.
4.2	Ariannol	Mae'r ffordd y rheolir cyllid yn rhan annatod o lywodraethu da. Ystyrir polisiâu ariannol a monitro systemau ariannol a chyflawniad o fewn y Fframwaith Llywodraethu.
4.3	Cyfreithiol	Mae'n ofyniad cyfreithiol cyhoeddi Datganiadau Llywodraethu Blyneddol ar ran y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl ochr yn ochr â'r Datganiadau Cyfrifon bob blwyddyn. Un o ddibenion y Bwrdd Cyd Lywodraethu yw cofnodi gweithgareddau llywodraethu corfforaethau undyn (a sicrhau y caiff unrhyw bryderon sylw) fel bod y Datganiadau Llywodraethu Blyneddol yn cael eu paratoi'n gywir ac yn amserol.
4.4	Cymunedol a Gwerth Cymdeithasol	Caiff polisiâu amgylcheddol, canlyniadau ac ymgysylltiad (a monitro'r rhain) eu hystyried o fewn y Fframwaith Llywodraethu. Mae hyn yn cynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2017.
4.5	Risg	Mae'r ffordd y rheolir risg yn rhan annatod o lywodraethu da a chaiff ei ystyried o fewn y Fframwaith Llywodraethu.
4.6	Cynllun Heddlu a Throsedd	Mae'r amcanion yn y Cynllun Heddlu a Throsedd yn sylfaenol bwysig i'r ddwy gorfforaeth undyn. Ystyrir y ffordd y caiff hyn ei fonitro o fewn y Fframwaith Llywodraethu.

Awdur yr Adroddiad

Seb Phillips

Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau

Heddlu Gogledd Cymru

Heddlu Gogledd Cymru


Cynaliadwyedd a Datgarboneiddio – Diweddariad

Maes	Stad, Cyfleusterau a'r Fflyd
Awduron	Anna Pretious Rheolwr Amgylcheddol ac Arbed Ynni Huw Jones Rheolwr y Fflyd
Dyddiad	Mawrth 2024
Diben y papur	Gwybodaeth

Crynodeb Gweithredol

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg a diweddariad ar faterion Cynaliadwyedd a Datgarboneiddio o fewn Heddlu Gogledd Cymru. and Bydd yn canolbwyntio'n benodol ar gofnodi allyriadau a'r data maent yn tarddu ohonynt. Adroddiad prif bwyntiau ar y Fflyd Mae'r adroddiad hwn yn disodli unrhyw ddata a ryddhawyd yn flaenorol, oherwydd bod gwybodaeth mwy manwl ar gael.

1. Crynodeb Cyflawniad Datgarboneiddio HGC:



Tarddodd yr allyriadau uchod o'r data defnydd a chostau canlynol data.

Cronfa Ddata	Unedau	2019-20	2020-21	2021-22	2022-23
Litrau diesel	litrau	880,051	844,554	767,285	744,573
Litrau petrol	litrau	54,129	53,975	62,167	72,739
Nwy	kWh	8,087,101	8,437,484	7,991,606	7,576,714
LPG	kWh	241,111	268,021	253,210	262,788
Trydan (grid)	kWh	7,284,099	6,565,929	6,459,796	6,328,618
Dwr	m ³	25,334	23,693	27,469	41,254
Tunelli gwastraff	tunelli	361	303	325	366
Cadwyn gyflenwi	£	33,873,253	32,442,527	32,248,414	40,105,258

Mae sawl nwy yn cyfrannu at newid hinsawdd ac mae chwe prif nwy tŷ gwydr (GHGs) yn cael eu cynnwys yn y Protocol Kyoto: carbon deuocsid (CO₂), methan (CH₄), hydrofflorocarbonau (HFCs), nitrws ocsid (N₂O), perfflorocarbonau (PFCs) a sylffwr hecsafflorid (SF₆). Mae gweithgarwch gwahanol yn allyrru nwyon gwahanol. Er enghraifft, mae llosgi tanwyddau ffosil yn rhyddhau carbon deuocsid, methan a nitrws ocsid i'r atmosffer.

Mae sefydliadau'n cyfeirio at Ffactorau Trawsnewid nwyon tŷ gwydr Defra er mwyn gweld pa allyriadau sydd fwyaf tebygol o allyrru. Mae'r Ffactorau Trawsnewid nwyon tŷ gwydr hyn yn eu galluogi nhw gyfrifyddu'r allyriadau o nwyon tŷ gwydr a gynhwysir gan y Protocol Kyoto am ystod o weithgareddau. Yr ymdriniaeth sylfaenol o gyfrifyddu allyriadau nwy tŷ gwydr o weithgarwch ydy llusoi unedau o'r 'data gweithgarwch' (h.y. kWh nwy) hefo 'ffactor allyriadau' (y ffactor penodol i nwy am y flwyddyn sy'n cael ei hasesu mewn kgCO₂e/kWh). Yr hyn sy'n cyfateb i garbon deuocsid (CO₂e) ydy'r uned mesur cyffredin sy'n cael ei ddefnyddio er mwyn mynegi'r posibilrwydd cynhesu byd eang o nwy tŷ gwydr, a fynegir o ran y posibilrwydd cynhesu byd eang o un uned o garbon deuocsid. Caiff ei ddefnyddio er mwyn gwerthuso rhyddhau (neu osgoi rhyddhau) nwyon tŷ gwydr gwahanol o ran sail gyffredin. Mae ffactorau allyriadau (ffactorau trawsnewid carbon) yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn wrth i systemau (tu hwnt i reolaeth HGC) newid. Er enghraifft, mae'r grid trydan yn datgarboneiddio wrth i ganran ynni adnewyddadwy sy'n cyfrannu ato gynyddu.

Mae'r ffactorau allyriadau yn seiliedig ar 'bosibilrwydd cynhesu byd eang' y data gweithgarwch sy'n cael ei asesu. Er enghraifft, am wastraff, gallai ailgylchu cymysg gael ffactor allyrru 21, lle gall gwastraff clinigol offer miniog a anfonir er mwyn cael eu llosgi mewn tymheredd uchel gael ffactor allyrru 1074. Felly, ar gyfer 5 tonnelli o bob math o wastraff, byddai'r ailgylchu'n creu 106 kgCO₂e, lle byddai'r offer miniog wedi llosgi yn creu 5370 kgCO₂e.

Wrth benderfynu allyriadau cwmni, mae angen sefydlu ffiniau adrodd.

Ffiniau sefydliadol ydy'r ffiniau sy'n penderfynu'r gweithrediadau sy'n eiddo neu sy'n cael eu rheoli gan y cwmni adrodd, gan ddibynnu ar yr ymdriniaeth, boed hyn yn ymdriniaeth ecwiti neu reoli. Er enghraifft, o ran adeiladau sy'n cael eu rheoli'n uniongyrchol gan Heddlu Gogledd Cymru ac mae 100% o'r defnydd/costau yn briodoladwy i HGC, bydd y rhain yn cael eu cynnwys, tra eithrir adeilad y Ffederasiwn (gan fod 100% o'r defnydd a'r costau'n cael eu hailgodi i'r Ffederasiwn) a'r gorsafoedd heddlu a thân a rennir, sydd hefo 35% o gyfran ecwiti i HGC. Mae Saltney bellach wedi'i eithrio ers 2022-23 gan fod hwn yn cael ei ailgodi 100% i ROCU.

Ffiniau gweithredol ydy'r ffiniau sy'n penderfynu'r allyriadau uniongyrchol ac anuniongyrchol craidd sy'n gysylltiedig hefo gweithrediadau sy'n eiddo neu sy'n cael eu rheoli gan y cwmni adrodd. Mae'r asesiad hwn yn caniatáu cwmni sefydlu pa weithrediadau a ffynonellau sy'n achosi allyriadau uniongyrchol ac anuniongyrchol.

Allyriadau uniongyrchol ydy allyriadau sy'n deillio o ffynonellau sy'n eiddo neu a reolir gan y sefydliad adrodd, er enghraifft nwy naturiol ac LPG a ddefnyddir mewn boeleri yn yr adeiladau neu ddiesel a phetrol a ddefnyddir yng ngherbydau'r Fflyd ac a gyfeirir atynt yn gyffredinol fel allyriadau uniongyrchol Cwmpas 1.

Allyriadau anuniongyrchol ydy allyriadau sy'n ganlyniad gweithrediadau'r cwmni adrodd ond sy'n digwydd o ffynonellau sy'n eiddo neu sy'n cael eu rheoli gan gwmni arall. Bydd y rhain yn un ai allyriadau cwmpas 2 neu allyriadau cwmpas 3.

Mae allyriadau anuniongyrchol Cwmpas 2 yn deillio o drydan wedi'i brynu (trydan grid) a ddefnyddir gan y sefydliad sy'n adrodd.


Mae allyriadau anuniongyrchol cwmpas 3 yn deillio o ffynonellau eraill, fel defnydd dwr; gwaredu gwastraff; nwyddau a gwasanaethau a brynwyd (cadwyn gyflenwi), tanwydd a gweithgarwch yn groes i'r llif perthnasol, cludo a dosbarthu; teithio busnes; cymudo gweithwyr a gweithio o'r cartref. Mae hefyd allyriadau cwmpas 3 sy'n gysylltiedig ag allyriadau cwmpas 1 a 2. Er enghraifft, byddai cludo a danfon nwy i adeilad drwy'r rhwydwaith yn gwmpas 3, tra byddai defnyddio'r nwy mewn boeler mewn adeilad yn gwmpas 1.

Unwaith mae'r ffiniau a'r cwmpasau wedi cael eu penderfynu ac mae'r ffactorau trawsnewid carbon yn berthnasol er mwyn sefydlu kgCO2 pob ffynhonnell allyriad, y weithdrefn safonol ydy trawsnewid ac adrodd allyriadau gros a thunelli CO2e a phenderfynu % cyfraniadau yn ôl tarddiad allyriadau. Felly, gan gymryd y data o dudalen gyntaf yr adroddiad hwn, yr 'allyriadau hysbys' ar gyfer Heddlu Gogledd Cymru ydy:


Allyriadau Nwy Tŷ Gwydr (CO2e, tunelli) ar gyfer blwyddyn sylfaen 2019-20	
Cyfanswm Allyriadau Gros Cwmpas 1 (Allyriadau Nwy Ty Gwydr Uniongyrchol) Fflyd, Ynni (Nwy/LPG)	3,943
Cyfanswm Allyriadau Gros Cwmpas 2 (Allyriadau Anuniongyrchol Trydan) Ynni (Trydan)	1,862
Cyfanswm Allyriadau Gros ar gyfer eitemau Cwmpas 3 mesuradwy (allyriadau nwy tŷ gwydr anuniongyrchol eraill)	10,249
Cyfanswm Gros Allyriadau	16,054

Allyriadau Nwy Tŷ Gwydr (CO2e, tunelli) ar gyfer 2022-23 (blwyddyn adrodd ddiweddaraf)	
Cyfanswm Allyriadau Gros Cwmpas 1 (Allyriadau Nwy Tŷ Gwydr Uniongyrchol) Fflyd, Ynni (Nwy/LPG)	3,502
Cyfanswm Allyriadau Gros Cwmpas 2 (Allyriadau Anuniongyrchol Trydan) Ynni (Trydan)	1,224
Cyfanswm Allyriadau Gros ar gyfer eitemau Cwmpas 3 mesuradwy (allyriadau nwy tŷ gwydr anuniongyrchol eraill)	8,487
Cyfanswm Gros Allyriadau	13,212


Total Gross Emissions tonnes CO2e for 2019-20




Total Gross Emissions tonnes CO2e for 2022-23



Emissions by major source, tonnes CO2e 2019-20



Emissions by major source, tonnes CO2e 2022-23



Gostyngiad Allyriadau yn 2022-23 o'i gymharu hefo 2019-20 = 2842 tunnelli CO2e neu 18 %

Bydd yr adran ganlynol yn edrych ar y data sy'n berthnasol i'r prif ffynonellau allyriadau sef Fflyd, Ynni, Dŵr, Gwastraff a'r Gadwyn Gyflenwi.

Mae allyriadau teithio busnes, cymudo gweithwyr a gweithio o'r cartref eto i'w sefydlu.

Dalier sylw fod y ffactorau trawsnewid carbon yn newid bob blwyddyn, felly mewn rhai achosion efallai bod defnydd (tanwydd fflyd ac ynni a dŵr adeiladau), creu (gwastraff) neu wario (cadwyn gyflenwi) wedi codi, ond mae'r allyriadau o ganlyniad yn llai yn 2022-23 o'i gymharu hefo 2019-20 oherwydd y ffactorau trawsnewid carbon is.

Prif ffynhonnell ffactorau trawsnewid carbon ar gyfer adrodd am nwy tŷ gwydr yn y DU ydy Adroddiadau Ffactorau Cwmni Trosi Nwy Tŷ Gwydr blynyddol Llywodraeth y DU ar gyfer Adrodd Cwmnïau. Mae offeryn adrodd carbon sero net Llywodraeth Cymru wedi cael ei ddefnyddio hefyd.


Defnydd tanwydd fflyd: (Allyriadau uniongyrchol Cwmpas 1 ac allyriadau cysylltiedig anuniongyrchol Cwmpas 3)

Mae defnydd tanwydd y fflyd hefo dau set o allyriadau. Un ydy allyriadau uniongyrchol Cwmpas 1, ar gyfer y tanwydd sy'n cael ei roi yn y cerbydau ym mhymptiau'r orsaf danwydd. Y llall ydy allyriadau anuniongyrchol Cwmpas 3 cysylltiedig, a adwaenir fel 'o'r ffynnon i'r tanc' sy'n cwmpasu creu a danfon y tanwydd i'r gorsafoedd tanwydd.


Diesel - Consumption Litres (** see below for Petrol)					CCF = carbon conversion factor	
	Diesel	Emissions kgCO ₂ e - Diesel		DIESEL		
		Direct	Indirect (well to tank)	Total Emissions kgCO ₂ e	Scope 1 CCF	Scope 3 CCF
	litres	Scope 1	Scope 3	(Scope 1 + 3)		
2019-20	880,051	2,283,454	543,466	2,826,920	0.24462	0.05822
2020-21	844,554	2,155,070	516,439	2,671,510	0.24057	0.05765
2021-22	767,285	1,927,707	467,969	2,395,676	0.23686	0.05750
2022-23	744,573	1,904,526	454,117	2,358,643	0.24115	0.05750
Annual Performance (% difference) against baseline 2019-20:						
20-21 vs 19-20	-4	-6	-5	-5		
21-22 vs 19-20	-13	-16	-14	-15		
22-23 vs 19-20	-15	-17	-16	-17		

Petrol - Consumption Litres					CCF = carbon conversion factor	
	Diesel	Emissions kgCO ₂ e - Petrol		PETROL		
		Direct	Indirect (well to tank)	Total Emissions kgCO ₂ e	Scope 1 CCF	Scope 3 CCF
	litres	Scope 1	Scope 3	(Scope 1 + 3)		
2019-20	54,129	120,759	32,643	153,402	0.23373	0.06318
2020-21	53,975	118,082	32,323	150,405	0.22920	0.06274
2021-22	62,167	136,360	38,125	174,485	0.22980	0.06425
2022-23	72,739	157,737	44,608	202,345	0.22719	0.06425
Annual Performance (% difference) against baseline 2019-20:						
20-21 vs 19-20	-0.3	-2	-1	-2		
21-22 vs 19-20	15	13	17	14		
22-23 vs 19-20	34	31	37	32		


DIESEL - consumption - litres




PETROL - consumption - litres



DIESEL - Total emissions - kgCO2e (Scope 1 + 3)



PETROL - Total emissions - kgCO2 (Scope 1 + 3)



Adroddiad prif bwyntiau ynglŷn â'r Fflyd (gan Huw Jones, Rheolwr y Fflyd)

Ar hyn o bryd mae gan Heddlu Gogledd Cymru 31 o gerbydau trydan mewn rolau amrywiol o fewn y Fflyd. Mae'r cerbydau'n cael eu defnyddio mewn rolau lle maent yn cychwyn a darfod yn yr un orsaf ac hefo patrwm defnydd eithaf cyson. Y strategaeth hyd yma ydy danfon niferoedd bach i ardaloedd gwahanol, hefo'r nod o greu ymwybyddiaeth a deall y cyfyngiadau a'r cyfleoedd wrth baratoi'r sefydliad ar gyfer newid cerbydau trydan.

Rydym wedi dysgu ein bod, yn y mwyafrif o achosion, yn gallu ymgorffori cerbydau trydan hefo ychydig o effaith neu angen newid sut rydym yn gweithredu. Gallwn gyflwyno cerbydau trydan i CID, Logisteg a cherbydau Cronfa. Mae meysydd arbenigol fel Eiddo wedi'i Atafaelu wedi bod yn eithaf syml. Mae ymgorffori cerbyd i'r Fflyd Hyfforddiant Gyrru wedi caniatáu i ni ddechrau paratoi ein gyrrwyr ar gyfer rhaglen amnewid cerbydau trydan fwy.

Mae ymgorffori cerbydau trydan i rolau Plismona Gweithredol yn her wahanol gan fod defnydd yn llai rhagweladwy. Mae gofynion cyflawni angen gyrru ar gyflymder, yn aml yn cario offer, yn dangos agwedd negyddol cerbydau trydan, yn enwedig yr ystod a'r heriau gwefru. Mae gennym dri cherbyd gweithredol wedi'u harfogi yn y Dwyrain yn cael eu defnyddio gan SCCH a Swyddogion Plismona Cymdogaethau. Maent yn cael eu defnyddio'n llwyddiannus, ac rydym yn ddiweddar iawn wedi cyflwyno fan cario carcharorion drydan yn Wrecsam a fydd yn cael ei gwerthuso yn Ch1 a Ch2 2024. Rydym yn anelu cyflwyno un cerbyd ymateb trydan i'r fflyd yn 2024, a fydd yn garreg filltir sylweddol ac yn rhan hanfodol o'r daith.

Mae tîm y Fflyd wedi bod yn gweithio'n lleol ac yn gydweithredol yn genedlaethol. Mae hyn er mwyn sicrhau fod gennym gytundebau caffael cerbydau mewn lle sy'n cynnig cerbydau trydan addas. Mae wedi bod yn paratoi'r gweithdy mewnol a staff fel ein bod ni'n gallu trin a thrwsio'r cerbydau unwaith maent i mewn.

Mae cerbydau trydan dal yn ddrytach na motor tanio mewnol gan fwyaf. Fodd bynnag, hefo cost batris yn gostwng oddeutu 14% bob blwyddyn oherwydd costau deunydd crai is ac enillion effeithlonrwydd gweithgynhyrchu wrth i werthu cerbydau trydan godi (disgwylir y bydd yn 21% yn 2024 yn y DU), maent yn debygol o fod yn opsiwn ariannol mwy cystadleuol yn y dyfodol, yn enwedig os ydym yn creu ein hynni cynaliadwy ein hunain.

Bydd gweithgynhyrchwyr cerbydau angen bodloni rheoliadau allyriadau tynnach o 2025 ymlaen a fydd yn annog/gorfodi twf mewn gwerthiant cerbydau trydan. Mae'n debygol o newid yr hyn sydd ar gael i ni eu prynu. Rydym eisoes wedi gweld newidiadau i'r farchnad hefo llai o opsiynau diesel ar gael, sydd wedi'n gorfodi ni gyflwyno mwy o gerbydau petrol i'r Fflyd. Tra mae ein hallyriadau cerbydau cyffredinol yn parhau i leihau, rydym yn disgwyl cynnydd mewn defnydd petrol wrth i drawsnewid i gerbydau trydan. Rydym yn nodi fod effeithlonrwydd trydan mewn cerbydau petrol yn sylweddol waeth na diesel mewn rôl plismona gweithredol.

Cam nesaf ein strategaeth ydy cytuno a symud ein seilwaith gwefru mewnol ymlaen, a fydd yn caniatáu i ni gynyddu'r nifer o gerbydau trydan ar y Fflyd.


Defnydd Nwy ac LPG: (Allyriadau uniongyrchol Cwmpas 1 ac allyriadau cysylltiedig anuniongyrchol Cwmpas 3).

Mae gan ddefnydd Nwy ac LPG ddau set o allyriadau. Un ydy allyriadau uniongyrchol Cwmpas 1, ar gyfer y tanwydd sy'n cael ei ddefnyddio yn y boeleri yn yr adeiladau. Y llall ydy allyriadau anuniongyrchol Cwmpas 3 cysylltiedig, a adwaenir fel 'o'r ffynnon i'r tanc' sy'n cwmpasu creu a danfon y nwy neu'r LPG, cyn iddo fynd mewn i'r adeiladau.


GAS - Consumption kWh (**see below for LPG)					CCF = carbon conversion factor	
	Natural gas	Emissions kgCO ₂ e - Gas		GAS		
		Direct	Indirect (well to tank)	Total Emissions kgCO ₂ e		
	kWh	Scope 1	Scope 3	(Scope 1 + 3)	Scope 1 CCF	Scope 3 CCF
2019-20	8,087,101	1,486,814	193,363	1,680,176	0.18385	0.02391
2020-21	8,437,484	1,551,400	201,740	1,753,140	0.18387	0.02391
2021-22	7,991,606	1,463,743	250,537	1,714,279	0.18316	0.03135
2022-23	7,576,714	1,383,053	235,636	1,618,689	0.18254	0.03110
Annual Performance (% difference) against baseline 2019-20:						
20-21 vs 19-20	4	4	4	4		
21-22 vs 19-20	-1	-2	30	2		
22-23 vs 19-20	-6	-7	22	-4		

LPG - Consumption kWh					CCF = carbon conversion factor	
	LPG	Emissions kgCO ₂ e - LPG		LPG		
		Direct	Indirect (well to tank)	Total Emissions kgCO ₂ e		
	kWh	Scope 1	Scope 3	(Scope 1 + 3)	Scope 1 CCF	Scope 3 CCF
2019-20	241,111	51,711	6,503	58,214	0.21447	0.02697
2020-21	268,021	57,485	7,030	64,515	0.21448	0.02623
2021-22	253,210	54,311	6,411	60,722	0.21449	0.02532
2022-23	262,788	56,365	6,654	63,019	0.21449	0.02532
Annual Performance (% difference) against baseline 2019-20:						
20-21 vs 19-20	11	11	8	11		
21-22 vs 19-20	5	5	-1	4		
22-23 vs 19-20	9	9	2	8		


GAS - consumption - kWh




LPG - consumption - kWh



Gas - Total emissions - kgCO₂e (Scope 1 + 3)



LPG - Total emissions - kgCO₂e (Scope 1 + 3)



Effeithir defnydd Nwy (ac LPG) o fewn yr adeiladau gan y tywydd/amodau tymheredd allanol, pwy sydd yn y lle a chyflawniad thermol yr adeilad.


Pam fod defnydd yn uchel yn 2020-21? Mae oddeutu 40 safle (oddeutu 60% o'r Stad) ar System Rheoli Ynni Adeiladau (BEMS). Mae'n nhw'n rhedeg ar Trend 963 (a osodwyd yn wreiddiol yn 1995). Mae gan y system synwryddion tymheredd yn yr ystafelloedd hefo 'pwyntiau wedi'u gosod, wedi'u gosod er mwyn 'galw gwres' pan gyrhaeddir pwyntiau penodol. Cyn y pandemig Covid roedd y pwyntiau set hyn yn ystyried y byddai pobl ac offer TG yn y swyddfeydd, sy'n creu gwres cudd yn y cefndir. Felly pan gafodd yr adeiladau gweinyddol mwy (Pencadlys yr Heddlu, PFI ayyb) eu gwagio, fe wnaeth effeithio ar dymereddau ac roedd gwres yn yr adeiladau'n anoddach ei reoli. Unwaith y gwnaeth pobl ddychwelyd i'r adeiladau ac y sefydlwyd patrymau newydd, mae'r system wedi addasu er mwyn ystyried hyn.

Pam fod y defnydd nwy wedi lleihau yn 2022-23? Mae rheolaeth well o'r gwres bellach mewn safleoedd, yn enwedig PFI sy'n cyfrif am bron 30% o gyfanswm defnydd nwy'r Heddlu. Ar safleoedd eraill mae'r systemau wedi cael eu hynysu/diffodd yn ystod y tymor dim gwres (rhwng mis Mai a'r Hydref).

Mae'r Gronfa Gynaliadwyedd yn cael ei defnyddio er mwyn insiwleiddio to/llofft er mwyn gwella cyflawniad thermol adeiladau ar draws yr Heddlu (dechreuodd ym mis Hydref 2023). Dylai hyn leihau'r galw gwres ar gyfer y safleoedd hyn yn y dyfodol.

Defnydd Nwy ac LPG 2023-24 vs 2019-20 sylfaenol

GAS & LPG	April	May	June	July	August	Sept	Oct	Nov	Dec	January	Feb	March	TOTAL
Gas & LPG 2019-20	740,146	543,373	372,678	217,080	236,390	364,506	715,820	988,888	1,068,465	1,041,175			6,288,520
Gas & LPG 2023-24	663,536	475,510	215,225	221,143	204,683	299,192	535,178	835,148	951,952	1,142,739	0	0	5,544,305
Difference kWh	-76,610	-67,863	-157,453	4,063	-31,707	-65,314	-180,642	-153,740	-116,513	101,564	0	0	-744,215
	-10	-12	**	2	-13	-18	-25	-16	-11	10	#DIV/0!	#DIV/0!	-12



** Mehefin 2023 vs 2019 - Ar gyfer Pencadlys Plismona Lleol, Llanelwy (PFI) roedd sylfaen 2019-20 yn kWh uchel iawn (defnydd gormodol, yn creu naid data), sy'n arwain at wahaniaeth % mawr ar gyfer mis Mehefin mewn blynyddoedd wedyn. PFI ydy'r defnyddiwr nwy mwyaf ar y Stad, gan ddefnyddio oddeutu 30% o gyfanswm defnydd nwy blynyddol yr Heddlu.

** Ionawr 2024 – roedd gan safleoedd amrywiol ddefnydd uwch o'i gymharu hefo Ionawr 202, gan gynnwys PFI a Phencadlys yr Heddlu, sydd ill dau'n safleoedd sy'n defnyddio nwy'n fawr. Gall hyn fod oherwydd y tywydd. Os oedd mis Ionawr 2024 yn oerach na mis Ionawr 2020 yna byddai mwy o alw wedi bod am nwy a bydd y defnydd yn codi.

Defnydd trydan: (Allyriadau uniongyrchol Cwmpas 2 ac allyriadau Cwmpas 3 anuniongyrchol)

Mae gan ddefnydd trydan ddwy ran:


- 1) Trydan sy'n cynhyrchu ei hun ar safle Heddlu Gogledd Cymru o fffotofoltäig. Mae hyn yn berthnasol ym Mhencadlys Rhanbarthol y Dwyrain (Llai), Pencadlys yr Heddlu, Gorsafoedd Heddlu Llandudno a Llangefni a'r Gorsafoedd Heddlu a Tân ar y cyd yn Nefyn a Thywyn. Gan fod hwn yn ynni adnewyddadwy, nid oes allyriadau'n gysylltiedig hefo'i ddefnydd o fewn yr adeiladau hyn.
- 2) Mae cyflenwad trydan wedi'i brynu o'r grid yn creu allyriadau Anuniongyrchol Cwmpas 2 ac allyriadau Cwmpas 3 Anuniongyrchol cysylltiedig o gyflawni drwy'r grid cenedlaethol.

	Consumption kWh		
	Purchased Electric	Renewables	TOTAL kWh
	grid electric	self generated	Total Elect Usage
2019-20	7,284,099	97,677	7,381,776
2020-21	6,565,929	96,490	6,662,419
2021-22	6,459,796	103,111	6,562,907
2022-23	6,328,618	99,699	6,428,317

Annual Performance (% difference) against baseline 2019-20:

20-21 vs 19-20	-10	-1.2	-10
21-22 vs 19-20	-11	6	-11
22-23 vs 19-20	-13	2	-13

Mae'r trydan sy'n cael ei greu ei hun yn cyfrif am oddeutu 1% o angen trydan yr Heddlu. Mae'r 99% sy'n weddill yn tarddu o'r grid cenedlaethol. Mae trafodaethau wedi digwydd o fewn yr Adran Gyfleusterau o ran cynyddu'r nifer o PV o fewn y stad a bydd angen contractwyr arbenigol er mwyn symud y gwaith hwn ymlaen.




Mae trydan wedi'i brynu o'r grid hefo pedair set o allyriadau. Y rhain ydy allyriadau anuniongyrchol Cwmpas 2 yn berthnasol i greu'r trydan yn y gorsafoedd pŵer sy'n bwydo'r grid cenedlaethol (mae hyn yn amrywio gan ddibynnu ar y gymysgedd o danwydd ffosil ac adnewyddadwy o fewn y grid). Ceir tair set arall o allyriadau anuniongyrchol Cwmpas 3 cysylltiedig ar gyfer trosglwyddo a dosbarthu sy'n gysylltiedig hefo creu a danfon y cyflenwad dryw'r grid a tharddiadau'r mathau o danwydd a ddefnyddir yn y gorsafoedd pŵer.

	Consumption kWh		Emissions kgCO2e			Total Emissions kgCO2e	
	Purchased Electric	grid electric	Scope 2 - Indirect Purchased Electric	Scope 3 - Indirect (upstream activities) T&D	WTT - generation		WTT - T&D
2019-20	7,284,099	7,284,099	1,861,816	158,065	259,678	22,071	2,301,630
2020-21	6,565,929	6,565,929	1,530,781	131,647	211,226	18,188	1,891,841
2021-22	6,459,796	6,459,796	1,371,608	121,380	357,162	31,588	1,881,738
2022-23	6,328,618	6,328,618	1,223,828	111,953	292,699	26,770	1,655,250
Annual Performance (% difference) against baseline 2019-20:							
20-21 vs 19-20	-10	-18	-18	-17	-19	-18	-18
21-22 vs 19-20	-11	-26	-26	-23	38	43	-18
22-23 vs 19-20	-13	-34	-34	-29	13	21	-28

carbon conversion factors				
	Scope 2	Scope 3		
	Purchased Electricity (grid)	Transmission & Distribution (T&D)	WTT - UK electricity generation	WTT - UK electricity T&D
2019-20	0.25560	0.02170	0.03565	0.00303
2020-21	0.23314	0.02005	0.03217	0.00277
2021-22	0.21233	0.01879	0.05529	0.00489
2022-23	0.19338	0.01769	0.04625	0.00423

Mae ffactorau trawsnewid carbon Cwmpas 2 wedi lleihau bob blwyddyn wrth i'r grid ddatgarboneiddio wrth i fwy o gynhyrchu ynni adnewyddadwy gael ei gynnwys, tra mae'r carbon sy'n berthnasol i ddarparu'r cyflenwad wedi cynyddu.



Mae'r gostyngiad mewn defnyddio trydan ers 2019-20 o ganlyniad i'r canlynol :


(i) Mae cyflwyno Gweithio Ystywyth ar draws yr heddlu ers pandemig Covid wedi cyfrannu at leihad mewn defnydd. Mae hyn i'w weld yn enwedig yn yr adeiladau gweinyddol mwy (y Pencadlys, Tŷ Alex, Llety'r Dryw, PFI) sydd wedi gweld gostyngiad ar y cyd oddeutu 352,000 kWh.

(ii) gosod golau LED mewn safleoedd a gorsafodd mwy sy'n cael defnydd. Mae gan dros chwarter stad HGC olau LED, hefo rhaglenni gwaith ar gyfer prosiectau pellach ar y gweill ar hyn o bryd. Mae safleoedd sydd hefo goleuadau LED wedi cael eu gosod ers 2019-202 wedi gweld gostyngiad ar y cyd mewn galw am drydan oddeutu 411,000 kWh.

(iii) Mae newidiadau i'r Stad hefyd yn effeithio defnydd. Er enghraifft, mae cau Gorsafodd Heddlu Gresffordd a Benllech wedi cael gwared ar 10,630kWh. Mae'r Ganolfan Paratoi Cerbydau newydd sy'n effeithlon o ran defnyddio ynni yn Llanelwy yn defnyddio 52,000kWh yn flynyddol, o'i gymharu â'r Ganolfan flaenorol ar Lannau Dyfrdwy, a oedd yn defnyddio oddeutu 140,000kWh.

Defnydd trydan 2023-24 vs 2019-20 sylfaenol

ELECTRICITY	April	May	June	July	August	Sept	Oct	Nov	Dec	January	Feb	March	TOTAL
Electric 2019-20	591,577	585,383	574,848	598,902	588,520	575,879	626,664	627,653	659,278	672,927			6,101,633
Electric 2023-24	530,376	526,192	503,714	512,346	519,129	515,957	545,432	558,931	572,076	595,840	0	0	5,379,995
Difference kWh	-61,201	-59,191	-71,134	-86,556	-69,391	-59,922	-81,232	-68,722	-87,202	-77,087	0	0	-721,638
Difference %	-10	-10	-12	-14	-12	-10	-13	-11	-13	-11	#DIV/0!	#DIV/0!	-12





Defnydd dŵr: (Allyriadau anuniongyrchol Cwmpas 3)

Mae defnydd dŵr hefo dau set o allyriadau. Un ydy allyriadau anuniongyrchol Cwmpas 3 yn ymwneud hefo defnydd dŵr ac allyriadau anuniongyrchol Cwmpas 3 i driniaeth dŵr (carthffosiaeth).

WATER	Consumption m3	Sewerage m3	Emissions kgCO2e			CCF = carbon conversion factors	
			Scope 3 - Indirect Water Usage	Scope 3 - Indirect Water Treatment	Emissions kgCO2e	CCF Water	CCF - sewerage
			Scope 3 - water	Scope 3 - sewerage	Total Scope 3		
2019-20	25,334	24,067	8,715	17,040	25,755	0.344	0.708
2020-21	23,693	22,508	8,150	15,936	24,086	0.344	0.708
2021-22	27,469	26,096	4,093	7,098	11,191	0.149	0.272
2022-23	41,254	39,191	6,147	10,660	16,807	0.149	0.272
Annual Performance (% difference) against baseline 2019-20:							
20-21 vs 19-20	-6	-6	-6	-6	-6		
21-22 vs 19-20	8	8	-53	-58	-57		
22-23 vs 19-20	63	63	-29	-37	-35		

1 m3 = 1000 litrau



Mae dŵr yn enghraifft lle mae defnydd wedi cynyddu, ond mae'r allyriadau perthnasol wedi gostwng oherwydd newid yn y ffactorau trawsnewid carbon.

Cynyddodd defnydd dŵr yn 2022-23 oherwydd gollyngiadau. Y prif un oedd gollyngiad sylweddol ym Mhencadlys yr Heddlu, gan arwain at 16,230m3 yn mynd drwy'r cyflenwad ar fesurydd. Roedd hwn yn ollyngiad tanddaearol, na fyddai wedi cael ei ganfod hyd nes iddo dorri drwy'r wyneb o fewn y tir. Digwyddodd gollyngiadau eraill mewn gwaith peipiau yn y

Cyfateilad Hyfforddiant Drylliau Tanio (712m3 ychwanegol wedi'i dynnu o'r cyflenwad) a sestonau toiled yn rhedeg o hyd yng Ngorsaf Heddlu Rhosllannerchrugog (94m3) a Gorsaf Heddlu Abergele (151m3). Nodwyd y gollyngiadau hyn gan bersonél HGC ac fe gafodd yr Adran Gyfleusterau wybod, a wnaeth gysylltu hefo contractwyr er mwyn unioni'r sefyllfa. Dechreuodd y gollyngiadau yn y Pencadlys a'r Cyfateilad Drylliau Tanio ym mlwyddyn ariannol 2021-22, sy'n cyfrannu at y defnydd cynyddol yn y flwyddyn honno.

Gwastraff a Grëwyd: (Allyriadau anuniongyrchol Cwmpas 3) .

Ar hyn o bryd, Heddlu Gogledd Cymru ydy'r unig heddlu yng Nghymru (ac un o'r ychydig Heddluoedd yn y DU) sydd yn gallu adrodd am allyriadau sy'n berthnasol i waredu gwastraff ar sail symiau presennol (tunelli a litrau). Mae heddluoedd eraill yn seilio eu data ar wariant.


Mae gwastraff hylif yn cael ei 'dybio' fel tunelli, gan nad oes ffactorau trawsnewid ar gyfer gwastraff hylif ar gael yn y setiau data trawsnewid carbon o DEFRA neu Lywodraeth Cymru.

Gan fod gwastraff ar sail pwysau (am wastraff solid) rhaid deall fod yr un bin cyfaint yn gallu creu pwysau gwahanol iawn. Er enghraifft mae bin gwastraff cyffredinol (gwastraff bag du) yn tueddu bod yn drymach nac ailgylchu gwastraff cyffredinol, sy'n cynnwys plastig yn bennaf ac mae'n llawer ysgafnach gan mai aer ydy'r mwyafrif o'r cyfaint.

Mae 34 o ffrydiau gwastraff yn cael eu cofnodi, gan gynnwys popeth o finiau mewn swyddfeydd, i wastraff paratoi cerbydau, gwastraff cyfrinachol, gwastraff clinigol a gwaredu cyffuriau. Mae'r ffrydiau gwastraff wedyn yn cael eu coladu i bum prif grŵp allyriadau, gan ddibynnu ar y math o lwybr gwaredu.

Data split by waste streams:		Weight (tonnes)			
Disposal Type	Waste Type	2019-20	2020-21	2021-22	2022-23
combustion	General waste - bins (energy from waste)	117.34	108.34	117.45	142.66
combustion	Drugs (incineration)	2.08	2.08	2.18	3.44
recycling	General waste - bins - mixed recycling	58.05	48.18	49.95	81.04
recycling	skips	64.34	43.66	57.50	45.01
recycling	Shredding (confidential waste)	39.96	27.28	26.39	24.22
recycling	Waste transferred to recycling centres	3.80	13.90	8.60	8.48
recycling	Cardboard (packaging)	28.08	28.08	28.08	28.08
recycling	Garage workshop waste	5.27	1.97	5.23	2.62
recycling	waste tyres	1.16			
recycling	lead acid batteries	3.62	12.05	2.28	1.00
recycling	non lead acid batteries	2.94	0.62	0.02	0.01
recycling	scrap metal	9.27	0.00	2.48	8.78
recycling	fluorescent tubes	0.23	0.21	0.23	0.46
recycling	mixed IT equipment	2.28	0.41	0.41	0.41
recycling	WEEE (waste electronic & electrical equipment)	0.97	2.71	2.33	0.44
recycling	uniforms	3.14	2.94	2.20	4.10
recycling	other - miscellaneous	9.65	3.13	9.67	1.35
anaerobic digestion	Food waste	4.45	2.95	4.00	8.51
high temperature incineration	Clinical waste (orange bags & sharps)	3.94	3.94	5.93	5.05
landfill	Feminine hygiene waste	0.75	0.75	0.49	0.49
	TOTAL	361.32	303.20	325.42	366.15

Waste generated - split by waste types - tonnes




Data split by waste streams:		Emissions (kgCO2e)			
Disposal Type	Waste Type	2019-20	2020-21	2021-22	2022-23
combustion	General waste - bins (energy from waste)	2,505.65	2,309.45	2,500.93	3,035.83
combustion	Drugs (incineration)	44.42	44.34	46.42	73.20
recycling	General waste - bins - mixed recycling	1,239.59	1,027.04	1,063.61	1,724.55
recycling	skips	1,373.90	930.69	1,224.38	957.82
recycling	Shredding (confidential waste)	853.30	581.52	561.94	515.41
recycling	Waste transferred to recycling centres	81.14	296.30	183.12	180.46
recycling	Cardboard (packaging)	599.61	598.57	597.92	597.55
recycling	Garage workshop waste	112.53	41.99	111.37	55.75
recycling	waste tyres	24.77			
recycling	lead acid batteries	77.30	256.87	48.55	21.28
recycling	non lead acid batteries	62.78	13.22	0.43	0.21
recycling	scrap metal	197.95	0.00	52.81	186.84
recycling	fluorescent tubes	4.91	4.48	4.90	9.79
recycling	mixed IT equipment	48.69	8.74	8.73	8.72
recycling	WEEE (waste electronic & electrical equipment)	20.71	57.77	49.61	9.36
recycling	uniforms	67.05	62.67	46.85	87.25
recycling	other - miscellaneous	206.06	66.72	205.91	28.73
anaerobic digestion	Food waste	45.41	30.10	35.80	75.83
high temperature incineration	Clinical waste (orange bags & sharps)	4,231.56	4,231.56	6,368.82	5,423.70
landfill	Feminine hygiene waste	74.82	343.63	228.85	228.83
	TOTAL	11,872.17	10,905.66	13,340.95	13,221.12

note: for the same volume bin - mixed recycling (mainly plastic) is not as heavy as black bag waste (energy from waste) - therefore less emissions produced

Disposal Type	Scope 3 - carbon conversion factors			
	2019-20	2020-21	2021-22	2022-23
combustion	21.354	21.317	21.294	21.280
recycling	21.354	21.317	21.294	21.280
anaerobic digestion	10.204	10.204	8.951	8.911
high temperature incineration	1074	1074	1074	1074
landfill	99.759	458.176	467.046	467.008

Waste - Emissions - kgCO2e - (Scope 3)




Gwastraff clinigol (offer miniog a bagiau oren) ydy un o'r ffrydiau gwastraff lleiaf yn ôl cyfaint ond mae hefo'r allyriadau uchaf oherwydd y ffactor trawsnewid carbon uchel.

Mae adolygiad llawn o reoli gwastraff o fewn yr Heddlu ar y gweill ar hyn o bryd. O fis Ebrill 2024, mae Llywodraeth Cymru'n cyflwyno rheoliadau newydd a fydd yn gofyn i bob gweithle wahanu deunyddiau y gellir eu hailgylchu yn yr un ffordd mae'r mwyafrif o gartrefi yn gwneud rŵan. Bydd hyn yn gwella ansawdd ac amllder sut mae gwastraff yn cael ei gasglu a'i waredu.


Cadwyn Gyflenwi: (Allyriadau anuniongyrchol Cwmpas 3) .

Mae Cadwyn Gyflenwi'n seiliedig ar wariant (£) ac wedi'i rannu rhwng codau SIC o ran y gwariant. Mae data costau Heddlu Gogledd Cymru yn berthnasol i 29 o gategoriâu gwahanol o fewn offeryn adrodd carbon sero net Llywodraeth Cymru ar gyfer bob blwyddyn rhwng 2019-20 a 2022-23. Mae allyriadau cadwyn gyflenwi yn faes newydd cyfrifyddu carbon. Yr unig ffactorau trawsnewid carbon sydd ar gael i HGC eu defnyddio ydy'r rhai hynny a geir yn offeryn adrodd Llywodraeth Cymru. Parhaodd y ffactorau trawsnewid carbon yr un fath ar gyfer 2019-20, 2020-21 a 2021-22. Fe wnaethant ostwng yn 2022-23, felly er bod y gwariant wedi cynyddu yn 2022-23, fe wnaeth yr allyriadau ostwng.


Supply Chain - COSTS - £



Supply Chain - emissions - kgCO₂e (Scope 3)



Supply Chain - emissions - kgCO₂e



<p>Risgiau / Materion Allweddol</p>	<p>Costau ynni – roedd cynnydd sylweddol mewn costau o 1 Hydref 2022 o ran cost prynu trydan a nwy. Fe wnaeth y rhain ostwng ychydig oherwydd gweithredu Cynllun Rhyddhad Bil Ynni'r Llywodraeth. Mae costau ynni ar gyfer 1 Hydref 2023 yn is, ond yn sylweddol uwch na chostau ynni hanesyddol a welwyd mewn blynyddoedd blaenorol.</p> <p>Gwella rheoli gwresogi ac oeri mewn adeiladau – Mae oddeutu 40 safle (oddeutu 60% o'r Stad) ar System Rheoli Ynni Adeiladau (BEMS). Mae'n nhw'n rhedeg ar Trend 963 (a osodwyd yn wreiddiol yn 1995) sydd bellach yn ddarfodedig. Y fersiwn ddiweddaraf ydy iQ Vision bellach. Mae Trend 963 dal yn gallu cael ei ddefnyddio ond mae'n gyfyngedig gan fod y ffordd o gysylltu hefo personél yr Adran Gyfleusterau wedi'i cholli oherwydd newidiadau yn systemau TG HGC (mae Contractwyr Trend dal y gallu cael mynediad at y BEMS drwy eu systemau nhw). Hefyd, nid ydy Trend 963 yn cynnwys y nodweddion modern sydd eu hangen ar gyfer rheoli ynni'n well, sydd ar gael drwy iQ Vision. Mae newid o Trend 963 i iQ Vision yn golygu gwneud newidiadau, symud o system llinell ffôn i system rhwydwaith TG HGC, a phrynu meddalwedd iQ Vision. Mae'r Adran Gyfleusterau yn ymgynghori hefo'r Adran TG gan bod angen rhwydwaith ddod mewn ac edrych dros y gwaith sydd ei angen a chanfod costau'r system newydd (mae costau'n anhysbys ar hyn o bryd ond mae disgwyl iddyn nhw fod yn sylweddol).</p>
<p>Penderfyniadau</p>	<p>Nodi cynnwys yr adroddiad hwn.</p>



**HEDDLU
GOGLEDD CYMRU
NORTH WALES
POLICE**

Pwyllgor Moeseg HGC K Ambrose



Yn gwneud Gogledd Cymru'r lle mwyaf diogel i fyw, gweithio ac ymweld yn y DU
Making North Wales the safest place to live, work and visit in the UK

Cadeirydd Allanol Newydd – Vicci Holbrook Hughes

- Fy nghefnidir;
 - Ymchwilio'n wreiddiol fel Nyrs, Uwch Reolwr Gwasanaethau Cymdeithasol, Portsmouth
 - Prif Swyddog Gweithredol elusen fach yng Ngorllewin y Rhyl, cyfnod byr diweddar fel Swyddog Ymchwil ar gyfer y Ganolfan Arbenigedd ar Gam-drin Plant yn Rhywiol
 - Sawl blwyddyn a rolau o fewn Childline: fy rôl olaf oedd Rheolwr safle Prestatyn.
- Ar hyn o bryd yn Oedolyn Priodol ac ynghylch mewn peth gwaith ymgynghori tymor byr ar gyfer yr Eglwys yn Lloegr ar faterion diogelu
- Mae fy angerdd am foeseg wedi bod yn gonglfaen fy mywyd personol a'm gyrfa broffesiynol cyhyd a dwi'n cofio. Dwi wedi ymroi helpu Heddlu Gogledd Cymru hefo'i archwiliadau moesegol parhaus.



Cylch gorchwyl diweddaraf y pwyllgor

Mae'r Pwyllgor Moeseg yn gyfrifol am wella ymddiriedaeth a hyder ym maes llywodraeth a gweithredoedd moesol Heddlu Gogledd Cymru a Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd.

Er mwyn cyflawni ei gyfrifoldebau, bydd aelodau'n


- Ystyried dilemâu moesol sydd wedi eu cyflwyno i'r pwyllgor a gwneud argymhellion i'r Prif Swyddogion a'r CHTH.
- Hyrwyddo'r safonau uchaf ynghylch ymddygiad moesegol.
- Rhoi canolbwynt ar addysg i faterion moesegol.
- Bod yn ffynhonnell cymorth i fyrddau eraill a phob maes o'r heddlu ar faterion moesegol a sicrwydd moesegol.
- Sicrhau cydymffurfiaeth â gwerthoedd sefydliadol.
- Defnyddio "Cod Moeseg 2014" y Coleg Plismona er mwyn cynorthwyo gwneud penderfyniadau.
- Rhoi gwiriad sicrwydd i Algorithm/defnydd deallusrwydd artiffisial HGC, gan ddefnyddio'r fframwaith Safonau gwirio.
- Rhoi gwiriad sicrwydd moesegol i bolisiau newydd a diwygiedig HGC.
- Rhoi sicrwydd moesegol a chysylltu hefo bwrdd diwylliant HGC.
- Nodi cyfleoedd dysgu a/neu newid gweithrediad

Cyfathrebu Forcebook er mwyn ehangu ymgysylltu

Dilemâu Moesegol

- Er ein bod yn mabwysiadu fframwaith y Cod Moeseg yn ddyddiol, mae 'na adegau pan 'da ni'n ansicr os 'da ni wedi gwneud y penderfyniad iawn. Neu gall fod adegau pan 'da chi wedi ystyried rhai penderfyniadau o fewn sefydliad ac wedi meddwl "sut y gall hynny fod yn iawn" ond eto hefo unlle i fynd â'ch cwestiwn ato.
- Er mwyn sicrhau bod Heddlu Gogledd Cymru yn hyrwyddo dull moesegol tuag at wneud penderfyniadau a chynnal diwylliant moesegol drwy'r sefydliad, 'da ni am weithredu Pwyllgor Moeseg lle gellir trafod yr ymholiadau hyn.
- Mae tudalen dilemâu moesegol ar Forcebook <http://intranet.nwp.net/sites/ed/SitePages/Home.aspx>
- Cyflwynwch unrhyw ddilemâu Moesegol i'r bwrdd drwy'r ddolen ganlynol <http://intranet.nwp.net/sites/ED/SitePages/Submit%20a%20Dilemma.aspx> neu drwy e-bost at Ethical.Dilemmas@nthwales.pnn.police.uk

Llif Proses Dilema MoeseGol



Detholiad o ddilemâu a drafodwyd dros y 12 mis diwethaf

E-sigaréts

- Mae e-ysmygu yn cael ei gefnogi gan y GIG fel ffordd i'n staff sy'n ysmegu roi'r gorau iddi. Nid ydy HGC yn caniatáu ysmegu gan gynnwys e-sigaréts ar safleoedd yr heddlu (gan gynnwys meysydd parcio) sy'n golygu y bydd staff yn aml yn gorfod cerdded (weithiau am 3 y bore) i leoliad oddi ar y safle. Os 'da ni'n HGC yn caniatáu e-ysmygu ar ein safleoedd, byddai'n annog y rhai hynny sy'n ysmegu roi gorau i sigaréts. A ydy hi'n foesegol ac yn iawn anfon e-ysmygwyr oddi ar safleoedd fel rhai sy'n ysmegu sigaréts? A fyddai'n foesegol darparu mannau e-ysmygu neilltuol ar safleoedd ar gyfer e-ysmygu'n unig a dim ysmegu?
- Argymhelliad y Pwyllgor ydy y dylai'r rheolau presennol o fewn HGC sefyll - ni chaniateir ysmegu ac e-ysmygu ar safleoedd yr heddlu.

Teithio ar Drenau

- Mae cynllun iawndal cenedlaethol ar gael ar hyn o bryd sef 'ad-daliad oedi'. Mae'r cynllun wedi'i lunio er mwyn symleiddio ceisiadau am iawndal os oes oedi ar y rheilffyrdd. Mae canran o gost y daith yn cael ei had-dalu gan ddibynnu ar yr oedi. Wrth deithio ar drenau ar gyfer gwaith sydd wedi cael eu harchebu o flaen llaw ar ein cyfer, gallwn ni ddefnyddio'r cynllun hwn pan 'da ni'n dioddef oedi.
- Argymhelliad y Pwyllgor Moeseg ydy bod yr unigolyn yn gallu hawlio am eu hamser drwy eu cyflogwr, ond mi ddylai'r ad-daliad gael ei hawlio gan bwy bynnag wnaeth dalu am y tocyn e.e. y sefydliad.
- Y gweithrediad ydy ychwanegu'r cynllun Ad-dalu Oedi i'r polisi HGC perthnasol

Detholiad o ddilemâu a drafodwyd dros y 12 mis diwethaf

Cynghorwyr Cymuned

- A ddylai swyddog heddlu sy'n gwasanaethu gael bod yn Gyngorydd Cymuned?
- Mae'r Pwyllgor yn cefnogi.

Polisi Lefelau Rheoli Mynediad (ACL)

- A ddylai ACL fod yn berthnasol i achosion sy'n cynnwys aelodau staff?
 - Mae ACL yn golygu cuddio Achosion/Pobl/Dogfennau rhag y boblogaeth blismona gyffredinol a hefyd atal yr un peth gael ei rannu hefo Cronfa Ddata Genedlaethol yr Heddlu (PND) ar gyfer y gymuned Gorfodi'r Gyfraith ehangach.
- Yr argymhelliad posibl oedd y gellid mynd â'r polisi ACL i'r cyfarfod rhanbarthol. Yn HGC mae Grŵp Aur wedi cael ei sefydlu er mwyn edrych ar y defnydd o'r Lefelau hyn

Ymchwiliadau Swyddogion/Staff yr Heddlu

- Os ydy swyddog/aelod o staff yr heddlu'n wynebu ymchwiliad troseddol, a ddylen nhw barhau yn y gweithle neu a ddylen nhw gael eu gwahardd ar gyflog llawn? Os ydyn nhw'n aros yn y gweithle, a ddylen nhw barhau mewn rôl gyhoeddus?
- Yr argymhelliad posibl oedd craffu allanol ynghylch gwahardd unigolyn, ond nid ydy Rheoliadau'r Heddlu'n cefnogi hyn.

Edrych ymlaen

- Cynnwys y Pwyllgor Moeseg wrth gadarnhau holl sicrwydd polisi newydd
- Y Cadeirydd yn cynrychioli Moeseg yn y Pwyllgor Diwylliant
- Hyrwyddo'r Pwyllgor Moeseg ymhellach a chynyddu aelodaeth
- Canolbwyntio ar nid yn unig dilemâu a gyflwynwyd ond dilemâu a grëwyd gan y pwyllgor er mwyn creu cynllun gwaith.
- Cysylltu hefo byrddau llywodraethu allweddol er mwyn codi a chyflwyno dilemâu, byrddau Diwylliant ac IAG, AIG
- Mynd ati a chwilio am ddilemâu Moesegol, yn hytrach na disgwyl eu derbyn a gofyn y cwestiynau heriol hynny sef 'ydan ni wedi edrych ar hyn?'
- Ceisio sicrhau ein bod ni'n galluogi mynediad cyhoeddus a thryloywder i ddilemâu sy'n cael eu trafod ar y wefan gyhoeddus



**HEDDLU
GOGLEDD CYMRU
NORTH WALES
POLICE**

Archwiliad diwylliannol / Cultural Audit

Gethin Jones




Yn gwneud Gogledd Cymru'r lle mwyaf diogel i fyw, gweithio ac ymweld yn y DU
Making North Wales the safest place to live, work and visit in the UK

Adolygiad Archwiliad Diwylliannol



Taflu goleuni ar y sefydliad



Dadansoddiad Bwrdd Gwaith



Wedi'i gomisiynu ym mis Chwefror 2023



Gweithdai Dilysu




Ailadrodd Diwylliannol



Yn gwneud Gogledd Cymru'r lle mwyaf diogel i fyw, gweithio ac ymweld yn y DU
Tudalen 169 o 175
Making North Wales the safest place to live, work and visit in the UK

Beth oedd yn gadarnhaol?



Cydweithwyr a
Chymunedau



Cit, Lifrai, Fflyd a TGCh



Darparu Lles



Yn gwneud Gogledd Cymru'r lle mwyaf diogel i fyw, gweithio ac ymweld yn y DU
Tudalen 170 o 175
Making North Wales the safest place to live, work and visit in the UK


Ar beth ddysten ni edrych arno?



**Anhysbysrwydd
Cyfrinachol**



'Old Boys Club'



Prosesau Dyrchafu



Rhaglen Arweinyddiaeth Gynhwysol

- Y buddsoddiad mwyaf mewn arweinyddiaeth ers 15 mlynedd
- Rheolwyr llinell 1af ac 2il linell
- Hyd yma...18 gweithdy, 232 o gynrychiolwyr
- Yn gydnaws â Senseia
- Adborth gwych



Cod Moeseg



Cod Moeseg

Gwneud y pethau iawn, yn y ffordd iawn, am y rhesymau cywir

#CodMoeseg #CodeofEthics



Code of Ethics

Doing the right things, in the right ways, for the right reasons

#CodeofEthics



- Lansiad cenedlaethol 24/1/24
- 'Adlewyrchu er mwyn perffeithio'
- Ymarferol ac wedi'i egluro'n well
- Cynllun cyfathrebu helaeth mewn 2 gam
- Gosod dysgu, gan ganolbwyntio ar '**y pethau iawn yn y ffordd iawn am y rhesymau iawn**'
- Cysylltiadau cryf hefo 'diwylliant'



Yn gwneud Gogledd Cymru'r lle mwyaf diogel i fyw, gweithio ac ymweld yn y DU
Tudalen 173 o 175
Making North Wales the safest place to live, work and visit in the UK

Bwrdd Diwylliant

- Diwylliant cyfrifoldeb – *'y grym cymdeithasol sy'n eich clymu chi at eich rhwymedigaethau a'ch ffyrdd o weithredu a ofynnir gan y grym hwnnw'*
- Adroddiad terfynol gan Senseia.
- Cydberthynas gref hefo'r Pwyllgor Moeseg a'r rhaglen Arweinyddiaeth Gynhwysol
- Amserol hefo lansio'r Cod Moeseg newydd
- Tri amcan creiddiol – Diogelwch seicolegol
Deialog ystyrion
Cyfrifoldeb
- Cyfathrebu mewnol



**HEDDLU
GOGLEDD CYMRU
NORTH WALES
POLICE**

Diolch yn fawr | Thank you
Unrhyw gwestiynau / Any questions